# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN**<br>**17 MEHEFIN 2019**<br>**10.00 o'r gloch** | | **MONDAY**<br>**17 JUNE 2019**<br>**10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR**<br>**SWYDDFEYDD Y CYNGOR**<br>**LLANGEFNI** | | **COUNCIL CHAMBER**<br>**COUNCIL OFFICES**<br>**LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes**<br>**01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**
Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim materion brys ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno i'w cadarnhau, cofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 20 Mai 2019.

**4** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 5 - 16)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**5** **ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO - CHWARTER 4, 2018/19** (Tudalennau 17 - 38)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn, AD a Thrawsnewid.

**6** **DOGFEN CYLFAWNI BLYNYDDOL 2019/20** (Tudalennau 39 - 56)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn, AD a Thrawsnewid.

**7** **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 4, 2018/19** (Tudalennau 57 - 86)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**8** **ADRODDIAD ALLDRO CYFALAF 2018/19** (Tudalennau 87 - 98)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**9** **MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI - BLWYDDYN ARIANNOL 2018/19** (Tudalennau 99 - 106)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)Swyddog Adran 151.

**10** **POLISI CORFFORAETHOL AR ADENNILL DYLEDION** (Tudalennau 107 - 150)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**11** **GOSTWNG OED MYNEDIAD YSGOL HENBLAS** (Tudalennau 151 - 156)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

**12** **ADRODDIAD CYNNYDD AR Y GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD** (Tudalennau 157 - 168)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Plant.

**13** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 169 - 170)

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohono yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".

**14** **DARPARU'R GWASANAETH CASGLU GWASTRAFF A GLANHAU STRYDOEDD** (Tudalennau 171 - 222)

Cyflwyno adroddiad a baratowyd ar y cyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mai, 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE, FRAgS, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaeth, Cymuned a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Pennaeth Dysgu<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ar gyfer eitem 4)<br>Rheolwr Strategaeth, Polisi a Chomisiynu y Gwasanaeth Tai (ELl)( ar gyfer eitem 7)<br>Cyfreithiwr (Gofal Cymdeithasol ac Addysg) (SW)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Lewis Davies, Bryan Owen, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Dylan Rees |

---

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Fe wnaeth y Cynghorydd Richard Dew ddatgan diddordeb personol sy'n rhagfarnu yn eitem 6 ar yr agenda.

Fe wnaeth y Cynghorydd Carwyn Jones ddatgan diddordeb personol sy'n rhagfarnu yn eitem 6 ar yr agenda ond cyfeiriodd at y caniatâd arbennig a gafodd gan y Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin, 2017 a oedd yn caniatáu iddo wneud sylwadau fel Aelod Lleol ond nid i bleidleisio ar y mater.

Fe wnaeth y Cynghorydd Ieuan Williams ddatgan diddordeb personol yn eitem 5 ar yr agenda.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO

Dim i'w hadrodd.

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith eu hystyried – cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 29 Ebrill, 2019.

**Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 29 Ebrill, 2019 fel rhai cywir.**

## 4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod o fis Mehefin, 2019 hyd at fis Ionawr, 2020.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ddiweddariad i'r Pwyllgor Gwaith ynghylch yr eitemau oedd yn newydd i'r Rhaglen Waith (eitemau 7 a 14) neu rai oedd wedi cael eu hail-raglennu (eitem 22 o fis Medi, 2019 i fis Hydref, 2019) a dywedodd hefyd y bwriedir cynnal cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Gwaith ar 10 Mehefin, 2019 i ystyried materion Busnes y Cyngor.

**Penderfynwyd cadarnhau'r Flaen Raglen Waith wedi ei diweddaru am y cyfnod o Fehefin, 2019 i Ionawr, 2020 fel y'i cyflwynwyd.**

## 5. FFURFIOLI'R BARTNERIAETH RHWNG YSGOL GORONWY OWEN AC YSGOL MOELFRE TRWY BROSES FFEDERALEIDDIO

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried – adroddiad y Pennaeth Dysgu ynglŷn â chais a wnaed gan Gyrff Llywodraethu Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre i ffurfioli'r bartneriaeth rhwng y ddwy ysgol trwy ffederaleiddio'r ddau Gorff Llywodraethu.

Cadarnhaodd y Pennaeth Dysgu fod Swyddogion yn gefnogol i'r cais a'u bod yn argymell symud ymlaen i ymgynghori ar y cynnig yn unol â'r broses. Awgrymodd yr Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid fod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r argymhelliad.

**Penderfynwyd awdurdodi Swyddogion i gychwyn y broses o ymgynghori ar ffurfioli'r bartneriaeth rhwng Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre trwy ffederaleiddio'r ddau Gorff Llywodraethu.**

## 6. STRATEGAETH FODERNEIDDIO – ARDALOEDD LLANGEFNI A SEIRIOL

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried – adroddiad y Pennaeth Dysgu yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith ddiddymu ei benderfyniadau blaenorol ynglŷn â dyfodol y ddarpariaeth addysg yn ardaloedd Llangefni a Seiriol.

*Gan iddo ddatgan diddordeb personol sy'n rhagfarnu yn y mater hwn, gadawodd y Cynghorydd Richard Dew y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ar y mater.*

Adroddodd y Prif Weithredwr, o ganlyniad i nifer o sylwadau a phryderon ynglŷn â'r broses ymgynghori ar foderneiddio ysgolion yn ardaloedd Llangefni a Seiriol, ac oherwydd i gŵyn gael ei chyflwyno ynglŷn â diffyg cydymffurfiaeth â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013), roedd y Swyddogion wedi cynnal adolygiad mewnol o'r broses ymgynghori statudol a wnaethpwyd yn y ddwy ardal. Roedd y canfyddiadau o'r adolygiad mewnol wedi dwyn sylw at bryderon technegol ynglŷn â chydymffurfiaeth â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013), ac mae enghreifftiau penodol o'r diffyg cydymffurfiaeth i'w gweld yn yr adroddiad. Oherwydd y pryderon hyn, y risgiau sy'n gysylltiedig â'r broses a'r angen i allu dangos bod y broses wedi bod yn gwbl drylwyr a thryloyw, ac oherwydd parch y Cyngor at y cymunedau dan sylw, roedd y Swyddogion yn argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn diddymu ei benderfyniadau blaenorol ar ddyfodol addysg yn ardaloedd Llangefni a Seiriol.

Dywedodd y Prif Weithredwr nad y Pwyllgor Gwaith na'r Aelodau Etholedig, a oedd wedi gweithredu ar gyngor y Swyddogion, oedd yn gyfrifol am y llithriad hwn; mae wedi codi oherwydd pwyntiau penodol lle nad oedd proses ymgynghori y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion y Cod, ac ni sylwyd ar y pwyntiau penodol hyn ar y pryd. Fel y Prif Weithredwr ac

fel y Swyddog oedd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am y rhaglen ar y pryd, roedd yn edifar ganddo ac roedd yn siomedig iawn fod hyn wedi digwydd, yn enwedig gan fod y broses Moderneiddio Ysgolion yn un o raglenni mwyaf heriol y Cyngor sy'n golygu gorfod gwneud penderfyniadau anodd iawn ar brydiau. Ymddiheurodd am hyn, ac yn arbennig wrth yr holl fudd-ddeiliaid a oedd wedi rhoi o'u hamser i gymryd rhan yn y prosesau ymgynghori a wnaed yn ardaloedd Llangefni a Seiriol. Amcan y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn dal i fod yw darparu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i ddisgyblion, athrawon a Phenaethiaid yr Ynys gan felly greu'r amgylchiadau lle gallant gyflawni a llwyddo. Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod ef a'r Pwyllgor Gwaith yn gweld llwyddiant plant ysgol yr Ynys a llwyddiant addysg fel mater o bwysigrwydd eithriadol.

Dywedodd yr Aelod Portffolio dros Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid ei fod yntau, fel y Prif Weithredwr, hefyd yn siomedig gyda'r datblygiad hwn, gan ystyried yr holl waith oedd wedi digwydd ar ran y Cyngor a phawb sy'n gysylltiedig â'r ysgolion yn y ddwy ardal, ac yn enwedig am ei fod o ganlyniad i lithriad mewn proses. Er i'r materion perthnasol dderbyn sylw a chael eu trafod yn y cyfarfodydd sgriwtini a chyfarfodydd eraill, ni wnaeth hyn gydymffurfio'n llwyr â'r Cod. Tra bod y llithriad yn lithriad yn y broses, mae'r Cyngor a'i aelodau etholedig yn ymddiheuro i bawb sy'n gysylltiedig â'r ysgolion yn ardaloedd Llangefni a Seiriol. Yn wyneb y manylion yn yr adroddiad, cynigiodd argymhelliad y Swyddog y dylid diddymu'r penderfyniadau blaenorol ar y ddarpariaeth addysg yn ardaloedd Llangefni a Seiriol. Cynigiodd hefyd y dylid gofyn i'r Swyddogion edrych o'r newydd ar y gwahanol faterion sy'n ymwneud â moderneiddio ysgolion a'r gofynion o dan Gôd Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn ardaloedd Llangefni a Seiriol, a dod ag adroddiad priodol yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith maes o law.

Cytunodd y Pwyllgor Gwaith gyda chynigion y Aelod Portffolio.

**Penderfynwyd –**

- **Diddymu'r penderfyniadau blaenorol a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith ynglŷn â dyfodol addysg yn ardaloedd Llangefni a Seiriol.**
- **Gofyn i'r Swyddogion edrych o'r newydd ar y gwahanol faterion mewn perthynas â moderneiddio ysgolion a'r gofynion o dan Gôd Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn ardaloedd Llangefni Seiriol ac i ddychwelyd gydag adroddiad priodol i'r Pwyllgor Gwaith maes o law.**

***(Ni wnaeth y Cynghorydd Carwyn Jones bleidleisio ar y mater)***

**7. POLISI GOSOD – YMGYNGHORI AR GYNNWYS CYSYLLTIAD LLEOL O FEWN Y SYSTEM BANDIO**

Cyflwynwyd i'w ystyried – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i ymgynghori ar gynnwys cysylltiad lleol o fewn y system fandio ar gyfer gosod tai.

Roedd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau yn cymeradwyo'r adroddiad a'r argymhellion ynddo i'r Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd Rheolwr Strategaeth, Polisi a Chomisiynu y Gwasanaeth Tai fod y Gwasanaeth yn awyddus i ymchwilio i'r goblygiadau o gynnwys cysylltiad lleol yn y Polisi Gosod Cyffredin. O dan y polisi cyfredol, mae'n ofynnol fod gan ymgeisydd o leiaf 5 mlynedd o gysylltiad gyda'r Ynys; byddai'r ymchwil pellach a fwriedir ynghyd â'r ymgynghoriad yn edrych ar y goblygiadau o gynnwys cysylltiad â phlwyf, pentref neu dref benodol. Mae rhaglen waith a chynllun ymgysylltu wedi cael eu paratoi, i'w gweithredu gyda sêl bendith y Pwyllgor Gwaith.

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn gefnogol i'r cynnig ac yn cydnabod cysylltiad lleol fel ffactor wrth adeiladu cymunedau cynaliadwy.

**Penderfynwyd –**

- **Yn dilyn cynnal gwaith ymchwil pellach, bod cyfnod ymgynghori yn digwydd ar gyfer cynnwys cysylltiad lleol o fewn y Polisi Gosod Cyffredin cyfredol a,**
- **Bod y cyfnod ymgynghori yn gallu cynnig cyfle i wella trefniadau gweinyddu'r Gofrestr.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

DRAFFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **17 Mehefin 2019** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Gorffennaf 2019 – Chwefror 2020;**

Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;

Nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| - |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen). Fe'i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **6** | **Eiddo** | |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Amherthnasol. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | Economaidd | |
| 2 | Gwrthdlodi | |
| 3 | Trosedd ac Anhrefn | |
| 4 | Amgylcheddol | |
| 5 | Cydraddoldebau | |
| 6 | Cytundebau Canlyniad | |
| 7 | Arall | |

| FF - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Gorffennaf 2019 – Chwefror 2020. |

| G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyfnod: Gorffennaf 2019 – Chwefror 2020

Diweddarwyd 7 Mehefin 2019

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig.  Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.



Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb.  Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau.  Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Gorffennaf 2019 - Chwefror 2020** ar y tudalennau dilynol.

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Gorffennaf 2019 – Chwefror 2020

Diweddarwyd 7 Mehefin 2019

Tudalen 9

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Sesiwn Briffio neu Gyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gorffennaf 2019** | | | | | | |
| 1 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Gorffennaf 2019 | |
| 2 | **Cyfrifon Terfynol Drafft ar gyfer 2018/19** | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Gorffennaf 2019 | |
| 3 | **Cronfa'r Degwm**<br><br>Cymeradwyo trefniadau newydd. | | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Gorffennaf 2019 | |
| 4 | **Byw gyda Chefnogaeth (Anableddau Dysgu) – Opsiynau Comisiynu** | | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol dros dro<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>11 Gorffennaf 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Gorffennaf 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Gorffennaf 2019 – Chwefror 2020

Diweddarwyd 7 Mehefin 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Sesiwn Briffio neu Gyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol** | | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol dros dro<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 8 Gorffennaf 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Gorffennaf 2019 | |
| 6 | **Cais i Ffederaleiddio Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell**<br><br>Cymeradwyaeth i ymgynghori. | | Dysgu | Arwyn Williams Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Gorffennaf 2019 | |
| 7 | **Datblygiadau Tai Cyngor o 10 uned a mwy** | | Tai | Ned Michael Pennaeth Tai<br><br>Cyng Alun Wyn Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Gorffennaf 2019 | |
| | | | | **Medi 2019** | | | |
| 8 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| 9 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2019/20 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 11 Medi 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Gorffennaf 2019 – Chwefror 2020

Diweddarwyd 7 Mehefin 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Sesiwn Briffio neu Gyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 10 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2019/20 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| 11 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2019/20 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| 12 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2019/20 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| 13 | **Cynllun Ariannol Tymor Canolig** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |

Tudalen 11

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Gorffennaf 2019 – Chwefror 2020

Diweddarwyd 7 Mehefin 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Sesiwn Briffio neu Gyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 14 | **Adolygiad Rheoli Trysorlys 2018/19** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| 15 | **Trawsnewid Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu**<br><br>Cydsyniad i'r broses ymgysylltu. | | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol dros dro<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>w/c 9 Medi 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| 16 | **Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella Gwasanaethau Plant<br>22 Awst 2019<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>11 Medi 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| | | | | **Hydref 2019** | | | |
| 17 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Hydref 2019 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Gorffennaf 2019 – Chwefror 2020

Diweddarwyd 7 Mehefin 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Sesiwn Briffio neu Gyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 18 | **Polisi Gosod Tai Cyngor (Cysylltiad Lleol)**<br><br>Cymeradwyaeth yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. | | Gwasanaethau Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Wyn Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>11 Medi 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Hydref 2019 | |
| 19 | **Adroddiad Monitro Blynyddol - Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dylan Williams<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Richard Dew | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Hydref 2019 | |
| | **Tachwedd 2019** | | | | | | |
| 20 | **Cyllideb 2020/21 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>3 & 5 Medi 2019<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>23 Hydref 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>11 Tachwedd 2019 | |
| | | | | | | | |
| 21 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |

**  Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH
Cyfnod: Gorffennaf 2019 – Chwefror 2020

Diweddarwyd 7 Mehefin 2019

Tudalen 14

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Sesiwn Briffio neu Gyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 22 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2019/20 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 4 Tachwedd 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| 23 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2019/20 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| 24 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2019/20 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| 25 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2019/20 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Gorffennaf 2019 – Chwefror 2020

Diweddarwyd 7 Mehefin 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Sesiwn Briffio neu Gyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Rhagfyr 2019** | | | | | | |
| 26 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Rhagfyr 2019 | |
| 27 | **Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella Gwasanaethau Plant<br>18 Tachwedd 2019<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol Dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Rhagfyr 2019 | |
| | **Ionawr 2020** | | | | | | |
| 28 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Ionawr 2020 | |

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Gorffennaf 2019 – Chwefror 2020

Diweddarwyd 7 Mehefin 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Sesiwn Briffio neu Gyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Chwefror 2020** | | | | | | |
| 29 | **Cyllideb 2019/20 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>3 Chwefror 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | 25 Chwefror 2020 |
| | | | | | | | |
| 30 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | |

Tudalen 16

*Allwedd:*

*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*

*ErG = Er gwybodaeth*

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **17 MEHEFIN, 2019** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 4 (2018/19)** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD DAFYDD RHYS THOMAS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **CARYS EDWARDS** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **GETHIN MORGAN**<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | Amherthnasol |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a'r rheswm/rhesymau**

**1.1** Hwn yw'r cerdyn sgorio olaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19

**1.2** Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol.

*Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn -*

**1.3.1** Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru er mwyn cynorthwyo i wella perfformiad yn ystod 2019/20. Rhoddir pwyslais penodol ar y dangosyddion hynny sydd wedi dirywio flwyddyn ar ôl blwyddyn i sicrhau bod perfformiad yn gwella yn 2019/20.

**1.3.2** Cynnal gweithdy gyda'r UDA, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol yn ystod Ch1 i gadarnhau'r dangosyddion perthnasol i'w cynnwys ar gerdyn sgorio 2019/20.

**1.3.3** Adolygu targedau 19/20 i sicrhau eu bod yn heriol ond bod modd eu cyflawni, ac os nad fydd targedau'n cael eu cyrraedd yn y flwyddyn, mai'r disgwyliad lleiaf yw gwelliant flwyddyn ar ôl blwyddyn.

**1.3.4** Parhau i ganolbwyntio ar gynnal a/neu gwella presenoldeb yn y gwaith gyda'r chyfrifoldeb yn eistedd gyda rheolwyr gwasanaeth gyda chefnogaeth y Cydlynydd Absenoldeb Salwch Corfforaethol a staff AD. Dylid defnyddio paneli herio hefyd yn ôl yr angen.

**1.3.5** Unwaith eto, mabwysiadu targed corfforaethol o 9.75 diwrnod o salwch fesul aelod o staff llawn-amser cyfwerth ar gyfer 2019/20.

**1.3.6** Dylai'r Bwrdd Trawsnewid Prosesau Busnes sydd newydd ei sefydlu ystyried sut y dylid monitro'r Dangosyddion Gwasanaeth Cwsmer fel rhan o'u gwaith sy'n datblygu ar y Strategaeth Gofal Cwsmer er mwyn sicrhau bod ymagwedd ragweithiol at wella gwasanaeth i gwsmeriaid.

**1.3.7** Bod gweithdrefn newydd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gyfer ymateb i gwynion yn cael ei wreiddio yn y gweithgareddau dydd i ddydd er mwyn lleihau nifer y cwynion a gwella cyfradd yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn yr amserlenni.

**1.5** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

**DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Ystyriwyd y mater hwn gan yr UDA yn ei gyfarfod ar 28 Mai ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Dim sylwadau |

| | | |
|---|---|---|
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Dim sylwadau |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | |
| 7 | **Sgriwtini** | Bydd sylwadau yn dilyn y cyfarfod Sgriwtini Corfforaethol ar 3/6 yn cael eu trafod yn y cyfarfod hwn |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |
| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylchedd** | |
| 5 | **Cydraddoldeb** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A - Cherdyn Sgorio Chwarter 4
Atodiad B – Dangosfwrdd Perfformiad Rhaglenni a Phrosiectau – Chwarter 4
Atodiad C - Yr Alldro Refeniw ar gyfer y Flwyddyn Ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2019 – Chwarter 4

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2018/19 – Chwarter 3 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth 2019 ac a dderbyniwyd ganddo.)

d) PAM/032 – Sgôr cyfartalog wedi'i gapio ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 11, gyda pherfformiad o 349.1 ym mlwyddyn academaidd 17/18. Fel yr uchod, mae'r canlyniadau eisoes wedi eu cyhoeddi trwy Lywodraeth Cymru ac mae'r dangosydd yn y chwartel Canolrif uchaf.
e) PAM/009 – Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET) gyda pherfformiad o 1.1% ar ddiwedd 2018, gwelliant o'r 4.2% yn 2017. Mae'r dangosydd yma eisoes wedi'i gyhoeddi trwy Gyrfa Cymru ac mae'r perfformiad wedi gweld y dangosydd yn symyd o'r chwarter isaf i'r chwartel uchaf yn 2018/19.

Yr 1 dangosydd a symudodd i lawr yn y chwarteli oedd;

a) PAM/012 – Canran yr aelwydydd y llwydwyd i'w hatal rhag dod yn ddigartref, dirywiad o 65.2% yn 17/18 i 52.93% yn 18/19. Byddai'r perfformiad hwn wedi gweld y dangosydd yn symud i'r chwartel is yn 17/18.

**2.1.4** Cafodd canlyniadau DP (01-11) y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2017/18 eu rhyddhau gan Lywodraeth Cymru yn ystod Ch3. Oherwydd yr anghysondebau yn yr ystadegau a ddarparwyd gan Awdurdodau trwy Gymru, cyhoeddwyd y canlyniadau hyn fel ystadegau arbrofol unwaith eto eleni ac felly nid ydynt ar gael at ddibenion cymharu. Felly ni fydd modd cymharu ein data Gwasanaethau Cymdeithasol ar lefel genedlaethol am y tro.

**2.1.5** Fodd bynnag, gallwn nodi fod 75% o'r dangosyddion cymaradwy a fesurir ar gyfer y Gwasanaeth Plant wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn, tra bod y Gwasanaethau Oedolion wedi gweld dirywiad o 67% yn y perfformiad flwyddyn ar ôl blwyddyn, gyda 4 o'r 6 dangosydd a fesurir wedi dirywio.

**2.1.6** Mae'r dangosyddion Addysg sydd ar gael (dangosyddion 13,14,31,32,33 a 34 ar y cerdyn sgorio) wedi perfformio'n dda dros y flwyddyn gyda 67% o'r dangosyddion wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn, a lle mae'r dangosyddion blwyddyn-ar-ôl-blwyddyn wedi dirywio ers blwyddyn academaidd 16/17, mae cynghorau eraill wedi dirywio mwy, fel yr eglurir uchod (2.1.3). Roedd tystiolaeth hefyd fod pob un o'r Cyfnodau Allweddol wedi gwella yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18.

**2.1.7** Mae ein perfformiad flwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer yr holl dangosyddion cymaradwy (cyfanswm o 32) yn dangos bod 69% naill ai wedi gwella neu gynnal y perfformiad yn ystod y flwyddyn (19 wedi gwella a 3 wedi cynnal y perfformiad).

**2.1.8** Mae'r perfformiad hwn yn braf i'w weld ar y cyfan ac mae'n adlewyrchiad o'r darlun a welwyd trwy'r flwyddyn yn yr adroddiadau cerdyn sgorio. Fodd bynnag, ni fyddwn yn gwybod yn swyddogol sut ydym wedi perfformio mewn cymhariaeth ag eraill hyd nes caiff y canlyniadau ar gyfer 18/19 eu cyhoeddi gan Data Cymru ym mis Medi. Bydd y darlun cyffredinol yn cael ei drafod yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol (fel y nodir yn 2.1.2), i'w drafod gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith cyn ei fabwysiadu gan y Cyngor yn yr hydref.

**2.1.9** Yn wyneb y feddylfryd o welliant cyson sydd wedi gwreiddio yng ngwasanaethau'r Cyngor, ystyrir bod angen rhoi rhywfaint o naratif am y 3 dangosydd sydd wedi tanberfformio fel Ambr neu Goch yn erbyn eu targedau blynyddol am y flwyddyn.

**2.1.9.1** Y ddau ddangosydd yn y Gwasanaethau Oedolion wnaeth danberfformio am y flwyddyn oedd –

(i) 11) PM20a – COCH – Canran yr oedolion a oedd wedi cwblhau cyfnod o ail-alluogi, oedd yn derbyn pecyn gofal a chymorth ar lefel is 6 mis yn ddiweddarach. Roedd y perfformiad yn yr achos hwn yn 30.87% ar ddiwedd Ch4 yn erbyn targed o 50%.

Mae'r dangosydd hwn yn delio gyda nifer fechan o achosion ac o'r herwydd, gall perfformiad amrywio'n sylweddol o chwarter i chwarter. Yn Ch4, o ganlyniad i'r ymyrraeth ail-alluogi mae'r gwasanaeth wedi'i ddarparu, bu cynnydd yn y pecyn gofal ar gyfer unigolyn ychwanegol sy'n cael ei gefnogi yn hytrach na phecyn gofal is. Mae hyn yn adlewyrchiad o natur y salwch sydd ganddynt.

Yn ystod 2019/20, byddwn yn adolygu'r gwasanaeth ail-alluogi cyfredol ac yn ystyried dulliau o gasglu data sy'n darparu canlyniadau a rhesymeg mwy manwl ar gyfer ymyraethau sy'n parhau.

(ii) 07) PAM/025 (PM19) – RED - Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty tra'n aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed. Roedd perfformiad y dangosydd hwn yn 7.78 ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn targed blynyddol o 3.

Cydnabyddir y bu cyfraddau uchel o oedi wrth drosglwyddo gofal (DTOC) yn ystod dau chwarter cyntaf y flwyddyn yn arbennig. Rhagwelwyd y byddai'r contract Gofal Cartref sy'n seiliedig ar ardaloedd (wedi'i gomisiynu o'r newydd) yn cael effaith gadarnhaol ar y ffigyrau. Gellid gweld hyn yn y perfformiad yn Ch3 (1.53) lle gwelwyd gwelliant ar y perfformiad yn Ch2 (1.79) a Ch1 (2.30). Fodd bynnag, ni welwyd y gwelliant hwn yn Ch4 lle gwelwyd 2.17 yn ychwanegol dros y cyfnod.

Rydym ar hyn o bryd yn gweithio tuag at sicrhau bod gennym ddigon o gapasiti ail-alluogi i gwrdd â galw sy'n cynyddu er mwyn rhoi sylw i unrhyw bryder mewn perfformiad yn ystod 2019/20. Roedd dadansoddiad pellach o'r ffigyrau DTOC cynyddol yn ystod Ch4 wedi nodi y gallai'r cynnydd fod o ganlyniad i godio cleientiaid yn anghywir, ac rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd i sicrhau proses fwy cadarn o godio data, yn enwedig mewn un ysbyty a oedd yn cyfrif am 89% o'r ffigyrau. Bydd hyfforddiant pellach yn digwydd yn yr ysbyty hon er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu cwblhau yn 2019/20.

**2.1.9.2** Mae un dangosydd yn y <u>Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd</u> wedi tanberfformio yn ystod Ch3 –

21) PAM/018 – COCH – Canran yr holl geisiadau cynllunio sy'n cael eu penderfynu mewn pryd. Roedd y perfformiad cronnus hyd at ddiwedd y flwyddyn yn 81% yn erbyn targed o 90%. Roedd y perfformiad yn Ch3 yn unig yn 74% a dyma yw'r prif reswm pam ei fod nawr o dan y targed.

Y prif resymau am y tanberfformiad dros y flwyddyn oedd oherwydd absenoldeb Uwch Swyddog Cynllunio yn ystod cyfran helaeth o'r flwyddyn, a llwyth gwaith trwm wrth siapio'r system gynllunio newydd tra'n ymdopi â gofynion GDPR hefyd.

Er mwyn gwella'r perfformiad yn 2019/20, byddwn yn parhau i sicrhau bod systemau newydd a fabwysiadwyd yn Ch4 mewn lle i gytuno ar amserlen bendant ar gyfer unrhyw estyniad mewn amser lle bod modd gwneud penderfyniad cynnar ar geisiadau tra bydd ceisiadau diffygiol yn cael eu penderfynu trwy eu gwrthod.

**2.1.10** Mae gweddill y dangosyddion i gyd yn WYRDD neu'n FELYN yn yr adran rheoli perfformiad, sy'n galonogol i'w nodi. Fodd bynnag, mae'n peri pryder fod 53% o'r dangosyddion cymaradwy o Ch3 wedi dirywio yn Ch4, a olygodd bod 3 dangosydd wedi disgyn i statws CAG is.

**2.1.11** *Er mwyn gwella ein perfformiad yn gyson fel cyngor sy'n cyflawni,* ***mae'r UDA yn argymell –***

**2.1.11.1** *Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru er mwyn cynorthwyo i wella perfformiad yn ystod 2019/20. Rhoddir pwyslais penodol ar y dangosyddion hynny sydd wedi dirywio flwyddyn ar ôl blwyddyn i sicrhau bod perfformiad yn gwella yn 2019/20*

***2.1.11.2*** *Cynnal gweithdy gyda'r UDA, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol yn ystod Ch1 i gadarnhau'r dangosyddion perthnasol i'w cynnwys ar gerdyn sgorio 2019/20.*

***2.1.11.3*** *Adolygu targedau 19/20 i sicrhau eu bod yn heriol ond bod modd eu cyflawni, ac os nad fydd targedau'n cael eu cyrraedd yn y flwyddyn, mai'r disgwyliad lleiaf yw gwelliant flwyddyn ar ôl blwyddyn.*

**2.1.12** Mae Atodiad B yn dangos yr holl raglen waith y mae'r ddau Fwrdd Trawsnewid Corfforaethol yn ei goruchwylio. Mae'r materion a amlygwyd yn cael eu rheoli a'u tracio'n briodol drwy'r Byrddau sy'n cyfarfod yn chwarterol.

**2.1.13** Mae 2018/19 wedi gweld y Cyngor yn cyflawni gyda'i raglen trawsnewid. Er enghraifft, rydym wedi (rhestr anghyflawn)–

**2.1.13.1** Cwblhau adeiladu Ysgol Santes Dwynwen;
**2.1.13.2** Agor Hafan Cefni, ein darpariaeth gofal ychwanegol cyntaf;
**2.1.13.3** Ail-dendro y Ddarpariaeth Gofal Cartref ar yr ynys;
**2.1.13.4** Cytuno ar leoliad safle aros dros dro i Sipsiwn a Theithwyr ac wedi cael caniatâd cynllunio ar ei gyfer;
**2.1.13.5** Diweddaru ein gwefan er mwyn gyrru ein agenda newid sianel ddigidol;
**2.1.13.6** Gwella ein trefniadau Sgriwtini ac wedi derbyn adolygiad cadarnhaol gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC);
**2.1.13.7** Cwblhau'r gwaith adeiladu ac wedi gosod yr unedau busnes newydd ym Mhen-Yr-Orsedd, Llangefni

## 2.2 RHEOLI POBL

**2.2.1** Mae rheoli ein pobl yn agwedd hollbwysig o reolaeth gorfforaethol y Cyngor sydd (os caiff ei rheoli'n ddigonol) yn ein galluogi ni i barhau gyda'n nod o wella

darpariaeth ein gwasanaethau ar gyfer pobl Ynys Môn. Mae gweithlu da ac iach yn golygu y gallwn ddarparu gwasanaethau da sy'n gwella.

**2.2.2** Mae presenoldeb yn y gwaith yn faes sy'n cael ei adrodd yn fisol a'i ddadansoddi er mwyn sicrhau gwelliant. Yn chwarter 4 cafwyd sgôr o 2.91 Diwrnod Gwaith wedi'u Colli (WDL) fesul aelod staff ALlC sy'n welliant ar y sgôr o 3.08 WDL a gafwyd yn Chwarter 4, 2017/18. Y sgôr cronnus ar gyfer y flwyddyn yw 10.34 WDL fesul Aelod o Staff Llawn-amser Cyfwerth (dangosydd 3 ar y cerdyn sgorio o dan rheoli pobl). Fodd bynnag, mae hyn dros y targed o 9.75WDL fesul ALlC am y flwyddyn ac mae hefyd yn uwch na'r 9.96 WDL fesul ALlC a welwyd yn 2017/18. O ganlyniad, mae ein perfformiad cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn yn golygu y dylai ein safle cenedlaethol ddisgyn un chwartel i lawr i'r Chwartel Canolrif Isaf o gymharu â chanlyniadau 2017/18. Fodd bynnag, mae arwyddion cynnar o nifer o awdurdodau sydd wedi'u lleoli yn debyg i Ynys Môn yn 2017/18 hefyd yn dangos cynnydd mewn WDL fesul ALlC.

**2.2.3** Er mwyn gwella ein cyfraddau salwch ymhellach yn 2019/20, rydym wedi adnabod targedau gwasanaeth am y flwyddyn i ddod yn seiliedig ar dueddiadau 2018/19.

**2.2.4 Mae'r UDA felly'n argymell** –

**2.2.4.1** Parhau i ganolbwyntio ar gynnal a/neu gwella presenoldeb yn y gwaith gyda'r chyfrifoldeb yn eistedd gyda rheolwyr gwasanaeth gyda chefnogaeth y Cydlynydd Absenoldeb Salwch Corfforaethol a staff AD. Dylid defnyddio paneli herio hefyd yn ôl yr angen.

**2.2.4.2** Unwaith eto, byddwn yn mabwysiadu targed o 9.75 diwrnod o salwch fesul ALlC ar gyfer 2019/20.

## 2.3 GWASANAETH CWSMER

***2.3.1*** Hyd at ddiwedd Ch4, fe wnaeth defnyddwyr ddefnyddio technoleg AppMôn i gyflwyno 4700 o adroddiadau (ar faterion yn cynnwys tipio anghyfreithlon, goleuadau stryd diffygiol, canmoliaeth neu gwynion, palmentydd wedi torri, ffurflenni bas data clybiau chwaraeon ac archebu biniau ailgylchu). Mae hyn dros ddwbl y 2000 o adroddiadau a welwyd yn 17/18. Daeth 84% o'r adroddiadau hyn drwy'r wefan, a gafodd ei hadnewyddu a'i diweddaru yn ystod Ch4.

**2.3.2** Dangosydd newydd ar gyfer eleni yw nifer y defnyddwyr cofrestredig sydd gennym ar AppMôn a Gwefan y Cyngor, sydd wedi cynyddu dros 1500 ers diwedd Ch3 i 8155 o ddefnyddwyr ar ddiwedd Ch4. Mae hyn yn rhywbeth positif a gan fod y wefan newydd wedi'i sefydlu bellach, disgwylir y bydd hynny'n annog mwy o ddefnydd o ffurflenni ar-lein a chyswllt ar-lein a fydd yn gyrru ein newid sianel digidol i alluogi trigolion i dalu a gofyn am wasanaethau ar-lein. Oherwydd hyn disgwylir y bydd y niferoedd sy'n talu dros y we hefyd yn cynyddu ymhellach yn ystod 2019/20.

**2.3.3** Fe gynyddodd nifer ein dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol unwaith eto yn ystod Ch4 i 29.5k o ddilynwyr. Mae hyn wedi'i rannu rhwng Facebook (13.5k o ddilynwyr), Twitter (15k o ddilynwyr) ac Instagram (1k). Mae'r dulliau hyn o gyfathrebu yn parhau i gynyddu a bydd y llif gwybodaeth a gylchredir ac a dderbynnir trwy'r

sianelau hyn ond yn cynyddu ymhellach, gan olygu newid felly yn y modd y mae trigolion ac eraill yn cyfathrebu gyda ni fel Cyngor.

**2.3.4** O ran Rheoli Cwynion gan Gwsmeriaid, erbyn diwedd y flwyddyn roedd 76 o Gwynion wedi'u derbyn (o gymharu â 71 yn 17/18). Mae 74 o'r cwynion oedd angen ymateb wedi derbyn ymateb ac o'r cwynion hynny cafodd 16 eu cadarnhau'n llawn (Tai [4], Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo [4], Adnoddau [4], Dysgu [2], Rheoleiddio a Datblygu Economaidd [1], a Thrawsnewid [1]), cafodd 7 eu cadarnhau'n rhannol (Adnoddau [2], Adnoddau + Trawsnewid [1], Dysgu [1], Rheoleiddio a Datblygu Economaidd [1] a Rheoleiddio a Datblygu Economaidd + Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo [1]) tra bod y 49  cwyn yn weddill wedi eu gwrthod.

**2.3.5** Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r cwynion a gafodd eu cadarnhau/cadarnhau'n rhannol eleni yn cynnwys:

- Adolygu gweinyddiaeth ceisiadau am fudd-dal
- Roedd gofyn cael gwell eglurhad o brosesau cynllunio
- Adolygu gweithdrefnau mewnol wrth ymdrin â cyflwyno ffurflen LEP1; ac
- Atgoffwyd gwasanaethau o'r gofyniad i ymateb yn llawn ac yn brydlon i ohebiaeth

**2.1.2** Yn y Gwasanaethau Cymdeithasol roedd 8 cwyn Cam 2 (Gwasanaethau Oedolion [6], Gwasanaethau Plant a Theuluoedd [2]) a 44 o gwynion Cam 1 (Gwasanaethau Plant [30], Gwasanaethau Oedolion [14]) yn ystod 2018/19. O'r cwynion hyn, ymatebwyd i gyfanswm o 57% (Coch ar y cerdyn sgorio) o fewn yr amserlen gydag 19 o ymatebion hwyr (Gwasanaethau Plant a Theuluoedd [13] a'r Gwasanaethau Oedolion [6]). Er i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fethu anfon ymatebion ysgrifenedig mewn pryd i 13 o'r 30 o gwynion Cam 1, mewn 24 o'r 30 (80%) cynhaliwyd trafodaeth gyda'r achwynydd o fewn yr amserlen. Dylid nodi bod 100% o'r cwynion a welwyd yn Ch4 wedi derbyn ymateb mewn pryd.

**2.3.6** Roedd perfformiad o ran % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn yr amserlen yn 81% (Gwyrdd ar y cerdyn sgorio) ar ddiwedd 2018/19 o gymharu â 78% ar ddiwedd 2017/18. Mae hyn yn galonogol gan fod y Cyngor wedi delio â 1052 o geisiadau, neu 7532 o gwestiynau, yn ystod 2018/19, sy'n uwch na'r 919 a welwyd yn 2017/18.

**2.3.7** O'r 1052 o geisiadau roedd 200 o ymatebion hwyr yn 2018/19. Daeth y mwyafrif o'r ymatebion hwyr o'r Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd) oedd yn cyfateb i 31% o'r ymatebion hwyr (53% o'r 117 a dderbyniwyd gan y gwasanaethau), 18% yn Addysg (29.5% o'r 122 a dderbyniodd y gwasanaeth), 18% yn Rheoleiddio ac Economaidd (21.5% o'r 163 a dderbyniodd y gwasanaeth), 8.5% yn Adnoddau (9% o'r 195 a dderbyniodd y gwasanaeth) ac 8% yn Trawsnewid (8% o'r 92 a dderbyniodd y gwasanaeth). Mae ein hymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn bwysig ac mae'r UDA a Phenaethiaid Gwasanaeth yn parhau i fonitro perfformiad ein ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ofalus.

***2.3.8*** ***Mae'r UDA felly'n argymell –***

***2.3.8.1*** *Dylai'r Bwrdd Trawsnewid Prosesau Busnes sydd newydd ei sefydlu ystyried sut y dylid monitro'r Dangosyddion Gwasanaeth Cwsmer fel rhan o'u gwaith sy'n datblygu ar y Strategaeth Gofal Cwsmer er mwyn sicrhau bod ymagwedd ragweithiol at wella gwasanaeth i gwsmeriaid.*

***2.3.8.2*** *Bod gweithdrefn newydd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gyfer ymateb i gwynion yn cael ei wreiddio yn y gweithgareddau dydd i ddydd er mwyn lleihau nifer y cwynion a gwella cyfradd yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn yr amserlenni.*

## 2.4 RHEOLAETH ARIANNOL

**2.4.1** Mae gorwariant o £633k ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019. Mae hyn yn well na'r disgwyliad a'r adroddiadau a gafwyd drwy'r flwyddyn. Roedd gorwariant o £2.287m yng nghyllidebau'r gwasanaethau ond mae'r tanwariant o £1.654 mewn perthynas â chyllid corfforaethol wedi gostwng y gorwariant cyffredinol. Mae'r Gwasanaethau sy'n parhau i fod dan bwysau yn debyg i 2017/18 (Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Dysgu). Mae cyllidebau'r Gwasanaethau Oedolion hefyd dan bwysau oherwydd y galw cynyddol am wasanaethau. Gofynnwyd i Benaethiaid Gwasanaeth gyfyngu eu gwariant i bethau hanfodol yn unig ac maent wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cais hwnnw yn ystod y flwyddyn. Wrth symud ymlaen, ni fydd modd cynnal lefel y tanwariant ar gyllid corfforaethol ac o'r herwydd mae'n bwysig rhoi sylw i'r materion sydd ynghlwm wrth gyllidebau sy'n seiliedig ar y galw.

**2.4.2** Adroddiad ar yr alldro dros dro yw hwn a gall newid wrth i wybodaeth newydd gael ei rhyddhau rhwng rŵan ac adrodd ar y Datganiad Cyfrifon terfynol ym mis Medi

**2.4.3** Mae rhagor o wybodaeth am reolaeth ariannol yn 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw - Chwarter 4' a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar y 17 Mehefin.

## 3. ARGYMHELLION

**3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn –

**3.1.1** Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru er mwyn cynorthwyo i wella perfformiad yn ystod 2019/20. Rhoddir pwyslais penodol ar y dangosyddion hynny sydd wedi dirywio flwyddyn ar ôl blwyddyn i sicrhau bod perfformiad yn gwella yn 2019/20.

**3.1.2** Cynnal gweithdy gyda'r UDA, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol yn ystod Ch1 i gadarnhau'r dangosyddion perthnasol i'w cynnwys ar gerdyn sgorio 2019/20.

**3.1.3** Adolygu targedau 19/20 i sicrhau eu bod yn heriol ond bod modd eu cyflawni, ac os nad fydd targedau'n cael eu cyrraedd yn y flwyddyn, mai'r disgwyliad lleiaf yw gwelliant flwyddyn ar ôl blwyddyn.

**3.1.4** Parhau i ganolbwyntio ar gynnal a/neu gwella presenoldeb yn y gwaith gyda'r chyfrifoldeb yn eistedd gyda rheolwyr gwasanaeth gyda chefnogaeth y Cydlynydd Absenoldeb Salwch Corfforaethol a staff AD. Dylid defnyddio paneli herio hefyd yn ôl yr angen.

**3.1.5** Unwaith eto, mabwysiadu targed corfforaethol o 9.75 diwrnod o salwch fesul aelod o staff llawn-amser cyfwerth ar gyfer 2019/20.

**3.1.6** Dylai'r Bwrdd Trawsnewid Prosesau Busnes sydd newydd ei sefydlu ystyried sut y dylid monitro'r Dangosyddion Gwasanaeth Cwsmer fel rhan o'u gwaith sy'n datblygu ar y Strategaeth Gofal Cwsmer er mwyn sicrhau bod ymagwedd ragweithiol at wella gwasanaeth i gwsmeriaid.

**3.1.7** Bod gweithdrefn newydd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gyfer ymateb i gwynion yn cael ei wreiddio yn y gweithgareddau dydd i ddydd er mwyn lleihau nifer y cwynion a gwella cyfradd yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn yr amserlenni.

**3.2** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

**3.1.4** Parhau i ganolbwyntio ar gynnal a/neu gwella presenoldeb yn y gwaith gyda'r chyfrifoldeb yn eistedd gyda rheolwyr gwasanaeth gyda chefnogaeth y Cydlynydd Absenoldeb Salwch Corfforaethol a staff AD. Dylid defnyddio paneli herio hefyd yn ôl yr angen.

**3.1.5** Unwaith eto, mabwysiadu targed corfforaethol o 9.75 diwrnod o salwch fesul aelod o staff llawn-amser cyfwerth ar gyfer 2019/20.

**3.1.6** Dylai'r Bwrdd Trawsnewid Prosesau Busnes sydd newydd ei sefydlu ystyried sut y dylid monitro'r Dangosyddion Gwasanaeth Cwsmer fel rhan o'u gwaith sy'n datblygu ar y Strategaeth Gofal Cwsmer er mwyn sicrhau bod ymagwedd ragweithiol at wella gwasanaeth i gwsmeriaid.

**3.1.7** Bod gweithdrefn newydd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gyfer ymateb i gwynion yn cael ei wreiddio yn y gweithgareddau dydd i ddydd er mwyn lleihau nifer y cwynion a gwella cyfradd yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn yr amserlenni.

**3.2** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q4 2018/19

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 17/18 Result | Tuedd Bl i Fl / Yr on Yr Trend | Chwartel 17/18 Quartile | *Chwartel 18/19 Quartile |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) PAM/029 (PM33) - Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Gwyrdd / Green | ↓ | 9.52% | 11% | 9% | ↓ | - | - |
| 02) PAM/028 (PM24) - Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Melyn / Yellow | ↓ | 86.17% | 90% | 67.57% | ↑ | - | - |
| 03) SCC/025 - Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Melyn / Yellow | ↑ | 81% | 83% | 63.32% | ↑ | - | - |
| 04) PM28 - Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↓ | 241 | 320 | 326.5 | ↑ | - | - |
| 05) SCC/010 - Canran y cyfeiriadau sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis | Melyn / Yellow | ↑ | 16.87% | 15% | - | - | - | - |
| 06) SCC/006 - Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | ↑ | 98% | 94% | - | - | - | - |
| 07) PAM/25 (PM19) - Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed | Coch / Red | ↓ | 7.78 | 3 | 6.58 | ↓ | - | - |
| 08) SCA/018b - Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↓ | 93.30% | 93% | 96% | ↓ | - | - |
| 09) SCA/002b - Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth | Gwyrdd / Green | ↓ | 17.35 | 19 | 17.44 | → | - | - |
| 10) PM18 - Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↓ | 90.91% | 90% | 93.25% | ↓ | - | - |
| 11) PM20a - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach | Coch / Red | ↓ | 30.87% | 50% | 59.26% | ↓ | - | - |
| 12) PM20b - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | ↑ | 62.84% | 62% | 62.65% | → | - | - |
| 13) PAM/007 - Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (Tymhorol) | Melyn / Yellow | ↓ | 92.91% | 93.30% | 93.3%** | ↓ | Uchaf / Upper | Uchaf / Upper** |
| 14) PAM/008 - Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (Tymhorol) | Gwyrdd / Green | ↓ | 94.98% | 93.90% | 93.9%** | ↓ | Canolrif Isaf / Lower Median | Uchaf / Upper** |
| 15) PAM/010 (STS/005b) - Canran y strydoedd sy'n lân | Gwyrdd / Green | ↓ | 95.29% | 94% | 93% | ↑ | Canolrif Isaf / Lower Median | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 16) PAM/030 (WMT/009b) - Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Melyn / Yellow | ↑ | 69.86% | 72% | 72.2% | ↓ | Uchaf / Upper | Uchaf / Upper |
| 17) PAM/035 - Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | ↓ | 0.2 | 1 | - | - | - | - |
| 18) PAM/043 - Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | Melyn / Yellow | → | 240kg | 210kg | 236kg | ↓ | - | - |
| 19) PAM/017 (LCS/002b) - Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden | Gwyrdd / Green | ↑ | 553k | 515k | 508k | ↑ | Canolrif Isaf / Lower Median | Canolrif Uchaf / Upper Median |
| 20) PAM/023 (PPN/009) - Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | → | 98% | 95% | 98% | → | Uchaf / Upper | Uchaf / Upper |
| 21) PAM/018 - Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Coch / Red | ↓ | 80% | 90% | 86% | ↓ | Isaf / Lower | Isaf / Lower |
| 22) PAM/019 - Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Gwyrdd / Green | ↑ | 74% | 65% | 47% | ↑ | Isaf / Lower | Canolrif Uchaf / Upper Median |
| 23) PAM/041 - Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | ↓ | 67% | 50% | - | - | - | - |
| 24) PAM/042 - Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | ↑ | 85% | 80% | - | - | - | - |
| 25) PAM/012 - Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Melyn / Yellow | ↓ | 52.93% | 55% | 65.20% | - | Canolrif Uchaf / Upper Median | Isaf / Lower |
| 26) PAM/013 - Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | ↑ | 78 | 75 | 75 | ↑ | Uchaf / Upper | Uchaf / Upper |
| 27) PAM/014 - Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | Gwyrdd / Green | → | 9 | 4 | 4 | ↑ | - | - |
| 28) PAM/015 (PSR/002) - Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Gwyrdd / Green | ↑ | 161.9 | 175 | 177 | ↑ | Uchaf / Upper | Uchaf / Upper |
| 29) PAM/037 - Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Melyn / Yellow | ↓ | 13.63 | 12 | - | - | - | - |
| 30) PAM/038 - Gwasanaethau landlordiaid: Canran y cartrefi sy'n bodloni'r Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) | Gwyrdd / Green | → | 100% | 100% | - | - | - | - |
| 31) PAM/009 - Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET) [Blynyddol] | - | - | 1.1% | - | 4.20% | ↑ | Isaf / Lower | Uchaf / Upper** |
| 32) PAM/032 - Sgôr 'Cap 9' cyfartalog ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 [Blynyddol] | - | - | 349.1 | - | 335.9 | ↑ | Isaf / Lower | Canolrif Uchaf / Upper Median** |
| 33) PAM/033 - Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen [Blynyddol] | - | - | 88.3% | - | 72.6% | ↑ | - | - |
| 34) PAM/034 - Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg (iaith gyntaf) [Blynyddol] | - | - | 65% | - | 63.7% | ↑ | - | - |
| 35) PAM/040 - Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | - |
| 36) PAM/024 (PM13a) - Canran yr oedolion sy'n fodlon a'u gofal a'r cymorth [Blynyddol] | Gwyrdd / Green | - | 97% | 92% | 92% | ↑ | - | - |
| 37) PAM/026 (PM15) - Canran y gofalwyr sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi [Blynyddol] | Gwyrdd / Green | - | 94% | 90% | 90% | ↑ | - | - |
| 38) PAM/027 (PM13c) - Canran y plant sy'n fodlon a'u gofal a'r cymorth [Blynyddol] | Gwyrdd / Green | - | 89% | 83% | 83% | ↑ | - | - |
| 39) PAM/020 (THS/012a) - Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael [Blynyddol] | Gwyrdd / Green | - | 3% | 3% | 3.20% | ↑ | Canolrif Uchaf / Upper Median | Canolrif Uchaf / Upper Median |
| 40) PAM/021 (THS/012b) - Canran y prif ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael [Blynyddol] | Gwyrdd / Green | - | 3.80% | 5% | 4.40% | ↑ | Canolrif Uchaf / Upper Median | Canolrif Uchaf / Upper Median |
| 41) PAM/020 (THS/012c) - Canran y prif ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael [Blynyddol] | Gwyrdd / Green | - | 8.60% | 10% | 8.90% | ↑ | Canolrif Isaf / Lower Median | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 42) PAM/039 - Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag [Blynyddol] | - | - | 1.30% | - | - | - | - | - |

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q4 2018/19

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 17/18 Result | Canlyniad 16/17 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | ↓ | 76 | 71 | 71 | 71 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau | - | ↓ | 8 | - | 9 | 8 |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | - | ↑ | 27 | - | 28 | 25 |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 93% | 80% | 92% | 93% |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Coch / Red | ↑ | 57% | 80% | - | - |
| 05) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | ↑ | 44 | - | 51 | 54 |
| 06) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | - | ↑ | 62 | - | 112 | 191 |
| 07) Nifer o ganmoliaethau | - | ↓ | 513 | - | 753 | 566 |
| 08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Gwyrdd / Green | ↑ | 81% | 80% | 78% | 77% |
| 09) Nifer o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd | - | ↓ | 1052 | - | 919 | 1037 |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | - | ↑ | 8155 | | | |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | - | ↑ | 4680 | | 2k | 1k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | - | ↑ | 11.2k | | 11k | |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | - | ↑ | 5.2k | | 5k | |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | - | → | 29.5k | 25k | 25k | 21k |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | - | ↓ | 798k | | 820k | 715k |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 17/18 Result | Canlyniad 16/17 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 2243 | - | 2252 | 2310 |
| 02) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, ac eithrio athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 1252 | - | 1244 | 1303 |
| 03a) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul | Coch / Red | ↓ | 10.34 | 9.75 | 9.96 | 11.68 |
| 03b) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul | - | - | 4.68 | - | 4.63 | 11.68 |
| 03c) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul | - | - | 5.66 | - | 5.32 | 6.79 |
| 04a) Ysgolion Cynradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Coch / Red | ↓ | 12.21 | 9.5 | 10.39 | - |
| 04b) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 4.97 | | 4.85 | - |
| 04c) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 7.24 | - | 5.55 | - |
| 05a) Ysgolion Uwchradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Melyn / Yellow | ↓ | 9.57 | 9.5 | 9.67 | - |
| 05b) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 5.26 | - | 5.32 | - |
| 05c) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 4.31 | - | 4.35 | - |
| 06) % o Cyfweliadau DIG a gynhalwyd o fewn yr amserlen | Melyn / Yellow | → | 79% | 80% | 73% | 84% |
| 07) % o Cyfweliadau DIG a gynhalwyd | Ambr / Amber | → | 88% | 95% | 85% | - |
| 08) % o Gyfarfodydd Adolygu Phresenoldeb (CAP) a gynhaliwyd | Melyn / Yellow | ↑ | 74% | 80% | 69% | - |
| 09) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynddol) | - | → | 11% | - | 11% | - |
| 10) % o ADP a'i cwblhawyd o fewn yr amserlen (Ch4) | Gwyrdd / Green | ↓ | 84% | 80% | 90.50% | - |
| 11) % y staff sydd a Thystysgrif DBS (os oes angen o fewn eu rôl) | - | - | - | - | - | 98% |
| 12) Nifer o staff Asiantaeth | - | ↑ | 10 | - | 12 | 26 |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol (Llinellau Cyllideb Rheoladwy) | Coch / Red | ↑ | £130,566,193 | £130,897,516 | 0.25% | - | - |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn (Refeniw) | Coch / Red | ↑ | £130,899,873 | £131,533,355 | 0.48% | - | - |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn (Cyfalaf) | | | £46,520,951 | £21,649,188 | -53.46% | - | - |
| 04) Cyflawniad yn erbyn targedau effeithlonrwydd | Ambr / Amber | ↓ | £2,521,500 | £2,063,500 | -18.16% | - | - |
| 05) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | ↑ | -£11,752,829 | -£13,488,420 | 14.77% | - | - |
| 06) Swm a fenthycwyd | | | £5,783,000 | £15,563,536 | 169.13% | - | - |
| 07) Chost benthyca | | | £4,494,993 | £4,035,324 | -10.23% | - | - |
| 08) % o'r anfondebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod | | ↓ | - | 90.87% | - | - | - |
| 09) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | ↑ | - | 99.10% | - | - | - |
| 10) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | ↑ | - | 98.80% | - | - | - |
| 11) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↑ | - | 97.60% | - | - | - |
| 12) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | | ↓ | - | 100.23% | - | - | - |
| ddiwethaf) | | ↑ | - | 100.57% | - | - | - |

Mae'r ddogfen hon wedi'i chynnwys yn yr adroddiad chwarterol ar gyfer monitro'r cerdyn sgorio, a gaiff ei gyflwyno o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith bob chwarter i ddarparu diweddariad cryno lefel-uchel ynglŷn â statws y gwaith sy'n berthnasol ac mae'n adrodd i'r -

- ***Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau; a'r***
- ***Bwrdd Rhaglen Llywodraethiant Corfforaethol***

Mae'r graddfeydd CAG allweddol ar gyfer y ddogfen fel a ganlyn –

CAG:

| | |
|---|---|
| Wedi'i gwblhau | Mae'r prosiect wedi'i gwblhau |
| Ar Drywydd | Y prosiect yn datblygu fel sy'n ddisgwyliedig ac mae ar drywydd |
| Ar ei hôl hi | Mae angen penderfyniadau allweddol / cefnogaeth ar y prosiect |
| Hwyr | Mae'r prosiect yn hwyr a thu ôl i amserlenni disgwyliedig |
| Gwyn | Nid yw'r prosiect wedi cychwyn hyd yma |

| Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau | | |
|---|---|---|
| **Rhaglen/Prosiect** | **Prosiectau Cysylltiedig** | **CAMG a Diweddariad cryno** |
| **Moderneiddio Ysgolion** | **Bro Rhosyr a Bro Aberffraw** | **Ysgol Santes Dwynwen** yn Niwbwrch wedi agor ar 29 Ebrill 2019.<br><br>Agoriad swyddogol ar ddiwedd yr haf / dechrau Medi 2019. |
| | **Ardal Llangefni** | **Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir ac Ysgol Henblas**<br>Y penderfyniad gwreiddiol wedi'i ddiddymu ac mae gofyn i Swyddogion ystyried y posibiliadau ar gyfer yr ardal o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion newydd (011/2018)<br><br>**Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn**<br>Y penderfyniad gwreiddiol wedi'i ddiddymu ac mae gofyn i Swyddogion ystyried y posibiliadau ar gyfer yr ardal o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion newydd (011/2018) |
| | **Seiriol a'r de-ddwyrain** | Y penderfyniad gwreiddiol wedi'i ddiddymu ac mae gofyn i Swyddogion ystyried y posibiliadau ar gyfer yr ardal o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion newydd (011/2018) |
| | **Ysgol Syr Thomas Jones ac ysgolion cynradd yr ardal.** | Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgysylltu o 05/11/18 – 14/12/18. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar ddadansoddi'r canlyniadau a datblygu cynnig i ymgynghori arno. |
| | **Ôl-16** | Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgysylltu o 19/11/18 – 16/12/18. Mae gwaith wedi'i gwblhau ar ddadansoddi'r canlyniadau a rhoddwyd rhagor o amser i ymchwilio i fodelau i'r dyfodol. |
| **Gofal Cymdeithasol Oedolion -** | **Gofal Ychwanegol Llangefni** | Y prosiect wedi'i gwblhau ac wrthi'n paratoi Adroddiad Cau Prosiect i'w gyflwyno i'r Bwrdd Rhaglen Gofal Cymdeithasol Oedolion (21/5). |
| | **Gofal Ychwanegol De yr Ynys** | Yn dilyn yr argymhelliad i ddiddymu'r penderfyniad ar ddyfodol Ysgol Biwmares, mae angen gwaith pellach ar archwilio opsiynau er mwyn gweld beth allwn ei gyflawni. |
| | **Tai gyda Chefnogaeth Fewnol** | Nod newydd y prosiect yw cadw'r gwasanaeth yn fewnol yn y Cyngor ond ei ailfodelu er mwyn cyflawni arbedion ariannol.<br><br>Paratoi Adroddiad Cau Prosiect a'i gyflwyno i'r Bwrdd Gofal Oedolion ym mis Mai 2019. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Ail-dendro Gwasanaethau Gofal Cartref** | Prosiect wedi'i gwblhau. Yn cychwyn trefniadau monitro newydd mewn partneriaeth ag Iechyd.<br><br>Prosiect wedi'i Gau – cyflwynwyd adroddiad i'r Bwrdd Gofal Oedolion ym mis Chwefror 2019. |
| | **Tai gyda Chefnogaeth (Allanol)** | Nod y prosiect yw ailfodelu ac ail-ddylunio'r gwasanaethau gan ymgynghori'n agos â gofynion y Rhaglen Cefnogi Pobl.<br><br>Trafodaethau gyda darparwyr ar y gweill |
| | **Gwasanaethau Gofal Dydd** | Datblygu'r weledigaeth ar gyfer cyfleoedd dydd a'r amserlen weithredu.<br><br>Yn ymgysylltu ynghylch cyfleoedd dydd ar hyn o bryd. Adroddiad i'r Pwyllgor Sgriwtini a Pwyllgor Gwaith yn Chwarter 3. |
| **Trawsnewid Llyfrgelloedd, Gwasanaethau Ieuenctid, Amgueddfeydd, Diwylliant a Neuadd y Farchnad** | **Trawsnewid Amgueddfeydd a Diwylliant** | Melin Llynnon a'r Tai Crynion – rhoddwyd trwydded i ddyn lleol / Michelin Star, Richard Holt.<br><br>Llys a Charchar Biwmares – Mae'r Cyngor wedi trosglwyddo'r asedau i Gyngor Tref Biwmares, yn aros i'r cytundeb gael ei brosesu. |
| | **Ailfodelu'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd** | Prosiect wedi'i gwblhau.<br><br>Ffrydiau gwaith cysylltiedig yn cael eu rheoli gan y Bwrdd Rhaglen Llyfrgelloedd a Threftadaeth |
| | **Neuadd y Farchnad, Caergybi** | Bydd y prosiect yn cael ei gwblhau ym mis Mai 2019. Mae problemau gyda gwaith Cam 2 wedi achosi oedi i'r prosiect – gwaith cam 2 dal yn mynd yn ei flaen. |
| **Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr** | | Safle Star – Mae'r prosiect ar ei hôl hi. Tendr mewn lle erbyn Ch1 yn dechrau Ch3, rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau ym mis Medi 2019. |
| **Cynyddu lefelau ailgylchu** | | Gweler DPA 16 + 17 ar y Cerdyn Sgorio ar gyfer ystadegau Ch1 |
| **Gwaith lliniaru llifogydd** | | Biwmares – bydd contractwyr newydd ar y safle ddiwedd mis Mai 2019.<br><br>Nant y Felin, Pentraeth – mae'r gwaith wedi'i ohirio, i ddechrau tuag at ddiwedd y flwyddyn.<br><br>Llanfairpwll – Bwriedir cyflwyno'r achos busnes amlinellol i LlC ddiwedd mis Ebrill 2019. Unwaith caiff ei dderbyn – byddwn yn trefnu sesiynau galw heibio i'r trigolion.<br><br>Y Fali – yr achos busnes amlinellol wedi'i gyflwyno i LlC, yn aros am ddiweddariad. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Dwyran – Cynllun gweithio ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru yn parhau, mae'r prosiect ar ei hôl hi a disgwylir y caiff ei gwblhau erbyn canol Gorffennaf 2019.<br><br>Llangefni – Cynllun gweithio ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru yn parhau, disgwylir y caiff ei gwblhau ddiwedd Mai 2019 |
| | | Bodffordd – Wedi'i gwblhau |
| **Strategaeth Moderneiddio Hamdden** | | Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gwblhau a'r ymatebion wedi cael eu dadansoddi. |

| **Bwrdd Rhaglen Llywodraethiant Corfforaethol** | | |
|---|---|---|
| **Rhaglen/Prosiect** | **Prosiectau Cysylltiedig** | **CAMG a Diweddariad cryno** |
| **Cynllun Adnoddau – Northgate** | | Caewyd y prosiect ar 31.03.19 ac yn cario mlaen fel busnes fel arfer.<br><br>Cyflwynwyd Adroddiad Cau Prosiect i'r Bwrdd ym mis Mai 2019. |
| **Trawsnewid Prosesau Busnes** | **Rhaglen Ehangu Cyswllt Môn / Cyswllt Wyneb yn Wyneb** | Mae'r holl gyfrifiaduron PC yn cael eu huwchraddio ar hyn o bryd yn y llyfrgelloedd ynghyd â'r dolenni meddalwedd i alluogi argraffu a sganio.<br><br>Prosiect ar ei hôl hi – dechreuwyd prosiect peilot ar ôl y Pasg yn Amlwch a Phorthaethwy am 4 mis ac wedyn cafodd y dyddiad ei adolygu, a chaiff ei gyflwyno i'r Bwrdd gydag argymhellion ynghylch ei gyflawni yn y dyfodol. |
| | **Cyswllt Ffôn a Newid Dulliau Cyfathrebu** | (OEDI AM RŴAN) mae pob Canolfan Gyswllt wedi mynd yn fyw'n llwyddiannus heb unrhyw amhariad i'r cyhoedd.<br><br>Yn y gwasanaethau hynny sydd wedi mynd yn fyw mae tystiolaeth o welliant yn y nifer o alwadau sy'n cael eu colli (gostyngiad o hyd at 80% mewn galwadau lle mae'r person yn rhoi'r ffôn i lawr.) |
| | **CRM** | Integreiddio Teleffoni – mae'r uwchraddiad ShoreTel yn newid profiad y defnyddiwr yn sylweddol.<br><br>Rheoli Gwastraff – Wedi datblygu'r Fanyleb. Yn aros am ddyfynbris. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Integreiddio Bathodynnau Glas – Hyn yn dod yn ei flaen yn dda. Ffurflenni wedi'u creu a'u hintegreiddio. Nid oes dolenni o wefan y Cyngor i'r un Genedlaethol eto oherwydd diffyg cydymffurfiaeth â Safonau'r Iaith Gymraeg. |
| **Modelau Darparu Amgen** | | Mae gwaith ar MDA yn mynd yn ei flaen a byddwn yn parhau i archwilio'r opsiynau newydd sydd ar gael yn gyson.<br><br>Contract Tacsis Ysgol – y contract yn rhedeg.<br><br>Torri Gwair Ysgolion – y contract yn rhedeg.<br><br>Ail-dendro caffi Oriel Môn – y contract yn rhedeg.<br><br>Talu am barcio mewn rhai meysydd parcio ar yr ynys – yn parhau |
| **Effeithlonrwydd Ynni** | | Y cynllun ar gyfer 2018/19 wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd Rhaglen ac yn cael ei weithredu. |
| **Gweithredu'r Strategaeth TGCh** | | Aeth y wefan yn fyw ym mis Chwefror 2019.<br><br>Mae Strategaeth Ddigidol 2017-2021 wedi cael ei diweddaru (Fersiwn 2.0).<br><br>Gwaith yn parhau gyda'r CRM o dan gyfarwyddyd y Bwrdd Prosiect Trawsnewid Prosesau Busnes. |
| **Cynllun Gwella Sgriwtini** | | Rhoddwyd y rhaglen mewn lle 18 mis yn ôl ac mae wedi'i chwblhau bellach a'i chau, ac mae rhaglen ddatblygu newydd nawr yn ei lle. |
| **Strategaeth Gyfathrebu** | | Y Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo'r strategaeth, caiff y ddogfen ei chyhoeddi ar Monitor. Cynllun gwaith 19/20 wrthi'n cael ei ddatblygu. |
| **Contract Casglu a Glanhau Gwastraff** | | Wedi dechrau'r broses o ail-dendro ar gyfer ein contract Casglu a Glanhau Gwastraff. |
| **Contract Prydau Ysgol** | | Paratoi ar gyfer a thendro y contract Prydau ysgol gan sicrhau bwydlen iach o fwyd lleol ar gyfer 2020-2025. |

ATODIAD C

## Alldro Refeniw Rhagamcanol ar gyfer y Flwyddyn Ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2019 – Chwarter 4

| Gwasanaeth/ Swyddogaeth | 2018/19 Cyllideb Flynyddol | Alldro Rhagamcanedig | Cyfanswm Gwahaniaeth Alldro Rhagamcanedig | Rhagamcan y Gwahaniaeth na ellir ei Reoli (Eithriadau) | Rhagamcan y Gwahaniaeth na ellir ei Reoli (Dim Eithriadau) | Alldro Amcan gyfrifedig 31 Mawrth 2019 Gor /(Tan) wariant yn Ch3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | |
| Cyllideb Ddatganoledig Ysgolion | 43,216 | 43,216 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Addysg Ganolog | 4,411 | 4,760 | 349 | 220 | 327 | 589 |
| Diwylliant | 1,332 | 1,207 | (126) | (2) | (124) | (100) |
| | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | 24,921 | 26,094 | 1,173 | (5) | 1,178 | 1,035 |
| | | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | 8,729 | 10,565 | 1,837 | 7 | 1,830 | 2,009 |
| | | | | | | |
| **Tai** | 1,091 | 802 | (289) | 15 | (304) | (45) |
| | | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | | | |
| Priffyrdd | 6,385 | 6,101 | (284) | 38 | (322) | (107) |
| Eiddo | 1,009 | 1,136 | 128 | 92 | 35 | 36 |
| Gwastraff | 7,490 | 7,453 | (37) | 291 | (328) | (257) |
| | | | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 1,750 | 1,679 | (71) | 36 | (107) | (119) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2,070 | 1,967 | (103) | 18 | (121) | (50) |
| | | | | | | |
| **Trawsnewid** | | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1,251 | 1,195 | (56) | (2) | (54) | (15) |
| TGCh | 2,354 | 2,483 | 128 | (7) | 135 | 112 |

| Gwasanaeth/ Swyddogaeth | 2018/19 Cyllideb Flynyddol | Alldro Rhagamcanedig | Cyfanswm Gwahaniaeth Alldro Rhagamcanedig | Rhagamcan y Gwahaniaeth na ellir ei Reoli (Eithriadau) | Rhagamcan y Gwahaniaeth na ellir ei Reoli (Dim Eithriadau) | Alldro Amcan gyfrifedig 31 Mawrth 2019 Gor /(Tan) wariant yn Ch3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** |
| Trawsnewid Corfforaethol | 826 | 644 | (182) | 0 | (183) | (155) |
| | | | | | | |
| **Adnoddau** | 2,840 | 2,886 | 46 | 85 | (39) | (34) |
| | | | | | | |
| **Busnes y Cyngor** | 1,464 | 1,411 | (53) | 0 | (53) | (4) |
| | | | | | | |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd** | 3,290 | 3,115 | (175) | 6 | (181) | (138) |
| | | | | | | |
| **Rheolaeth Gorfforaethol** | 657 | 659 | 3 | 0 | 2 | 15 |
| | | | | | | |
| **Effaith Ragamcanedig y Costau na fedrir eu rheoli** | | | | | | 200 |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau'r Gwasanaethau** | 115,086 | 117,373 | 2,287 | 596 | 1,692 | 2,972 |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| Ardollau | 3,361 | 3,361 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gostyngiadau Dewisol yn y Dreth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Cyllido Cyfalaf | 7,541 | 6,356 | (1,185) | 0 | (1,185) | (1,056) |
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (93) |
| Cyfraniad y Gwasanaethau Cefnogaeth i'r CRT | (693) | (845) | (152) | (152) | 0 | 0 |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 5,606 | 5,558 | (48) | 127 | (175) | (63) |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** | 15,815 | 14,429 | (1,385) | (25) | (1,360) | (1,210) |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm 2018/19** | **130,900** | **131,802** | **902** | **570** | **331** | **1,762** |

| Gwasanaeth/ Swyddogaeth | 2018/19 Cyllideb Flynyddol | Alldro Rhagamcanedig | Cyfanswm Gwahaniaeth Alldro Rhagamcanedig | Rhagamcan y Gwahaniaeth na ellir ei Reoli (Eithriadau) | Rhagamcan y Gwahaniaeth na ellir ei Reoli (Dim Eithriadau) | Alldro Amcan gyfrifedig 31 Mawrth 2019 Gor /(Tan) wariant yn Ch3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** |
| | | | | | | |
| **Cyllido** | | | | | | |
| Trethi Annomestig | (22,574) | (22,574) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Y Dreth Gyngor | (34,440) | (35,357) | (269) | 191 | (460) | 45 |
| Premiwm y Dreth Gyngor | (648) | 0 | 0 | 0 | 0 | (218) |
| Grant Cymorth Refeniw | (73,238) | (73,728) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid 2018/19** | **(130,900)** | **(131,168)** | **(269)** | **191** | **(460)** | **(173)** |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm yr Alldro gan gynnwys effaith cyllido** | **0** | **633** | **633** | **761** | **(128)** | **1,589** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **17.6.19** |
| **Pwnc:** | **Dogfen Cyflawni Blynyddol 19/20** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Dafydd Rhys Thomas** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Carys Edwards** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>Rhif Ffôn:<br><br>E-bost: | **Gethin Morgan**<br><br>**752111**<br><br>**GethinMorgan@anglesey.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Ddim yn berthnasol** |

| **A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor rhoi'r hawl i Swyddogion drwy law y Deilydd Portffolio i ymgymryd ar dasg o orffen y cynllun drafft ac argymell i'r Cyngor llawn fabwysiadu y Ddogfen Cyflawni Blynyddol ar gyfer 19/20 yn ei gyfarfod ar y 15eg o Orffennaf, 2019.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith hefyd gadarnhau pa mor ymarferol ydyw o'i gyflawni fel cynllun sydd yn cydnabod y meysydd hynny o waith sydd wedi'i amserlennu ar gyfer y flwyddyn gyfredol o dan flaenoriaethau Cynllun y Cyngor.<br><br>At ddibenion eglurder mae'r Ddogfen Cyflawni Blynyddol yn cael ei adnobod fel arall fel y Cynllun Gwella (a amlinellir yn y Cyfansoddiad). |
| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
| Nid oes unrhyw opsiynau eraill yn cael eu hystyried gan fod hyn yn rhan o'r Fframwaith Polisi sy'n nodi'r angen i ddogfen o'r fath gael ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn. |
| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| Mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dangos y prif feysydd ar gyfer gwella a chyflawni blaenoriaethau corfforaethol y cyngor yn ystod 2019-20 sydd yn clirio'n swyddogaeth ni o wellhad parhaol sy'n cael ei gydnabod yn ofyniad statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol - Cymru 2009 a 2011. |
| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| Ydi |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
|---|---|---|
| Ydi | | |
| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** | Cytuno gyda'r cyfeiriad gweithredol ar gyfer 19/20 |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylw pellach |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** | Dim sylw pellach |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Dim yn Berthnasol |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Dogfen Cyflawni Blynyddol 2019/20 | | |
| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| Cynllun y Cyngor 2017-2022 fel a fabwysiadwyd gan y Cyngor llawn ym mis Medi 2017 | | |

Cyngor Sir

Ynys Môn

# Dogfen Cyflawni Blynyddol 2019 - 2020



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

@cyngormon

cyngormon

@cyngormon

www.ynysmon.gov.uk

# CYNNWYS

CYFLWYNIAD :
Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn **3**

Amcan 1 **5**

Amcan 2 **9**

Amcan 3 **12**

Rhagor o wybodaeth **15**

# CYFLWYNIAD

Mae'n fraint gennyf gyflwyno ein hail ddogfen gyflawni flynyddol sy'n canolbwyntio ar y gwaith rydym yn ei wneud er mwyn cyflawni'r dyheadau uchelgeisiol a nodwyd yng Nghynllun y Cyngor Sir ar gyfer 2017-22. Mae'r Cynllun yn egluro beth y byddwn ni fel Cyngor yn ei dargedu i'w gyflawni yn ystod 2019/20.

Mae'r ddogfen hon yn dangos sut y byddwn yn cyflawni ein blaenoriaethau allweddol dros y deuddeng mis nesaf ac mae'n tynnu sylw at ein brwdfrydedd i sicrhau gwelliant parhaus yn y gwasanaethau fel sy'n ddisgwyliedig gan Lywodraeth Cymru. Byddwn hefyd yn gwneud y gwelliannau gan gadw mewn cof bob tro yr egwyddorion o gynaliadwyedd a chydraddoldeb ar adeg o gyni ariannol eithriadol.

Mae'r newyddion diweddar ynglŷn â gohirio datblygiad Wylfa Newydd am y tro wedi amlygu pwysigrwydd y datblygiad. Er gwaethaf y newyddion, rydym yn parhau i weithio er budd Ynys Môn yng nghyswllt y broses gynllunio ac rydym wedi cyflwyno tystiolaeth er mwyn diogelu buddiannau'r ynys, ac mae'r cytundeb 106 yn destament i'n hymdrechion i liniaru'r effeithiau. Byddwn yn parhau i roi pwysau ar y llywodraeth yng Nghaerdydd ac yn Llundain i wneud popeth y gallant i sicrhau bod datblygiad Wylfa Newydd yn cael ei wireddu.

Yn y cyfamser byddwn yn gweithio gyda Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru i ddod â phrosiectau eraill ymlaen a fydd o fudd i Ynys Môn ac economi Gogledd Cymru, ac mae rhai ohonynt wedi'u hamlinellu yn y cynllun hwn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cawsom adborth cadarnhaol gan ein rheoleiddwyr. Cawsom adroddiad da gan Estyn ar ein hysgolion ac nid oes yr un o ysgolion Môn yn y categori coch bellach ac angen sylw brys. Cawsom adroddiad cadarnhaol hefyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) sy'n tynnu sylw at welliant sylweddol yn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd. Credwn fod y ddau Wasanaeth mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau presennol sy'n eu hwynebu.

# CYFLWYNIAD

Mewn cydweithrediad â Medrwn Môn, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda Cynllunio Lle. Mae'r ardaloedd cychwynnol wedi dechrau adnabod eu blaenoriaethau er mwyn creu cymunedau cryf a ffyniannus. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r ardaloedd am eu cefnogaeth ac edrychaf ymlaen at ddatblygiadau pellach yn ystod y flwyddyn.

Rydym wedi cytuno ar gyllideb 19/20 ond mae'n bwysig nodi na fu hyn yn broses hawdd gan fod y pwysau ariannol ar y Cyngor yn fwy nag erioed eto eleni. Mae'r cyllid ychwanegol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg a sicrhawyd yn ystod y cyfnod heriol hwn wedi galluogi i ni fwrw ymlaen â'r gweithgareddau sydd wedi eu cynllunio yn y ddogfen hon.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r holl drigolion a phartneriaid sydd wedi cydweithio â'r Cyngor i sicrhau'r gwasanaethau gorau i bobl Ynys Môn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac edrychaf ymlaen at eich cefnogaeth eto yn 2019/20.



**Llinos Medi**
Arweinydd y Cyngor

# AMCAN 1
# 2019 - 2020

## Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir

# Beth fyddwn ni'n ei gyflawni yn 2019 - 2020
# **Swyddi a Chyfleoedd Gwaith**

Byddwn yn:

1. Manteisio ar Fargen Twf Gogledd Cymru a'r fargen Sector Niwclear Newydd i yrru twf economaidd lleol a rhanbarthol trwy sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau Porth Caergybi, Morlais a'r Ganolfan Ragoriaeth Ynni Niwclear ymysg eraill

2. Drafftio, yn ymgynghori ac yn mabwysiadu Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Môn er mwyn gwella ffyniant Amlwch a Gogledd Ynys Môn a sicrhau cyllid i weithredu'r cynllun

3. Cwblhau'r gwaith o adfywio Neuadd y Farchnad yng Nghaergybi i letya busnesau lleol ac i ail-leoli'r llyfrgell gyfredol

4. Ceisio cael cyllid i wella canol trefi trwy ddatblygu eiddo sy'n wag, sydd mewn cyflwr gwael neu sy'n cael eu tanddefnyddio ar gyfer eu troi'n fusnesau neu'n eiddo masnachol

5. Dechrau adeiladu prosiect Isadeiledd Strategol Caergybi lle bydd 2616m2 o eiddo busnes newydd yn cael eu darparu ym Mharc Diwydiannol Penrhos

6. Yn dilyn gohirio prosiect Wylfa Newydd, byddwn yn parhau i gydlynu'r rhaglen Ynys Ynni i liniaru'r effeithiau ac i wella'r buddion sy'n deillio o brosiectau ynni mawr

7. Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i sicrhau bod rhinweddau Wylfa Newydd yn cael eu deall yn glir ar sail genedlaethol a rhyngwladol



# Beth fyddwn ni'n ei gyflawni yn 2019 - 2020
# **Addysg a Sgiliau**

Byddwn yn:

1. Agor yr ysgol newydd 21ain Ganrif yn Niwbwrch – Ysgol Santes Dwynwen

2. Archwilio'r opsiynau sydd ar gael i ni ar gyfer moderneiddio ysgolion yn ardaloedd Llangefni a Seiriol ac wedi hynny yn ymgynghori ar y ffordd orau ymlaen

3. Ymgynghori ac yn penderfynu ar y ddarpariaeth addysg ar gyfer y dyfodol yn nhalgylch Amlwch

4. Parhau i weithredu ein strategaeth i ddatblygu'r Gymraeg yn ein hysgolion trwy gynyddu nifer y disgyblion sy'n gwneud asesiadau athrawon trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr holl gyfnodau allweddol a chynyddu nifer y disgyblion sy'n sefyll yr arholiad TGAU Cymraeg iaith 1af

5. Anelu i roi cymaint o gyfleoedd â phosib ar gael i bobl ifanc trwy barhau â'r fenter Denu Talent eleni. Mae'r rhaglen hon yn darparu cyfleoedd i hyd at 10 o bobl 16 oed a hŷn i gael hyd at 12 wythnos o brofiad gwaith gyda thâl gyda'r Cyngor dros yr haf. Bydd hyn yn gyfle gwerthfawr iddynt gael blas o waith awdurdod lleol modern trwy gwblhau prosiectau a thasgau penodol

6. Cydlynu ein darpariaeth ar gyfer hyrwyddo llesiant disgyblion, yn enwedig y rheini sy'n fregus, trwy benodi swyddog arweiniol ar lesiant, cydlynu gwaith y Gwasanaethau Addysg a Phlant a Theuluoedd a gwella integreiddiad grantiau Iechyd Meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc



# Beth fyddwn ni'n ei gyflawni yn 2019 - 2020
# IECHYD A LLES

Byddwn yn:

1. Parhau i weithio i gynyddu cyfranogiad ein trigolion (gyda'r pwyslais ar bobl ifanc) mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden

2. Cydweithio â Nofio Cymru, yr RNLI a Llywodraeth Cymru ymysg partneriaid eraill i gynnal gweithgareddau cymunedol iechyd a llesiant sy'n cynnwys y Digwyddiad Nofio Diogel ym Mae Trearddur a'r Rhaglen Gyfoethogi dros Wyliau'r Haf

3. Gweithio gyda pherchnogion a phartneriaid eraill i ddod â 75 o dai preifat sydd wedi bod yn wag yn y tymor hir yn ôl i ddefnydd, trwy ddefnyddio'r dulliau ymyrraeth sydd ar gael yn y Pecyn Cartrefi Gwag



# AMCAN 2
# 2019 - 2020

Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl

# Beth fyddwn ni'n ei gyflawni yn 2019 - 2020
# **Cefnogaeth ar gyfer oedolion hŷn a bregus**

Byddwn yn:

1. Parhau i weithio ar gynllunio ar gyfer darpariaeth tai gofal ychwanegol newydd yn Ne yr Ynys a fydd yn cynnig cartref am oes i bobl dros 60 mlwydd oed sy’n dymuno byw’n annibynnol mewn cymuned ddiogel a chroesawgar gyda gwasanaethau gofal a chymorth ar y safle

2. Datblygu’r rhaglen Bywydau a Rennir i gefnogi pobl sy’n byw efo dementia a’u gofalwyr a byddwn hefyd yn llunio Strategaeth Dementia sy’n unol â Chynllun Dementia Llywodraeth Cymru

3. Datblygu cyfleoedd i bobl sydd ag anghenion iechyd meddwl i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp sy’n seiliedig yn y gymuned

4. Cynyddu lefelau cyfranogi yn y modelau hwb cymunedol trwy hyrwyddo a datblygu’r hybiau sydd yna ar draws yr Ynys

5. Datblygu 3 Tîm Adnodd Cymunedol, wedi eu lleoli yn Amlwch, Ysbyty Penrhos Stanley a Llanfairpwll, a ddaw â staff y Cyngor a Betsi Cadwaladr ynghyd er mwyn gwella mynediad at ein gwasanaethau gofal a chymorth ar y cyfle cyntaf

6. Ymgysylltu ac yn ymgynghori gyda defnyddwyr ar y Strategaeth Cyfleoedd Dydd i Oedolion gydag Anableddau Dysgu fel ein bod yn creu ystod ehangach o gyfleoedd dydd o ansawdd uwch ar gyfer unigolion yn eu cymunedau



# Beth fyddwn ni'n ei gyflawni yn 2019 - 2020
# **Cefnogaeth ar gyfer teuluoedd a phlant**

Byddwn yn:

1. Ychwanegu 40 o dai at ein Stoc Tai a fydd ar gael i'n tenantiaid gan gynnwys 25 o dai newydd sbon a thrwy brynu 15 o hen dai Cyngor

2. Parhau â'r gwaith o hyrwyddo Teulu Môn fel bod gan yr holl deuluoedd ar Ynys Môn le penodol lle gallant gael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth mewn perthynas â phlant a theuluoedd sydd â phlant a phobl ifanc o dan 25 oed

3. Sicrhau y gwneir asesiadau, y bydd gofal yn cael ei gynllunio ac y gwneir ymyraethau a phenderfyniadau amserol ac o ansawdd sy'n gwarchod, yn cefnogi ac yn rheoli'r risgiau i ddiogelu plant a phobl ifanc yr Ynys

4. Gwella'r gwasanaeth mabwysiadu trwy gryfhau sgiliau ein gweithwyr a phenodi Pencampwr Mabwysiadu ynghyd â datblygu pecyn cefnogaeth mwy cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod ar ôl mabwysiadu, mewn ymdrech i ddenu mwy o rieni mabwysiadu ar yr Ynys

5. Parhau i gefnogi plant a phobl ifanc i barhau i fyw gartref yn ddiogel trwy gynnig cefnogaeth ddwys trwy amrywiaeth o ymyraethau yn hytrach na dod â phlant i ofal

6. Gweithio tuag at gynyddu nifer Gofalwyr Maeth yr Awdurdod Lleol trwy gynnig lefel uchel o gefnogaeth broffesiynol a thrwy hefyd ehangu'r pecyn i gynnwys cynnydd o 10% yn y lwfans gofal maeth, gostyngiad o 50% yn y Dreth Gyngor, cardiau aelodaeth am ddim i gael defnyddio'r gwasanaethau hamdden, a thocyn parcio am ddim i'w ddefnyddio yn ein meysydd parcio

7. Agor Cartrefi Clyd, neu gartrefi teuluol, ar yr ynys a fydd yn galluogi Plant sy'n derbyn gofal ar Ynys Môn i dderbyn gofal ar yr Ynys, mynychu ysgolion lleol a chymryd rhan ym mywyd y gymuned yn hytrach na'r posibilrwydd o gael eu lleoli mewn llety sydd ymhellach i ffwrdd o'r gymuned leol y maent wedi arfer â hi

8. Agor 'fflat hyfforddi' i bobl ifanc sy'n gadael gofal fel y gallwn eu cefnogi i fyw'n annibynnol am y tro cyntaf

# AMCAN 3
# 2019 - 2020

Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol

# Beth fyddwn ni'n ei gyflawni yn 2019 - 2020
# **Datblygu a Hyrwyddo**

Byddwn yn:

1. Parhau i weithio tuag at gynyddu nifer y twristiaid sy'n ymweld â'r Ynys trwy ganolbwyntio'n bennaf ar farchnata digidol ar gyfer yr Ynys mewn cydweithrediad â'r ymgyrch flynyddol gan Croeso Cymru – 'Blwyddyn Darganfod'

2. Paratoi Cynllun Rheoli Cyrchfan newydd a fydd yn cydlynu ymdrechion yn y sector cyhoeddus a phreifat gyda thwristiaeth ar yr Ynys am y cyfnod 2020-2024

3. Croesawu 38 o longau mordaith


4. Parhau gyda'n bwriad a'n cyflawniad o sicrhau bod dros 70% o'r holl wastraff o gartrefi yn cael ei ailgylchu, sydd yn ei dro yn atal gwastraff rhag mynd i safleoedd tirlenwi

5. Parhau i fonitro cynnydd ar y strategaeth effeithlonrwydd ynni, gan fuddsoddi £250,000 pellach mewn prosiectau effeithlonrwydd ynni newydd a cheisio cyllid a chefnogaeth allanol ar gyfer mentrau effeithlonrwydd ynni newydd

6. Gweithio gydag eraill i baratoi ar gyfer a datblygu'r cynnig mwyaf priodol ar gyfer 'Gemau'r Ynysoedd' 2025

7. Cwblhau cynlluniau amddiffynfeydd llifogydd ym Miwmares eleni ac yn dechrau gwaith lliniaru llifogydd ym Mhentraeth a Llansadwrn. Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu cynlluniau ac yn ceisio sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i leihau'r risgiau o lifogydd yn Y Fali, Porthaethwy a Llanfairpwll ynghyd â dylunio a datblygu cynlluniau yn Nhraeth Coch a Brynsiencyn i fynd i'r afael â'r risgiau o lifogydd arfordirol sy'n deillio o effeithiau newid hinsawdd

8. Parhau gyda'n digwyddiadau glanhau traeth llwyddiannus sy'n cael eu cynnal trwy gydol y flwyddyn



# Beth fyddwn ni'n ei gyflawni yn 2019 - 2020
# **Trawsnewid**

Byddwn yn:

1. Darparu cyfleoedd i bobl weithio efo ni trwy weithio mewn partneriaeth â Medrwn Môn a wardiau Twrcelyn, Llifon, Rhosyr, Aethwy a Chanolbarth Môn ynglŷn â chynllunio lle gyda'r nod o'u galluogi i gymryd mwy o gyfrifoldeb a pherchnogaeth o'u cymunedau eu hunain

2. Parhau i ysgogi a chefnogi'r swyddogaethau Tai, Gwarchod y Cyhoedd a Hamdden a chefnogi staff i wneud y defnydd mwyaf o'r iaith Gymraeg

3. Cynorthwyo 20 o fusnesau i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg trwy'r prosiect Arfor

4. Dechrau'r broses o ail-dendro ar gyfer ein gwasanaethau casglu a rheoli gwastraff, gan ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael

5. Paratoi ar gyfer, ac yn tendro'r contract prydau ysgol ar gyfer yr ynys gyfan gan sicrhau bod bwydlen iach a maethlon ar gael yn barod at fis Medi 2020

6. Paratoi rhaglen fuddsoddi cyfalaf tymor hir i wella hyblygrwydd o ran y defnydd a wneir o Ganolfannau Hamdden y Cyngor Sir ac ychwanegu at eu hapêl

7. Symud yn nes tuag at wireddu ein rhaglen ddigidol gyntaf trwy hwyluso darpariaeth hunan-wasanaeth ar lein 24/7 sy'n galluogi trigolion i gysylltu â'r Cyngor ar adeg sy'n gyfleus iddynt hwy o unrhyw leoliad, dyfais neu sianel ddigidol trwy ddatblygu ymhellach ein system rheoli perthynas â'r cwsmer



# Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth ar unrhyw elfen o'r ddogfen hon neu os oes gennych unrhyw sylwadau, cysylltwch â:

**Gwasanaeth Adnoddau Dynol & Thrawsnewid**
**Cyngor Sir Ynys Môn**
**Swyddfeydd y Cyngor**
**Llangefni Ynys Môn**
**LL77 7TW**
**Ffôn - 01248 752111**
**Ebost :–**
**CarysEdwards@ynysmon.gov.uk**
**GethinMorgan@ynysmon.gov.uk**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg a gellir ei darparu ar ddisg neu mewn braille ar gais trwy ymweld â gwefan y Cyngor: www.ynysmon.gov.uk/cynllunycyngor

**Gellwch gael mwy o wybodaeth hefyd fel a ganlyn:**

Gellir gweld polisïau, cynlluniau a strategaethau a gyhoeddir gan y Cyngor www.ynysmon.gov.uk

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol ar gael ar wefan y Cyngor trwy glicio ar y ddolen a ganlyn: www.ynysmon.gov.uk/cynllunycyngor

Mae Adroddiadau Archwilio ac Arolygu a gynhyrchwyd gan Reoleiddwyr y Cyngor ar gael ar eu gwefannau unigol fel a ganlyn:

- Swyddfa Archwilio Cymru: www.archwilio.cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru: www.arolygaethgofal.cymru
- Estyn: www.estyn.llyw.cymru

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.gov.uk

@cyngormon

cyngormon

@cyngormon

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **17 MEHEFIN 2019** |
| **PWNC:** | **MONITRO’R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 4 2018/19** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASNAETH** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**RHIF FFÔN:**<br>**E-BOST:** | **BETHAN HUGHES-OWEN**<br>02148 752663<br>bethanowen2@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

1. Ym mis Chwefror 2018, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2018/19 gyda gwariant net y gwasanaethau, swm o £130.870m, i gael ei gyllido o incwm o’r Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol. Cymeradwywyd swm ychwanegol o £0.075m ar gyfer ei wario ar eitemau nas cynlluniwyd ar eu cyfer. Yn dilyn hyn, gostyngwyd y gyllideb ar gyfer Premiwm y Dreth Gyngor gan £0.045m. O’r herwydd, mae cyfanswm y gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2018/19 yn £130.900m.

2. Roedd y gyllideb am 2018/19 yn cynnwys yr angen i wneud arbedion gwerth £2.522m. Mae’r rhain wedi cael eu hymgorffori yng nghyllidebau unigol y gwasanaethau a chaiff llwyddiant neu fethiant i’w cyflawni eu hadlewyrchu yn y (tan)/gorwariant a ddangosir. Tra bod angen arbedion sylweddol unwaith eto i gydbwyso’r gyllideb, dyrannwyd swm ychwanegol o £0.707m i ddelio gyda’r pwysau ychwanegol ar y gyllideb.

3. Mae’r adroddiad hwn yn nodi’r alldro dros dro ar gyfer y flwyddyn ariannol rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

4. Wrth fonitro'r gyllideb, caniateir y mwyafrif helaeth o incwm a gwariant yn y gyllideb a chaiff ei reoli gan wasanaethau. Fodd bynnag, gwneir nifer o addasiadau ar ddiwedd y flwyddyn sydd y tu allan i reolaeth y gwasanaeth e.e. darpariaeth ar gyfer dyledion drwg, a nodir y rhain ar wahân yn y Tabl isod:-

| | **Amrywiadau ar Gyllidebau dan Reolaeth Gwasanaethau £’000** | **Amrywiant y tu allan i Reolaeth Deiliaid y Gyllideb £’000** | **Cyfanswm Amrywiant £’000** |
|---|---|---|---|
| Cyllidebau Gwasanaeth | 1,692 | 596 | 2,287 |
| Cyllidebau Corfforaethol | (1,360) | (25) | (1,385) |
| Cyllid | (460) | 191 | (269) |
| **Cyfanswm Amrywiant** | **(128)** | **762** | **633** |

5. Mae'r alldro ar gyfer 2018/19 yn dangos bod y sefyllfa gyffredinol yn orwariant o £633k a fydd yn cael ei gyllido o gronfeydd cyffredinol wrth gefn. Mae pwysau yn dal i fodoli ar nifer o gyllidebau gwasanaeth gyda gorwariant net o £2,287k, a oedd yn bennaf o ganlyniad i orwariant yn Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Addysg Canolog. Gwrthbwyswyd y gorwariant hwn gan arbedion untro ar gyllidebau corfforaethol, costau cyllido cyfalaf yn bennaf ac ar warged wrth gasglu’r dreth gyngor. Gan fod cyllidebau wedi cael eu hadolygu yn 2019/20, mae'n annhebygol y bydd yr arbedion untro hyn yn digwydd eto yn 2019/20 a, heb y cynnydd mewn cyllidebau gwasanaeth a gynhwyswyd yn y gyllideb 2019/20, byddai gorwariant sylweddol yn digwydd mewn 2019/20.

6. Wrth edrych ymlaen at 2019/20, bydd y Cyngor yn dal lefel resymol o gronfeydd wrth gefn cyffredinol o £5.9m a chynyddwyd cyllidebau gwasanaeth i adlewyrchu'r cynnydd yn y galw. Ynghyd â'r monitro agos parhaus ar sefyllfa'r gyllideb yn ystod y flwyddyn, dylai hyn sicrhau bod y risg o orwario sylweddol yn ystod 2019/20 yn gyfyngedig.

7. Argymhellir y dylid:-

**(i)** Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B yng nghyswllt perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwyliedig ar gyfer 2018/19;
**(ii)** Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2018/19 fel y manylir arnynt yn Atodiad C;
**(iii)** Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH;
**(iv)** Nodi'r sefyllfa o ran arbedion effeithlonrwydd 2018/19 yn Atodiad D;
**(v)** Nodi'r modd y caiff costau staff asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2018/19 yn Atodiadau DD ac E;
**(vi)** Nodi bod yr alldro yr adroddir arno yn yr adroddiad hwn yn parhau i fod yn amodol hyd oni fydd yr archwiliaid statudol wedi'i gwblhau.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| **DD -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Angylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - | Atodiadau: |
|---|---|
| | • Atodiad A – Adroddiad Monitro’r Gyllideb Refeniw – Alldro Dros Dro 2018/19<br>• Atodiad B – Tabl o’r Alldro Dros Dro gyfer 2018/19<br>• Atodiad C – Crynodeb o’r Cyllidebau Wrth Gefn 2018/19<br>• Atodiad CH – Adolygiad o’r Prosiectau Buddsoddi i Arbed 2018/19<br>• Atodiad D – Adolygiad o Arbedion Effeithlonrwydd 2018/19<br>• Atodiad DD – Gwybodaeth ynghylch monitro Staff Asiantaeth 2018/19<br>• Atodiad E – Gwybodaeth ynghylch monitro Ymgynghorwyr |
| **FF -** | **Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| | • Cyllideb Refeniw 2018/19 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 19 Chwefror 2018 a’i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 28 Chwefror 2018). |

**ATODIAD A**

## MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – ALLDRO DROS DRO 2018/19

### 1. Balans Cyffredinol

Roedd gan y Cyngor falans terfynol archwiliedig o £7.601m o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a chronfeydd wrth gefn yn yr ysgolion a oedd yn werth cyfanswm o £1.869m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Roedd balans terfynol archwiliedig y cronfeydd wrth gefn yn £6.899m ar ôl gwneud addasiadau yn dilyn yr archwiliad.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith yr eitemau canlynol ar gyfer eu cyllido o'r Gronfa Gyffredinol wrth Gefn yn 2018/19:-

| **Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith** | **Swm<br><br>£ 000** | **Pwrpas** |
|---|---|---|
| Balans agoriadol drafft | -6,899 | Y gronfa wrth gefn archwiliedig derfynol ar 31 Mawrth 2018. |
| 6 Tachwedd 2017 | 125 | Cyllido'r tîm Ynys Ynni. |
| 30 Ebrill 2018 | 42 | Cyllideb i gyllido'r costau o redeg Melin Llynnon yn 2018, i'w cyllido o'r Gronfa Gyffredinol wrth Gefn. |
| 21 Mai 2018 | 268 | I'r cyllid hwn gael ei ryddhau o gronfeydd wrth gefn y Cyngor er mwyn cyllido gweithwyr cymdeithasol asiantaeth profiadol am 12 mis er mwyn cefnogi a mentora 7 o weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso. |
| Pwerau Dirprwyedig y Swyddog Adran 151 | 24 | Trosglwyddo arian i'r Gronfa Gyfalaf Wrth Gefn ar gyfer Maes Parcio Mill Bank. |
| Pwerau Dirprwyedig y Swyddog Adran 151 | 131 | Diwygio'r modd y caiff cronfa wrth gefn y CRT ei thrin ar gyfer Lwmp Swm Pensiynau. |
| **Cronfa Gyffredinol Ddiwygiedig y Cyngor** | **-6,309** | **Fel y soniwyd uchod, gall hyn newid yn dilyn unrhyw addasiadau ar ôl archwiliad.** |

Yn ystod y cyfnod cau lawr, cynhaliwyd adolygiad o'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig, ac fe gafodd £236k ei ddychwelyd i'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol o'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig nad oedd eu hangen mwyach. Roedd hyn, o'i gyfuno â'r alldro ar gyfer 2018/19 yn dilyn addasiadau cyfrifo, yn arwain at orwariant o £633k, gan olygu fod y balansau cyffredinol ar 31 Mawrth 2019 yn £5.912m. Mae hyn islaw lleiafswm balans y gronfa wrth gefn gyffredinol a argymhellir a osodwyd ar lefel o £6.76m, fel y cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 27 Chwefror 2019.

### 2. Perfformiad Ariannol fesul Gwasanaeth

**2.1** Mae gorwariant net o £1.692m ar gyllidebau'r gwasanaethau y gellir eu rheoli yn well na'r alldro amcangyfrifiedig yr adroddwyd arno yn Chwarter 3, pryd rhagamcanwyd gorwariant o £2.972m ar wasanaethau. Fodd bynnag, bydd tanwariant o £1.360m ar gyllid corfforaethol yn cyllido'r gorwariant ar wasanaethau. Yn ychwanegol at hyn, cafwyd gwarged o £460k mewn perthynas â chasglu'r Dreth Gyngor. Felly, mae cyfanswm yr alldro refeniw ar gyfer 2018/19 heb gynnwys addasiadau cyfrifo, yn danwariant o £128k. Yn dilyn addasiadau cyfrifo o £761k, mae cyfanswm y gorwariant a fydd yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa gyffredinol ar gyfer 2018/19 yn £633k.

**2.2** Ar ddiwedd Chwarter 2, pan ragwelwyd gorwariant sylweddol, gofynnwyd i'r Gwasanaethau leihau gwariant lle bynnag yr oedd hynny'n bosibl. Roedd y camau gweithredu'n cynnwys oedi cyn penodi staff newydd i swyddi gwag, peidio â mynychu cyrsiau hyfforddi a chynadleddau, oedi cyn prynu asedau newydd tan 2019/20 a gohirio gwaith atgyweirio a chynnal a chadw nad yw'n hanfodol. Er bod yr arbedion unigol yn fach, oherwydd iddynt gael eu gweithredu ar draws y gwasanaethau i gyd, cyfrannodd y swm cyfunol yn sylweddol at leihau'r gorwariant. Fodd bynnag, dylid nodi mai dim ond am gyfnod byr y gellir gweithredu'r mathau hyn o arbedion gan ei fod yn gosod gofynion gwaith ychwanegol ar staff ac yn arwain at ddirywiad yn asedau'r Cyngor. Cynorthwywyd y sefyllfa ariannol hefyd gan dderbyn cyllid grant ychwanegol yn ystod y chwarter olaf.

**2.3** Mae'r tabl isod yn crynhoi'r amrywiadau sylweddol (£100k neu uwch). Nodwch os gwelwch yn dda bod y ffigyrau yma yn ymwneud â'r sefyllfa yn gysylltiedig a cyllidebau y gellir eu rheoli o fewn bob gwasanaeth.

| **Crynodeb o'r amrywiadau alldro cyllidebol a reolwyd ar 31 Mawrth 2019** | |
|---|---|
| | **(Tan) / Gorwariant £000** |
| Dysgu | 327 |
| Diwylliant | (124) |
| Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | 1,830 |
| Oedolion | 1,178 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | (615) |
| Rheoleiddio ac Economaidd | (228) |
| Tai | (304) |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | (181) |
| Trawsnewid Corfforaethol | (183) |
| Bydd-daliadau a Roddwyd | (175) |
| Cyllid Corfforaethol | (1,185) |
| Y Dreth Gyngor, gan gynnwys Premiwm y Dreth Gyngor | (460) |
| Arall (cyfanswm yr amrywiadau sy'n llai na £100k) | (8) |
| **Cyfanswm Amrywiadau'r gor/(tan)wariant** | **(128)** |

## 3. Esboniad o'r Amrywiadau Sylweddol

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Addysg Ganolog

**3.1.1.1** Roedd gorwariant o £327k (12.42%) ar adeg yr alldro, sydd ychydig yn well na'r gorwariant o £589k (13.74%) a ragamcanwyd ar gyfer diwedd y flwyddyn yn Chwarter 3.

**3.1.1.2** Mae yna nifer o or a thanwariannau ar draws y Gwasanaeth. Y pwysau cyllidebol mwyaf sylweddol yw: Cludiant Ysgol – Tacsis ble mae gorwariant o £342k. Gweithredwyd y system 'One Transport' yn ystod y flwyddyn ariannol gan olygu y gwnaed rhai arbedion. Amcangyfrifir y byddai'r gorwariant wedi bod oddeutu £437k petai'r system heb gael ei gweithredu. Cafwyd gorwariant o £137k ar Gyd-Strategaeth AAA Ynys Môn a Gwynedd oherwydd methiant i gynhyrchu'r incwm gofynnol, costau rheolau prosiect ar gyfer cam 2 y strategaeth a chostau canolog ychwanegol i Wynedd am letya'r gwasanaeth ar y cyd. Y sefyllfa derfynol o ran integreiddiad uwchradd oedd gorwariant o £51k. Roedd tanwariant o £104k ar leoliadau all-sirol a hynny oherwydd gostyngiad yn nifer y lleoliadau ynghyd â'r gost gyfartaleddog fesul lleoliad.

### 3.1.2 Diwylliant

**3.1.2.1** Roedd tanwariant alldro o £124k (9.7%) yn y gwasanaeth hwn; yn Chwarter 3 rhagamcanwyd y byddai tanwariant o £100k (7.57%). Gellir priodoli'r rhan fwyaf o'r gorwariant, £106k, i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd oherwydd swyddi gwag. Roedd tanwariant o £24k ar Amgueddfeydd ac Orielau oherwydd fod Oriel Ynys Môn yn perfformio'n well.

## 3.2 Gofal Cymdeithasol i Oedolion

**3.2.1** Roedd gorwariant alldro o £1,178k (4.76%) yn y gwasanaeth hwn. Yr alldro rhagamcanedig ar gyfer y flwyddyn yn Chwarter 3 oedd gorwariant o £1,035k (4.21%), sef cynnydd o £143k.

**3.2.2** Dyma'r elfennau o amrywiad yn yr alldro rhagamcanedig:-

- Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed: Gorwariant o £352k ar y cyfan – mae nifer o or a thanwariannau yn y Gwasanaeth, fodd bynnag, mae'r gorwariant mwyaf yn y maes Gofal Nyrsio ar gyfer Pobl Hŷn. Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd yn nifer y cleientiaid a £242k sy'n ymwneud â chostau cynyddol yn Hafan Cefni a Penucheldre oherwydd yr angen i ddarparu gofal pedair awr ar hugain ar gyfer unigolion a chanddynt anghenion cymhleth. (Gwelir tanwariant cyfatebol yn erbyn yr Uned Ddarparu o ganlyniad i agor Hafan Cefni).
- Anableddau Corfforol (AC): Gorwariant o £335k. Mae'r prif orwariant yn y maes hwn i'w briodoli i ofal preswyl (£127k) a chymorth yn y cartref (£237k). Mae'r costau hyn wedi cynyddu wrth i gleientiaid newydd symud drosodd o'r Gwasanaethau Plant ynghyd â chynnydd cyffredinol yn y galw.
- Anableddau Dysgu (AD): Gorwariant o £521k. Y rheswm am hyn yw (i) mae gan y Gwasanaeth nifer fechan o gleientiaid drud a (ii) cynnydd yn y Ffioedd Byw â Chymorth.
- Iechyd Meddwl (IM): Gorwariant o £282k. Mae hyn oherwydd nifer fechan o gleientiaid drud a chynnydd mewn costau lleoliadau.
- Uned Ddarparu: Tanwariant o £256k. Mae hyn yn bennaf oherwydd tanwariannau yn yr adain Cartrefi Preswyl, yn rhannol oherwydd agor Hafan Cefni.
- Rheolaeth a Chefnogaeth: Tanwariant o £56k, sy'n ymwneud yn bennaf â swydd wag.

**3.2.3** Mae tua 59% o gyllideb y Gwasanaeth yn cael ei harwain gan alw. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n barhaus i geisio rhagamcan costau'r gyllideb hon a arweinir gan y galw am wasanaethau. Mae'r rhagamcan ar gyfer diwedd y flwyddyn a wneir ar ddiwedd bob mis yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar bob lleoliad i oedolion. Mae hyn yn golygu bod rhagamcan y sefyllfa ar gyfer y flwyddyn gyfan yn hynod o anodd ac yn gallu amrywio'n fawr iawn o un cyfnod i'r llall.

## 3.3 Gwasanaethau Plant

**3.3.1** Roedd gorwariant alldro o £1,830k (20.96%) yn y gwasanaeth o gymharu â rhagamcan o £2,009k (24.15%) ar gyfer y flwyddyn gyfan yn Chwarter 3. Mae hyn yn ostyngiad o £179k ers Chwarter 3. Mae'r rhan fwyaf o'r gorwariant yn y maes Plant sy'n Derbyn Gofal, sef £2,281k. Mae holl adeiniau eraill y Gwasanaethau Plant yn tanwario ac eithrio gorwariant o £13k ar y Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd a Chymorth i Deuluoedd o £13k. Mae cyllid ychwanegol wedi cael ei ddarparu yng nghyllidebau 2019/20 i helpu'r gwasanaeth i fynd i'r afael â'r costau cynyddol yn yr adain Plant sy'n Derbyn Gofal.

**3.3.2** Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol gwrdd â chostau ymyriadau a gyfeirir gan y llys e.e. asesiadau o lety preswyl / llety â chymorth ar gyfer rhieni a phlant, cyswllt dan oruchwyliaeth ac asesiadau arbenigol eraill, sydd hefyd yn anodd i'w rhagweld ac yn cael eu harwain gan y galw. Mae'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol bod yr asesiadau hyn wedi cael eu cynnal cyn yr achosion sydd yn rhoi pwysau ar gyllidebau'r tîm.

**3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)**

**3.4.1** Roedd tanwariant o £303k (29.33%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod. Mae costau digartrefedd (Gwely a Brecwast) yn parhau i roi pwysau ar y gyllideb gyda gorwariant o £55k. Fodd bynnag, mae swyddi gweigion ac oedi o ran recriwtio (£143k) a grantiau ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn (£90k) ynghyd â mân-danwariannau eraill yn cyfrannu at y tanwariant cyfan.

**3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**

**3.5.1 Economaidd a'r Gymuned (yn cynnwys Arforol a Hamdden)**

**3.5.1.1** Yn gyffredinol, roedd tanwariant alldro o £107k (6.38%) yn y gwasanaeth hwn. Rhagamcanwyd yn Chwarter 3 y byddai tanwariant o £119k (6.87%) yn y gwasanaeth.

**3.5.1.2** Roedd tanwariant o £57k yn elfen Datblygu Economaidd y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn o gymharu â chyllideb gytbwys yn ystod Chwarter 3. Mae hyn oherwydd swyddi gweigion a ddaw'n arbedion effeithlonrwydd yn 2019/20. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi gallu codi am amser staff yn erbyn gwahanol brosiectau er mwyn gwneud arbedion ar y gyllideb graidd.

**3.5.1.3** Roedd tanwariant o £51k yn yr adain Arforol. Mae'r tanwariant hwn wedi digwydd oherwydd cynnydd mewn incwm a'r ffaith na chafodd y gyllideb staffio ei defnyddio'n llawn yn ystod misoedd yr haf.

**3.5.1.4** Roedd gorwariant o £38k yn yr adain Hamdden ar ddiwedd y flwyddyn. Gwelwyd gwelliannau o ran incwm yn y canolfannau a llwyddwyd i gynhyrchu £56k yn uwch na'r targed. Cafwyd problemau gyda chyllidebau staffio drwy'r flwyddyn, fodd bynnag, gobeithio y bydd hyn yn cywiro ei hun yn ystod 2019/20.

**3.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd**

**3.5.2.1** Roedd tanwariant alldro o £121k (6.20%) yn y gwasanaeth hwn. Yr alldro rhagamcanedig ar gyfer y flwyddyn ar ddiwedd Chwarter 3 oedd tanwariant o £50k (2.56%). Mae hyn oherwydd gorwariant mewn rhai meysydd a thanwariant cyfatebol ar eraill.

**3.5.2.2** Roedd tanwariant o £5k yn yr Adain Gwarchod y Cyhoedd, sy'n ostyngiad o gymharu â'r gorwariant o £10k a ragamcanwyd yn ystod Chwarter 3. Roedd gorwariannau bychan ar nifer o'r gwasanaethau a ddarperir gan yr Adran Gwarchod y Cyhoedd. Ni fu modd cwrdd â'r targedau incwm ar gyfer Cŵn a Rheoli Pla – diffyg o £26k – fodd bynnag, gwrthbwyswyd hyn oherwydd bod swydd wag gwerth £24k yn yr un adain. Roedd gorwariant o £17k ar farchnadoedd a ffeiriau oherwydd Ffair Borth ac arwerthiannau Cist Car. Yn ogystal, roedd swydd wag yn y tîm iechyd a diogelwch corfforaethol gwerth £26k.

**3.5.2.3** Roedd tanwariant o £116k yn yr Adain Gynllunio ar gyfer 2018/19. Yn flaenorol, disgwyliwyd tanwariant o £60k yn yr adain. Roedd pob adain yn yr Adain Gynllunio, ac eithrio'r system gynllunio newydd ble yr oedd gorwariant o £4k, wedi tanwario. Gweinyddiaeth Gynllunio £23k, Rheoli Cynllunio £24k, Rheoli Adeiladu £33k, Uned Polisi Cynllunio £9k, Gweithredu a Chadwraeth £30k a'r Grant Cynllunio a'r Amgylchedd (PEG) £1k.

## 3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

### 3.6.1 Priffyrdd

**3.6.1.1** Roedd tanwariant alldro o £322k (5.25%) yn y gwasanaeth hwn, sy'n waeth na'r sefyllfa a ragamcanwyd yn Chwarter 3 pryd rhagamcanwyd tanwariant o £107k (1.69%). Mae'r newid hwn wedi digwydd oherwydd cynnydd yn yr incwm, grantiau ychwanegol a gostyngiad yn y gwariant oherwydd bod prif gontractwr wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr yn annisgwyl.

**3.6.1.2** Roedd tanwariant o £163k ar y gyllideb Rheoli Gwaith Stryd, tanwariant o £63k ar gymorth adrannol a £64k ar drafnidiaeth gyhoeddus. Roedd hyn i'w briodoli i gyfuniad o dderbyn mwy o incwm na'r disgwyl, llai o wariant a throsiant staff a'r ffaith nad oedd unrhyw brif gontractwyr yn gweithio ar brosiectau yn ystod mis Mawrth. Mae yna nifer o fân or a thanwariannau yn y gwasanaeth sy'n gwrthbwyso.

### 3.6.2 Gwastraff

**3.6.2.1** Roedd tanwariant alldro o £328k (4.38%) yn y gwasanaeth Gwastraff. Ar ddiwedd Chwarter 3, rhagwelyd y byddai tanwariant o £257k (3.43%) – cynnydd o £71k.

**3.6.2.2** Ymatebodd Rheoli Gwastraff yn gadarnhaol i gais corfforaethol i ohirio gwariant ble mae hynny'n bosibl ac i gasglu unrhyw incwm rhag blaen fel bod rhagolygon ariannol yr Awdurdod yn gyffredinol yn well. Roedd hyn, ynghyd â'r pris gwell a gafwyd fesul tunnell am rai deunyddiau, yn golygu bod tanwariant cyfun o (£208k) ar y gwasanaeth ailgylchu. Roedd tanwariant hefyd mewn perthynas â gweinyddu gwastraff £42k, Gorsaf Drosglwyddo Penhesgyn £88k a'r gwasanaeth glanhau £26k oherwydd gostyngiad yn y gwariant, gwellaint o ran incwm a swyddi gweigion am ran o'r flwyddyn. Roedd nifer o fân or a thanwariannau eraill yn y gwasanaeth sy'n gwrthbwyso.

### 3.6.3 Eiddo

**3.6.3.1** Roedd gorwariant alldro o £35k (3.58%) yn y Gwasanaeth. Rhagwelwyd y byddai gorwariant o £36k (3.68%) ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.6.3.2** Roedd gorwariant o £28k ar waith trwsio a chynnal a chadw ar y mân-ddaliadau, adeiladau gweinyddol ac eiddo amrywiol, fodd bynnag, roedd tanwariant o £26k ar gyfleustodau yn gwneud iawn am hyn. Roedd gorwariant o £20k ar y Gwasanaeth Glanhau oherwydd salwch parhaus, taliadau goramser a gwasanaeth llanw ar gyfer staff. Ddaru taliad ychwanegol unwaith ac am byth mewn perthynas â therfynu cytundeb prydles gyfrannu at y gorwariant. Roedd tanwariant o £21k ar y gyllideb ar gyfer ffioedd proffesiynol ac ymgynghorwyr. Roedd rhywfaint o fân or a thanwariannau arall.

## 3.7 Trawsnewid

**3.7.1** Roedd tanwariant alldro o £102k (2.30%) yn y swyddogaeth Trawsnewid, sy'n gryn wahanol i'r tanwariant o £58k (1%) at ddisgwyliwyd yn Chwarter 3.

**3.7.1.1** Roedd gorwariant o £135k yn yr adain TGCh, sy'n gynnydd o gymharu â'r gorwariant o £112k a ragamcanwyd yn Chwarter 3. Mae'r holl gyllidebau ar gyfer meddalwedd a chaledwedd ar draws y Cyngor, ac eithrio rhai'r ysgolion, wedi'u canoli ac yn cael eu rheoli bellach o fewn y Gwasanaeth TGCh. Credir nad yw'r cyllidebau meddalwedd wedi bod yn ddigonol yn hanesyddol ond, unwaith y bydd y broses o'u canoli wedi ei sefydlu'n llawn, disgwylir gostyngiad yn y costau hyn. Roedd cyfanswm y gorwariant yn £84k. Roedd gorwariant o £39k mewn perthynas â Cysylltu Môn a mân orwariant ar gyflenwadau a gwasanaethau.

**3.7.1.2** Roedd tanwariant o £54k yn y swyddogaeth AD ar gyfer y flwyddyn a hynny i’w briodoli’n bennaf i gostau staffio a hyfforddiant.

**3.7.1.3** Roedd tanwariant o £183k (22.2%) yn y swyddogaeth Trawsnewid Corfforaethol ar ddiwedd y flwyddyn, cynnydd o £28k o gymharu â’r tanwariant o £155k a ragwelwyd yn ystod Chwarter 3. Roedd y tanwariant i’w briodoli’n bennaf i staffio (£93k) a thanwariant o £78k mewn perthynas â Phartneriaeth Ynys Môn a Gwynedd.

## 3.8 Adnoddau (ac eithrio Budd-daliadau a roddwyd)

**3.8.1** Roedd tanwariant alldro o £39k (1.37%) yng nghyllideb y swyddogaeth Adnoddau. Yn Chwarter 3, rhagwelwyd tanwariant o £34k (1.2%) yn y swyddogaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol.

**3.8.2** Roedd gorwariant o £108k yn yr Adain Refeniw a Budd-daliadau. Roedd hyn £19k yn is na’r gorwariant yr adroddwyd arno yn Chwarter 3. Y prif orwariannau yw £26k ar staffio, £64k ar feddalwedd a chostau gweinyddol a diffyg o £55k yn yr incwm o gostau llys. Roedd tanwariant o £47k yn yr Adain Archwilio. Mae hyn oherwydd nifer o swyddi gweigion, fodd bynnag, mae’r swyddi hyn bellach wedi cael eu llenwi. Roedd gorwariant o £18k yn yr Adain Gyfrifeg. Y gost fwyaf sylweddol yn yr Adain Gyfrifeg yw taliadau banc ble gwelwyd gorwariant o £40k. Mae costau ymgynghorwyr Civica hefyd yn rhoi pwysau ar y gyllideb a chafwyd gorwariant o £21k. Mae ad-daliad o £24k ar gardiau credyd ac ad-daliadau grant o £12k, ynghyd â thanwariant o £27k ar gostau cyflogau, o gymorth i gyllido gorwariant yn yr Adain Gyfrifeg. Roedd tanwariant o £120k yn yr Adain Gaffael. Roedd hyn oherwydd yr arbedion parhaus o gyllidebau sydd wedi eu canoli.

## 3.9 Busnes y Cyngor

**3.9.1** Roedd tanwariant alldro o £53k (3.63%) yn y swyddogaeth. Rhagwelwyd tanwariant o £4k (0.26%) yn y swyddogaeth yn Chwarter 3.

**3.9.2** Roedd gorwariant o £8k yn y Gwasanaethau Cyfreithiol. Roedd hyn o ganlyniad i amryfal or a thanwariannau yn yr adain. Roedd y rhain yn cynnwys gorwariant ar staff asiantaeth a thrwyddedau meddalwedd, fodd bynnag, cynhyrchodd yr adain fwy o incwm na’r targed. Roedd tanwariant o £61k yn y Gwasanaethau Democratiadd, yn bennaf oherwydd gwarged o £40k ar y setliad terfynol ar gyfer Etholiad 2017 a thanwariant o £21k yn yr Adain Gyfieithu.

## 3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd

**3.10.1** Roedd tanwariant alldro o £181k (5.50%) yn y swyddogaeth, sy’n uwch na’r hyn a rhagamcanwyd yn Chwarter 3, sef £138k (4%).

**3.10.2** Y prif bwysau ariannol a oedd yn effeithio’r swyddogaeth oedd costau cwnsela staff, ble roedd gorwariant o £23k a gorwariant o £33k ar ffioedd crwner. Fodd bynnag, gwelwyd tanwariant mewn sawl maes. Ceir tanwariant hefyd o £56k ar y cyfraniadau pensiwn i Wynedd. Gwnaed penderfyniad hefyd i drosglwyddo arian sydd dros ben o’r ddarpariaeth yswiriant ac i gadw £1.25m yn y gronfa wrth gefn ar gyfer yswiriant, gyda hynny’n arwain at danwariant o £203k yn y ddarpariaeth yswiriant gorfforaethol.

## 3.11 Rheolaeth Gorfforaethol

**3.11.1** Roedd gorwariant alldro o £2k (0.30%). Roedd tanwariant ar gyflogau oherwydd ymadawiad un o’r Prif Weithredwyr Cynorthwyol tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cafwyd gorwariant bychan hefyd ar gludiant a chyflenwadau a gwasanaethau.

**4. Cyllid Corfforaethol (gan gynnwys Budd-daliadau a Roddwyd)**

**4.1** Roedd tanwariant o £1,385k (8.75%) ar ddiwedd y flwyddyn yng Nghyllid Corfforaethol, gan gynnwys Budd-daliadau a Roddwyd. Roedd tanwariant o £175k o ran y budd-daliadau a roddwyd. Mae hyn yn cynnwys tanwariant o £143k ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a gorwariant o £24k ar Daliadau Tai Dewisol. Mae gorwariant o £84k ar fudd-daliadau tai oherwydd y galw cynyddol am lety Gwely a Brecwast nad oes modd ei adennill yn llawn drwy'r cymhorthdal Budd-dal Tai.

Roedd tanwariant o £1,185k hefyd ar gostau cyllido cyfalaf oherwydd arbedion a wneir yn sgil benthyca'n fewnol, gohirio ail-gyllido benthyciadau a dewis yr opsiynau benthyca isaf sy'n cydymffurfio â Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2018/19. Mae hyn yn welliant sylweddol o gymharu â Chwarter 3 oherwydd gweithredu'r Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP) newydd yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad gyda'r Archwilwyr Allanol.

**4.2** Mae Atodiad C yn crynhoi'r sefyllfa ariannol o ran cyllidebau wrth gefn ar adeg yr alldro. Cymeradwywyd cyllideb wrth gefn a oedd werth cyfanswm £1.789m fel rhan o gyllideb 2018/19. Mae £1,789k net wedi cael ei drosglwyddo i / o wasanaethau i gyllido prosiectau penodol, materion cyllidebol neu i ryddhau arbedion o ddiswyddiadau gwirfoddol. Roedd pwysau ar y gronfa wrth gefn ar gyfer tâl a graddfeydd oherwydd nifer y diswyddiadau, ac mae'r diffyg yn £476k. Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith, ym mis Tachwedd 2018, i'r diffyg cael ei gyllido o'r gronfa wrth gefn Tâl Cyfartal. Cafodd y tanwariant yn y gronfa wrth gefn gyffredinol ei ddefnyddio cyn cymryd arian o'r gronfa wrth gefn ar gyfer Tâl Cyfartal.

**5. Casglu'r Dreth Gyngor**

**5.1** Penderfynir ar gyllideb Cronfa'r Dreth Gyngor gan ddefnyddio'r rhagamcan o'r ddyled y gellir ei gasglu ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn unig, a hynny'n seiliedig ar y ffigwr a osodwyd ar gyfer sylfaen y dreth ym mis Tachwedd 2017. Nid yw'n darparu ar gyfer ôl-ddyledion a gasglwyd o flynyddoedd blaenorol, addasiadau i rwymedigaethau sy'n deillio o flynyddoedd blaenorol (eithriadau, gostyngiadau i bobl sengl ac ati), newidiadau i sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn gyfredol neu'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn anorfod, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol y Gronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Roedd Cronfa'r Dreth Gyngor (cyn cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg) £96k yn uwch na'r ffigwr targed, fodd bynnag, ar ôl cynnwys cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg, roedd Cronfa'r Dreth Gyngor £95k yn brin o'i ffigwr targed (o gymharu â rhagamcan o £45k yn Chwarter 3). Yn ychwanegol at hyn, roedd cyllideb Premiwm y Dreth Gyngor, sef taliad Dreth Gyngor ychwanegol a godir ar ail gartrefi ar Ynys Môn (ers 1 Ebrill 2017), £363k yn uwch na'r targed a osodwyd (o gymharu â £218k yn Chwarter 3). Yn gyffredinol, felly, roedd gwarged o £269k ar gasglu'r Dreth Gyngor erbyn Chwarter 4 (o gymharu â'r rhagamcan o £173k yn Chwarter 3). Mae'r tan-gyflawniad ar Gronfa'r Dreth Gyngor (ac eithrio premiymau) i'w briodoli'n gyfangwbl i gynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn.

**6. Arbedion Cyllidebol 2018/19**

**6.1** Tynnwyd arbedion cyllidebol o £2.522m o gyllidebau'r gwasanaeth ar gyfer 2018/19. Gwnaed £2,064m o'r arbedion, fodd bynnag, ni fu modd cyflawni £485k. Roedd y diffyg mwyaf o safbwynt arbedion yn y Gwasanaethau Oedolion, lle roedd y gwasanaeth £320k yn brin o'r targed oherwydd pwysau cynyddol ac oedi gydag adeiladu Hafan Cefni. Gwelir dadansoddiad manwl ar gyfer pob Gwasanaeth yn Atodiad D.

## 7. Buddsoddi i Arbed

**7.1** Ymgymerwyd â rhaglen buddsoddi i arbed yn 2016/17 ac fe neilltuwyd £983k i brosiectau unigol. Hyd yma, mae £212k wedi cael ei wario neu ei ymrwymo o'r dyraniad hwn yn ystod 2018/19. Gwnaed cynnydd amrywiol ar yr holl brosiectau ac mae rhai'n agosach at gael eu cwblhau nag eraill. Ceir manylion llawn am y gwariant a'r cynnydd ar bob prosiect yn Atodiad CH. Yn achos prosiectau nad ydynt wedi eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, byddant yn parhau i 2019/20 a bydd y cyllid yn parhau i fod ar gael o fewn y gronfa wrth gefn buddsoddi i arbed.

## 8. Costau Asiantaeth ac Ymgynghorwyr

**8.1** Yn ystod y flwyddyn, gwariwyd £1.067m ar staff Asiantaeth. Ar y cyfan, cafodd y rhain eu cyllido'n rhannol o gyllidebau staffio am eu bod yn gysylltiedig â swyddi gweigion, roedd £685k yn gysylltiedig â staff llanw yn y Gwasanaethau Plant tra mae'r gwasanaeth yn cael ei ailstrwythuro. Gwariodd y Gwasanaeth Gwastraff £204k ar asiantiaid safle yn y canolfannau ailgylchu. Mae'r manylion llawn ar gael yn Atodiad DD.

**8.2** Gwariwyd £1.1.45m ar wasanaethau ymgynghori yn Chwarter 4 a chafodd £769k o'r swm hwn ei gyllido'n allanol drwy grantiau neu gyfraniadau. Cyfanswm y gwariant ar ymgynghori yn ystod y flwyddyn oedd £2,915,529, gyda dros £2m yn ymwneud â Wylfa Newydd a prosiectau cysylltiedig; fe cyllidwyd y rhain o gyfraniadau allanol. Mae nifer o resymau dros ddefnyddio ymgynghorwyr, felly, mae crynodeb o'r gwariant fesul gwasanaeth a manylion ychwanegol am y gwariant ar gael yn Atodiad E.

## 9. Casgliad

**9.1** Mae gorwariant o £633k ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019. Mae hyn yn well na'r disgwyliad a'r adroddiadau a gafwyd drwy'r flwyddyn. Roedd y sefyllfa well yn ystod y chwarter olaf yn ganlyniad o incwm ychwanegol a chyllid grant ychwanegol annisgwyl a'r ymateb gadarnhaol gan Benaethiaid Gwasanaeth i'r cais iddynt gyfyngu eu gwariant i bethau hanfodol yn unig yn y chwarter olaf. Roedd gorwariant o £2.287m yng nghyllidebau'r gwasanaethau ond mae'r tanwariant o £1.654m mewn perthynas â chyllid corfforaethol wedi gostwng y gorwariant cyffredinol. Mae'r Gwasanaethau sy'n parhau i fod dan bwysau yn debyg i 2017/18 (Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Dysgu). Mae cyllidebau'r Gwasanaethau Oedolion hefyd dan bwysau oherwydd y galw cynyddol am wasanaethau. Wrth symud ymlaen, ni fydd modd cynnal lefel y tanwariant ar gyllid corfforaethol ac mae'n anodd cyfyngu gwariant i'r pethau hanfodol yn unig yn 2019/20, felly, mae'n bwysig rhoi sylw i'r materion sydd ynghlwm wrth gyllidebau sy'n seiliedig ar y galw.

**9.2** Adroddiad ar yr alldro dros dro yw hwn a gall newid wrth i wybodaeth newydd gael ei rhyddhau rhwng rŵan ac adrodd ar y Datganiad Cyfrifon terfynol ym mis Medi.

**ATODIAD B**

## Alldro Refeniw Rhagdybiedig ar gyfer y Flwydyn Ariannol a ddaw I ben ar 31 Mawrth 2019 – Chwarter 4

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | 2018/19 Cyllideb Flynyddol | Alldro Dros Dro | Cyfanswm Amrywiant Alldro Dros Dro | Amrywiant na ellir ei Reoli (Eithriadau) Dros Dro | Amrywiant na ellir ei Reoli (Dim Eithriadau) Dros Dro | Alldro amcangyfrifiedig 31 Mawrth 2019 Gor/(Tan)wariant Ch3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | |
| Cyllideb Ddatganoledig Ysgolion | 43,216 | 43,216 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Addysg Ganolog | 4,411 | 4,760 | 349 | 220 | 327 | 589 |
| Diwylliant | 1,332 | 1,207 | (126) | (2) | (124) | (100) |
| | | | | | | |
| **Gwasanaeth Oedolion** | 24,921 | 26,094 | 1,173 | (5) | 1,178 | 1,035 |
| | | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | 8,729 | 10,565 | 1,837 | 7 | 1,830 | 2,009 |
| | | | | | | |
| **Tai** | 1,091 | 802 | (289) | 15 | (304) | (45) |
| | | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | | | |
| Priffyrdd | 6,385 | 6,101 | (284) | 38 | (322) | (107) |
| Eiddo | 1,009 | 1,136 | 128 | 92 | 35 | 36 |
| Gwastraff | 7,490 | 7,453 | (37) | 291 | (328) | (257) |
| | | | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 1,750 | 1,679 | (71) | 36 | (107) | (119) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2,070 | 1,967 | (103) | 18 | (121) | (50) |
| | | | | | | |
| **Trawsnewid** | | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1,251 | 1,195 | (56) | (2) | (54) | (15) |
| TGCh | 2,354 | 2,483 | 128 | (7) | 135 | 112 |
| Trawsnewid Corfforaethol | 826 | 644 | (182) | 0 | (183) | (155) |
| | | | | | | |
| **Adnoddau** | 2,840 | 2,886 | 46 | 85 | (39) | (34) |
| | | | | | | |
| **Busnes y Cyngor** | 1,464 | 1,411 | (53) | 0 | (53) | (4) |

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | 2018/19 Cyllideb Flynyddol | Alldro Dros Dro | Cyfanswm Amrywiant Alldro Dros Dro | Amrywiant na ellir ei Reoli (Eithriadau) Dros Dro | Amrywiant na ellir ei Reoli (Dim Eithriadau) Dros Dro | Alldro amcangyfrifiedig 31 Mawrth 2019 Gor/(Tan)wariant Ch3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd** | 3,290 | 3,115 | (175) | 6 | (181) | (138) |
| | | | | | | |
| **Rheolaeth Gorfforaethol** | 657 | 659 | 3 | 0 | 2 | 15 |
| | | | | | | |
| **Effaith Rhagamcanedig y Costau na fedir eu rheoli** | | | | | | 200 |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau'r Gwasanaethau** | 115,086 | 117,373 | 2,287 | 596 | 1,692 | 2,972 |
| | | | | | | |
| Ardollau | 3,361 | 3,361 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gostyngiadau Dewisol yn y Dreth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Cyllido Cyfalaf | 7,541 | 6,356 | (1,185) | 0 | (1,185) | (1,056) |
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (93) |
| Cyfraniad y Gwasanaethau Cefnogaeth i'r CRT | (693) | (845) | (152) | (152) | 0 | 0 |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 5,606 | 5,558 | (48) | 127 | (175) | (63) |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** | 15,815 | 14,429 | (1,385) | (25) | (1,360) | (1,210) |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm 2018/19** | **130,900** | **131,802** | **902** | **570** | **331** | **1,762** |
| | | | | | | |
| **Cyllido** | | | | | | |
| Trethi Annomestig | (22,574) | (22,574) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Y Dreth Gyngor | (34,440) | (35,357) | (269) | 191 | (460) | 45 |
| Premiwm y Dreth Gyngor | (648) | 0 | 0 | 0 | 0 | (218) |
| Grant Cymorth Refeniw | (73,238) | (73,728) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid 2018/19** | **(130,900)** | **(131,168)** | **(269)** | **191** | **(460)** | **(173)** |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm yr Alldro gan gynnwys effaith cyllido** | **0** | **633** | **633** | **761** | **(128)** | **1,589** |

## Crynodeb o'r Sefyllfa Alldro y Cyllidebau Wrth Gefn 2018/19

| | Y Gyllideb Wreiddiol £ | Trosglwyddiadau £ | Y Gyllideb Ddiwygiedig hyd yma £ | Terfynol Gor/(Tan)wariant £ |
|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol | 359,166 | (128,770) | 230,396 | 230,396 |
| Tâl a Graddfeydd | 300,000 | (775,980) | (475,980) | (475,980) |
| Trothwy Gofal | 240,000 | (144,420) | 95,580 | 95,580 |
| Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig | 739,890 | (739,890) | - | 0 |
| Chwyddiant Cyflogau | 150,000 | 0 | 150,000 | 150,000 |
| **Cyfanswm y Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill** | 1,789,056 | (1,789,060) | (4) | (4) |

**Adolygiad o’r Prosiectau Buddsoddi i Arbed 2018/19**

| Gwasaneth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwywyd £ | Cyfanswm Gwariant i 31 Mawrth 2018 | Balans ar 1 Ebrill 2018 £ | Y gwariant hyd yma 2018/19 £ | Cyllideb Weddilliol 2018/19 £ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | System Rheoli Dogfennau Electronig (EDMS) ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | Datrysiad sganio a llif gwaith ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | 170,000 | 127,856 | 42,144 | 42,089 | 55 | Mae'r prosiect wedi'i gwblhau'n llwyddiannus erbyn hyn, o fewn y gyllideb, er iddo or-redeg yn erbyn yr amserlenni gwreiddiol am nifer o resymau. Bu'n rhaid ail-gynllunio'r prosiect gan nad oedd y cyflenwr wedi rhoi'r darlun cyflawn i'r gwasanaeth o ran y caledwedd a'r meddalwedd angenrheidiol i redeg y datrysiad. Roedd y dyluniad gan y cyflenwr yn anghywir a mynnodd y peiriannydd gosod y dylid cynyddu manyleb pob un o'r gweinyddion 50%, roedd hyn yn golygu bod angen prynu elfennau ychwanegol ac oedi dilynol. Yn y pen draw llwyddodd y prosiect i gyflawni'r ffactorau llwyddiant critigol - gan gefnogi'r angen am reoli dogfennau'n dda, gwella gwasanaeth i gwsmeriaid, lleihau gofynion storio, bodloni gofynion cyfreithiol, moderneiddio prosesau gweinyddol a gwneud data yn ased corfforaethol. |
| T.G | Mynegai Tir ac eiddo Lleol (LLPG) | Gweithredu system LLPG ar draws y Cyngor | 10,800 | 10,800 | 0 | 0 | 0 | Cost gwirioneddol y prosiect oedd £15,261, gyda’r gorwariant o £4.5k yn cael ei gyllido gan gyllideb y gwasanaeth. |
| T.G / Trawsnewid | System Rheoli Perthnasau gyda’r Cwsmer (CRM) | Prynu a gweithredu system CRM | 255,000 | 33,597 | 221,403 | 68,988 | 152,415 | Mae CRM bellach wedi hen ennill ei blwyf ac mae'r cysylltiadau â'r wefan newydd yn glir ac yn effeithiol. Mae TG yn gweithio gyda gwasanaethau i yrru mwy o ffurflenni ar-lein ac ar gael drwy'r CRM. Mae cyfleoedd amlwg hefyd i gynyddu'r defnydd o'r CRM yn fewnol er mwyn gyrru gwelliannau mewn prosesau ac effeithlonrwydd drwy ddileu'r ffurflenni Word a PDF oddi ar y wefan a'u gyrru'n uniongyrchol drwy'r CRM. |
| T.G / Adnoddau | Porth Talu | Prynu a gweithredu porth talu a fydd yn golygu y gellir derbyn taliadau drwy’r Ap | 27,000 | 6,000 | 21,000 | 7,418 | 13,582 | Mae'r porth talu yn gyflawn ac yn cael ei brofi gan y gwasanaeth Refeniw cyn cael ei gyflwyno ar wefan y Cyngor. Unwaith y gwneir hynny, y cynllun yw gweithio hefo Refeniw. |

| Gwasaneth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwywyd<br>£ | Cyfanswm Gwariant i 31 Mawrth 2018 | Balans ar 1 Ebrill 2018<br>£ | Y gwariant hyd yma 2018/19<br>£ | Cyllideb Weddilliol 2018/19<br>£ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gwneud systemau cynllunio'n fwy gwydn | Systemau Cynllunio newydd wedi eu hawtomeiddio | 118,000 | 40,464 | 77,536 | 39,084 | 38,452 | Mae'r Prosiect Rheoli Adeiladu wedi dechrau erbyn hyn, gyda'r dyddiad cwblhau arfaethedig rhwng Mawrth a Mehefin 2019. Cyllidwyd y gorwariant ar yr ochr refeniw. |
| Adnoddau | Gwella systemau casglu incwm | Prynu a gweithredu system rheoli incwm newydd sy'n cysylltu gyda'r ffrydiau incwm presennol ac yn caniatáu dulliau newydd ar gyfer casglu incwm (AppMon ac ati) cysylltu i'r system rheoli arian | 150,000 | 59,078 | 90,922 | 31,403 | 59,519 | Cafodd rhai rhannau o'r prosiect eu gohirio yn ystod Ch4 oherwydd eu bod yn canolbwyntio ar gau'r cyfrifon. Disgwylir i'r rhan mwyaf o'r prosiect sy'n weddill ailddechrau ym mis Gorffennaf - cysoni banc, newid codau lejer, cyflwyno e-ffurflenni - a chyflwyno'r holl wasanaethau. Mae gwaith yn parhau i awtomeiddio mewnforion taliadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer y dreth gyngor a rhenti tai, ond mae'r gwaith ar gordaliadau budd-dal wedi'i gwblhau. Mae hyn yn hanfodol er mwyn delio â'r cynnydd mewn taliadau drwy Credyd Cynhwysol. Cyflwynwyd yn nifer o wasanaethau peiriannau Chip & Pin di-gyswllt wedi'u hamgryptio ac, yn yr wythnosau nesaf, bydd 3 dyfais sbâr yn cael eu hadfywio i'w defnyddio gyda gwahanol wasanaethau ac fel bod un dros ben ar gael rhag ofn y bydd un yn camweithio. Erbyn Rhagfyr 2019, bydd y system Rheoli Incwm yn cael ei diweddaru i fersiwn mwy diweddar. Bydd y prosiect yn gweithio ar y cyd â phrosiect y porth talu i gyflwyno'r gallu i dalu am fathau eraill o incwm, fel ffioedd rheoli eiddo, ffioedd cynllunio ac ati. Mae angen datblygu taliadau drwy ApMôn hefyd. |
| Dysgu Gydol Oes | Moderneiddio prosesau busnes a pherfformiad | Gweithredu 'r modiwlau hynny o system Rheoli Gwybodaeth ONE nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd | 72,000 | 52,529 | 19,471 | 22,997 | 0 | Cwblhawyd y prosiect ym mis Ionawr 2019. Disgwylir gwariant ychwanegol o lai na £1k. Bydd y gorwariant yn cael ei gyllido o gyllideb buddsoddi i arbed yr Oriel. |
| Dysgu Gydol Oes | Moderneiddio busnes | Gwefan i'r Oriel | 15,000 | 0 | 15,000 | 0 | 11,474 | Mae'r gwaith yn gysylltiedig â'r prosiect ehangach ar y wefan gorfforaethol. Disgwylir iddo gael ei ddefnyddio'n llawn yn 2018/19 - mae'r gwaith wedi'i ohirio hyd nes bod y prosiect system ONE wedi'i gwblhau a bod swm y gyllideb sy'n weddill yn hysbys. |

| Gwasaneth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwywyd<br>£ | Cyfanswm Gwariant i 31 Mawrth 2018 | Balans ar 1 Ebrill 2018<br>£ | Y gwariant hyd yma 2018/19<br>£ | Cyllideb Weddilliol 2018/19<br>£ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| T.G. / Trawsnewid | Digidol yn Gyntaf / Digidol yn Awtomatig | Cyflogi Swyddog Digidol Arweiniol a Dadansoddwr Gwasanaethau Digidol | £70,000 yn y flwyddyn gyntaf a £50,000 yn yr ail flwyddyn | 0 | 120,000 | 0 | 120,000 | Cytunwyd ar yr arweinydd digidol yn gyntaf i symud ymlaen i gyflymu'r broses o fabwysiadu sianelau digidol ac integreiddio CRM gyda'r porth mynediad i gwsmeriaid ar gyfer Adnoddau a'r Porth tenantiaeth ddigidol ar gyfer Tai. Gohiriwyd y rôl hon er mwyn sicrhau nad oedd y buddsoddiad yn cael ei wastraffu wrth i'r CRM ddod yn fwy sefydledig a bod y gwasanaethau eu hunain yn barod ar gyfer mabwysiadu mwy digidol. |
| Gwarchod y Cyhoedd | Gwell Cysylltedd Digidol yn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd | Gweithredu system yn seiliedig ar y cwmwl i gofnodi ymweliadau archwilio. Mae'r feddalwedd yn ddatrysiad Cymru gyfan sydd wedi cael ei chaffael drwy gytundeb fframwaith a gefnogir gan 19 o'r 22 gyngor yng Nghymru | £10,000 y flwyddyn am 4.5 mlynedd | 0 | 45,000 | 0 | 45,000 | Datgelodd y profion marchnad meddal cychwynnol a gwblhawyd yn y gwanwyn eleni na allai darparwyr meddalwedd cyfredol fodloni ein manyleb defnyddiwr a darparu swyddfa gefn a/neu ateb symudol newydd. At hynny, ni fyddai'r gronfa I2S yn talu costau cychwynnol y drwydded a'r ffi cynnal a chadw flynyddol. Mae penderfyniad wedi cael ei wneud gan y Bwrdd Prosiect i gyflwyno Achos Busnes newydd yn archwilio'r manteision o fanteisio ar y system CRM gorfforaethol a gwerthuso opsiynau i gaffael datrysiad symudol atodol. Bydd yr Achos Busnes yn tynnu sylw at gostau'r prosiect hwn a'r nod yw defnyddio rhywfaint o Gronfa I2S cyn diwedd y flwyddyn ariannol. |
| | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | | | | **982,800** | **330,324** | **652,476** | **211,979** | |

## Adolygiad o Arbedion Effeithlonrwydd 2018/19

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Arbedion Cyllidebol 2018/19<br>£'000 | Wedi eu Cyflawni 2018/19<br>£'000 | Heb eu Cyflawni 2018/19<br>£'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Dysgu Gydol Oes | 358 | 274 | 84 | Cyflawnodd y cynnig arbedion ar gyfer lleihau'r costau rheoli ar gyfer hyfforddiant cerddoriaeth £60k o'r £79k arfaethedig, disgwylir i'r arbediad gael ei gyflawni o fis Medi ymlaen yn llawn. Nid yw'r gwasanaeth wedi llwyddo i aildendro contractau torri glaswellt yr ysgolion tan yn hwyrach na'r disgwyl, gan arwain at brinder arbedion disgwyliedig. Llwyddwyd i wneud arbedion o 2019/20 ymlaen. Roedd incwm a gasglwyd £12k (23%) uwch na 2017/18, ond mae'r targed yn dal i gael ei dangyflawni'n sylweddol. Ysgolion sy'n gyfrifol am gasglu'r incwm hwn, ac mae'r Fforwm Ysgolion 2017/18 wedi trafod y posibilrwydd o ddirprwyo'r gyllideb hon. Penderfynodd y Fforwm beidio â dirprwyo'r gyllideb am y tro, ac i roi cyfnod o 1 mlynedd i ysgolion wella'r broses o gasglu incwm. Bydd trafodaethau pellach gydag ysgolion i ystyried sut y gellid rheoli'r gyllideb hon yn fwy effeithiol. Mae arbedion o £100k wedi'u cyflawni'n llawn ar y gyllideb ddirprwyedig ar gyfer ysgolion, er y dylid nodi bod balansau ysgolion wedi gostwng yn sylweddol yn ystod 2018/19. 16/49 o ysgolion wedi gorffen y flwyddyn ariannol mewn sefyllfa o ddiffyg. |
| Rheoleiddio a Detblygu Economaidd | 125 | 120 | 5 | Nid oedd yr Awdurdod yn gallu allanoli'r caffi, a chyflawni'r cynnig arbedion gwerth £5k, felly, bydd yn symud tuag at wasanaeth peiriant gwerthu yn unig o 2019/20 ymlaen. |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 366 | 332 | 34 | Mae gorwariant wedi codi ar y ganolfan gost cyfleusterau cyhoeddus gan nad yw'r gwasanaeth yn gallu cyflawni ei darged arbedion yn amodol ar benderfyniad gan y Pwyllgor ynghylch darpariaeth yn y dyfodol. Fel y cytunwyd, mae'r gwasanaeth wedi bod yn ceisio trosglwyddo'r gwaith o redeg cyfleusterau cyhoeddus i'r trydydd sector am y tair blynedd diwethaf ac, er bod rhai wedi'u trosglwyddo, ychydig iawn o ddiddordeb a ddangoswyd mewn eraill ac mae rhai a drosglwyddwyd wedi hynny eu dychwelyd i'r Awdurdod. Mae Eiddo yn parhau i geisio hwyluso allanoli’r cyfleusterau cyhoeddus. |

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Arbedion Cyllidebol 2018/19<br>£'000 | Wedi eu Cyflawni 2018/19<br>£'000 | Heb eu Cyflawni 2018/19<br>£'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Oedolion | 350 | 30 | 320 | Mae'r model gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar gefnogi pobl i gynnal eu hannibyniaeth a chanolbwyntio mwy ar eu hasedau, yn parhau i gael ei weithredu drwy'r timau gwaith cymdeithasol. Mae'r sefyllfa ar ddiwedd Ch4 yn dangos bod pwysau ar y galw yn ystod y flwyddyn wedi gweithio yn erbyn ein hymdrechion i leihau costau cyffredinol. Felly, ni ellir cyflawni £130k sy'n gysylltiedig â'r cynigion ar gyfer £92k i alluogi cleientiaid i gael eu cefnogi yn eu cartrefi eu hunain neu mewn darpariaeth gofal ychwanegol, yn hytrach na chael eu rhoi mewn gofal preswyl, a £38k drwy hyrwyddo mwy o rwydweithiau cymorth cymunedol a phersonol i alluogi pobl i aros yn annibynnol. Mae grantiau Llywodraeth Cymru yn ein cynorthwyo i reoli rhai o'r costau hyn. Bu oedi o sawl mis wrth agor Hafan Cefni oherwydd oedi yn y gwaith adeiladu. Mae bellach wedi bod ar agor ers dechrau mis Hydref. Mae ein ffocws ar sicrhau bod y rhai sy'n cael eu derbyn ar gyfer fflatiau yn y datblygiad yn rhai y byddai angen lleoliad neu ofal arnynt fel arall, yn golygu ein bod wedi dioddef costau gwag o £88k ar gyfer 2018/19. Erbyn hyn, mae Hafan Cefni bron yn llawn ac rydym yn gweithio i lenwi'r fflatiau gydag unigolion priodol cyn gynted ag y bo modd. Mae'r oedi o ran agor a chostau gwag ar gyfer 2018/19 yn golygu na chyflawnwyd yr arbediad ar gyfer 2018/19. |
| Tai | 23 | 19 | 4 | Mae'r aelod o staff sy'n gyfrifol am y gwaith mewn perthynas â'r cynnydd yn y ffì ar gyfer gwaith yr EPC wedi cyflwyno cais am ddiswyddo gwirfoddol, sy'n ei gwneud yn anodd cadarnhau bod y cynnig arbediad hwn yn gyraeddadwy. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth wedi lliniaru'r diffyg arbediad hwn drwy gorgyflawni'r arbediad o ran talu ffioedd rheoli ar grantiau gyda gweithgareddau statudol. |
| Trawsnewid | 40 | 29 | 11 | Yn dilyn Sioe Môn, mae gorwariant o £2k, sy'n golygu nad yw'r cynnig arbedion o £2k sy'n ymwneud â'r presenoldeb yn y sioe wedi'i gyflawni. Cafodd sero incwm ei gynhyrchu yn ystod 2018/19 drwy werthu gofod hysbysebu ar wefan y Cyngor ac, felly, nid yw'r targed arbedion o £6k wedi cael ei gyflawni. Cynhyrchwyd sero incwm yn ystod 2018/19 drwy ddarparu gwaith ymgynghoriaeth allanol, felly nid yw'r cynnig arbedion o £1k wedi'i gyflawni eleni. Mae'r lwfansau teithio AD wedi gorwario £2k, sy'n golygu nad yw'r arbedion a wnaed ar hyn wedi'u cyflawni eleni. |
| Corfforaethol | 1,236 | 1,236 | 0 | Dilëwyd cyllidebau perthnasol ac mae'r gwariant ar hyn o bryd o fewn y gyllideb, ac ar darged i gyflawni arbedion. Mae'r arbedion a gynigiwyd o ganlyniad i'r adolygiad o'r Polisi Refeniw Isaf wedi eu cyflawni. |
| Adnoddau | 24 | 24 | 0 | |
| **Cyfanswm** | **2,522** | **2,064** | **458** | |

**Costau Asiantaethau Ebrill – Mawrth 2019**

| | Swm £ | Ffynhonnel Cyllid (Cyllideb Graid Penodol / Cyllideb Staff na Ddefnyddir / Grant / Cyfraniad Allanol) | Pwrpas |
|---|---|---|---|
| Economaidd ac Adfywio | 4,213 | Craidd (wedi'i gyllido o danwariant blaenorol) | Cyflawni gofynion arolygiadau hylendid bwyd |
| | 8,206 | Craidd | Cyflawni gofynion arolygiadau hylendid bwyd |
| | **12,419** | | |
| Gwastraff | 8,652 | Cyllideb Craidd Penodol | Swyddi gwag staff - swydd wedi dod i ben |
| | 662 | Cyllideb Craidd Penodol | Darn o waith penodol unwaith ac am byth |
| | 75,055 | Cyllideb Craidd Penodol | Roedd angen tasgau ychwanegol tymor byr yn ystod cyfnod yr haf. Staff ddim ar gael drwy'r Matrics AD |
| | 90,550 | Cyllideb Craidd Penodol/Grant/Cyfraniad Allanol | Roedd angen tasgau ychwanegol tymor byr yn ystod cyfnod yr haf. Staff ddim ar gael drwy'r Matrics AD |
| | 29,374 | Cyllideb Craidd Penodol/Grant/Cyfraniad Allanol | Roedd angen tasgau ychwanegol tymor byr yn ystod cyfnod yr haf. Staff ddim ar gael drwy'r Matrics AD |
| | **204,293** | | |
| Gwasanaethau Plant | 685,079 | Cyllideb Craidd, Cyllideb Staff na Ddefnyddir, Cronfeydd Wrth Gefn a Gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith | Talu am swyddi gwag tra bo'r ail-strwythuro'n digwydd |
| | **685,079** | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 130,093 | Craidd | Llenwi swyddi gwag |
| | 10,075 | Grant | Gweithio ar brosiect penodol |
| | **140,170** | | |
| Trawsnewid | 24,606 | Cyllideb Staffio | Doedd dim modd llenwi'r swydd wag |
| | **24,606** | | |
| **Cyfanswm** | **1,066,567** | | |

ATODDIAD E

| Crynodeb o'r gwariant ar ymgynghorwyr am bob adran – Ch 1 i Ch 4 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Ch 1 (£)** | **Ch 2 (£)** | **Ch 3 (£)** | **Ch 4 (£)** | **Cyfanswm (£)** |
| Addysg Ganolog | 8,133 | 16,111 | 41,971 | 46,007 | 112,222 |
| Diwylliant | 6,070 | 2,686 | 5,350 | 2,405 | 16,511 |
| Economaidd ac Adfywio | 286,501 | 534,864 | 535,549 | 865,348 | 2,222,262 |
| Eiddo | 640 | 0 | 0 | 0 | 640 |
| Priffyrdd | 20,289 | 6,263 | 24,482 | 156,458 | 207,492 |
| Ysgolion | 0 | 490 | 1,500 | 2,659 | 4,649 |
| Gwastraff | 7,911 | 23,819 | 16,378 | 8,362 | 56,470 |
| Tai | 0 | 14,303 | 0 | 0 | 14,303 |
| CRT | 9,215 | 7,440 | 555 | 8,434 | 25,644 |
| Gwasanaethau Oedolion | 3,400 | 2,450 | 594 | 4,000 | 10,444 |
| Gwasanaethau Plant | 0 | 19,032 | 6,896 | 11,289 | 37,217 |
| Trawsnewid | 2,136 | 18,360 | 7,172 | 24,992 | 52,660 |
| Busnes y Cyngor | 10,711 | 19,129 | 1,026 | 0 | 30,866 |
| Adnoddau | 45,911 | 9,459 | 53,400 | 15,379 | 124,149 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm** | **400,917** | **674,406** | **694,872** | **1,145,333** | **2,915,528** |

Rhoddir dadansoddiad manylach o hyn isod.

<u>**Dadansoddiad o Gostau Ymgynghori Chwarter 4 2018/19**</u>

| | | Categori – Rheswm Dros Benodi | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Swm Ch4 (£)** | **Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer** | **Maint y Gwaith** | **Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am byth** | **Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb Staffio sydd heb ei ddefnyddio / Grant / Cyfraniad Allanol / Cronfa with gefn** | **Disgrifiad o'r gwaith a wnaed** |
| **Cyfanswm Ch1 – Ebrill i Mehefin** | **400,917** | | | | | |
| **Cyfanswm Ch2 Gorffennaf i Medi** | **674,406** | | | | | |
| **Cyfanswm Ch3 – Hydref i Rhagfyr** | **694,872** | | | | | |
| Addysg Ganolog | 6,450 | ✓ | □ | | Grant | Cyfeiriad strategol ar gyfer grantiau cyllid hyblyg LIC |
| | 907 | ✓ | □ | | Grant | Gweithdy a theithio ar gyfer cynhadledd |
| | 4,833 | ✓ | □ | | Craidd | Cynnal a chadw a chefnogi blynyddol |
| | 15,225 | ✓ | □ | ✓ | Craidd | Ffioedd proffesiynol fel Swyddog Addysg |
| | 5,950 | □ | □ | ✓ | Craidd | Ymchwilio a chynhyrchu adroddiadau 'Addysg Môn' |
| | 281 | ✓ | □ | | Craidd | Costau presenoldeb wrth gwrdd â fforwm Undebau Môn 2018/19 |
| | 1,726 | □ | □ | ✓ | Craidd | Taliadau proffesiynol cau ysgol Bodorgan |
| | 4,335 | ✓ | □ | ✓ | Buddsoddi i arbed | Hysbysu rheoli'r prosiect gweithredu'r cyfeiriad glanhau/ysgol/trafnidiaeth |
| | 6,166 | □ | □ | ✓ | Grant | Asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae |
| | 135 | ✓ | □ | | Grant | Dylunio a chreu gwefannau |
| **Cyfanswm Addysg Canolog** | **46,007** | | | | | |
| | | | | | | |

| | | Categori – Rheswm Dros Benodi | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Swm Ch4 (£)** | **Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer** | **Maint y Gwaith** | **Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am byth** | **Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb Staffio sydd heb ei ddefnyddio / Grant / Cyfraniad Allanol / Cronfa with gefn** | **Disgrifiad o'r gwaith a wnaed** |
| Dywilliant | 470 | ✓ | ☐ | ☐ | Craidd | Dosbarthiadau arlunio bywyd |
| | 500 | ✓ | ☐ | ☐ | Craidd | Gweithdy a Ffioedd |
| | 750 | ✓ | ☐ | ☐ | Craidd | Gweithdy a deunyddiau prinitio |
| | 160 | ✓ | ☐ | ☐ | Craidd | Cynorthwyydd Criw Celf |
| | 100 | ✓ | ☐ | ☐ | Buddsoddi i arbed | Datgan ymddiriedaeth a chadarnhad cyfreithiol o weithred ymddiriedolaeth |
| | 175 | ✓ | ☐ | ☐ | Grant | Gweithdy |
| | 250 | ✓ | ☐ | ☐ | Grant | Gweithdy Criw Celf OYM |
| **Cyfanswm Dywilliant** | **2,405** | | | | | |
| Economaidd ac Adfywio | 8,222 | ✓ | ☐ | ☐ | Craidd | Ffi trwydded stem, ffi'r drwydded rheoli data |
| | 13,309 | ✓ | ☐ | ☐ | Cyfraniad Allanol | Ffioedd proffesiynol - prosiect Wylfa newydd |
| | 13,796 | ✓ | ☐ | ☐ | Cyfraniad Allanol | Cefnogaeth strategaeth - Gorchymyn cydsyniad datblygu cefnogaeth tirwedd |
| | 323,379 | ✓ | ☐ | ☐ | Cyfraniad Allanol | Ffioedd proffesiynol - Gorchymyn caniatâd datblygu |
| | 5,967 | ✓ | ☐ | ☐ | Cyfraniad Allanol | Cefnogaeth CSYM QGIS GIS |
| | 14,551 | ✓ | ☐ | ☐ | Cyfraniad Allanol | Gwaith monitro curadurol |
| | 6,950 | ✓ | ☐ | ☐ | Cyfraniad Allanol | Cefnogaeth Priffyrdd CSYM - Gorchymyn caniatâd datblygu |
| | 8,565 | ✓ | ☐ | ☐ | Cyfraniad Allanol | Prosiect Wylfa Newydd SPC a A5025 TCPAS |
| | | | | | | |

| | Swm Ch4 (£) | Categori – Rheswm Dros Benodi | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer | Maint y Gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am byth | Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb Staffio sydd heb ei ddefnyddio / Grant / Cyfraniad Allanol / Cronfa with gefn | Disgrifiad o’r gwaith a wnaed |
| | 1,656 | ✓ | □ | □ | Cyfraniad Allanol | Cefnogaeth ecolegol CSYM cyfarfodydd CRT |
| | 18,093 | ✓ | □ | □ | Cyfraniad Allanol | Partneriaeth Gogledd Ynys Môn |
| | 22,800 | ✓ | □ | □ | Cyfraniad Allanol | Asesu effaith cyflogaeth a sgiliau mewn perthynas â Wylfa Newydd |
| | 60,109 | ✓ | □ | □ | Cyfraniad Allanol | Gorchymyn caniatâd datblygu |
| | 32,797 | ✓ | □ | □ | Cyfraniad Allanol | Cefnogaeth LIR i'r Gorchymyn caniatâd datblygu |
| | 34,692 | ✓ | □ | □ | Cyfraniad Allanol | Astudiaeth Tai Ynys Môn |
| | 4,995 | □ | □ | ✓ | Cyfraniad Allanol | Aelodaeth IPC 2018/19 |
| | 1,055 | □ | □ | ✓ | Cyfraniad Allanol | Dadleoli gofal cymdeithasol |
| | 195 | □ | □ | ✓ | Cyfraniad Allanol | Wylfa Newydd Goleuadau amgylcheddol |
| | 13,129 | □ | □ | ✓ | Cyfraniad Allanol | Ymateb i gwestiynau PINS |
| | 10,587 | □ | □ | ✓ | Cyfraniad Allanol | Asesiad o effaith diogelu |
| | 57,201 | □ | □ | ✓ | Cyfraniad Allanol | Asesiad o'r effaith ar dwristiaeth |
| | 14,926 | □ | □ | ✓ | Cyfraniad Allanol | Darparu ac ymatebion ar adroddiadau ynglyn â datblygiadau ynni mawr |
| | | | | | | |

| | | Categori – Rheswm Dros Benodi | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Swm Ch4 (£)** | **Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer** | **Maint y Gwaith** | **Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am byth** | **Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb Staffio sydd heb ei ddefnyddio / Grant / Cyfraniad Allanol / Cronfa with gefn** | **Disgrifiad o'r gwaith a wnaed** |
| | 2,331 | ✓ | ☐ | ☐ | Cyfraniad Allanol | Ymgynghoriaeth - prosiect cysylltu â'r Grid Cenedlaethol |
| | 21,240 | ✓ | ☐ | ☐ | Cyfraniad Allanol | Ffioedd proffesiynol - prosiect cysylltu Gogledd Cymru |
| | 30,794 | ✓ | ☐ | ☐ | Cyfraniad Allanol | Prosiect cysylltu Gogledd Cymru CSYM |
| | 387 | ✓ | ☐ | ☐ | Cyfraniad Allanol | Gwaith archeolegol Wylfa i Pentir |
| | 15,647 | ☐ | ☐ | ✓ | Cyfraniad Allanol | Cynllun Lle Gogledd Ynys Môn |
| | 9,606 | ☐ | ☐ | ✓ | Cyfraniad Allanol | Astudiaeth ddichonoldeb berth 8 HP |
| | 2,616 | ✓ | ☐ | ☐ | Arian Wrth Gefn | Prosiect cysylltu Gogledd Cymru CSYM |
| | 3,834 | ✓ | ☐ | ☐ | Arian Wrth Gefn | Prosiect cysylltu Gogledd Cymru |
| | 2,850 | ☐ | ☐ | ✓ | Allanol (HLF) | Archeoleg Ynys Cybi |
| | 2,475 | ☐ | ☐ | ✓ | Allanol (HLF) | Partneriaeth Tirwedd Ynys Cybi |
| | 6,250 | ☐ | ☐ | ✓ | Cyfraniad Allanol | Archwiliad ar Ynys Cybi |
| | 4,416 | ☐ | ☐ | ✓ | Craidd | Ymgynghoriaeth TG a rheoli prosiectau |
| | 11,317 | ✓ | ☐ | ☐ | Craidd | Cefnogaeth rheoli datblygu |
| | 300 | ✓ | ☐ | ☐ | Craidd | Gwasanaethau mewn perthynas ag annedd menter wledig yn Nhy'n y Buarth, Dothan |
| | 5,000 | ✓ | ☐ | ☐ | Craidd | MD 2018/19 Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd |
| | | | | | | |

| | Swm Ch4 (£) | Categori – Rheswm Dros Benodi | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer | Maint y Gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am byth | Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb Staffio sydd heb ei ddefnyddio / Grant / Cyfraniad Allanol / Cronfa with gefn | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
| | 15,000 | ✓ | ☐ | ☐ | Craidd | Ffi flynyddol tuag at rannu gwasanaethau a mwynau gwastraff 2018/19 |
| | 6,268 | ☐ | ✓ | ☐ | Craidd | Cefnogaeth rheoli datblygu |
| | 7,618 | ☐ | ✓ | ☐ | Craidd | Cefnogaeth rheoli datblygu |
| | 3,544 | ☐ | ✓ | ☐ | Craidd | Cefnogaeth rheoli datblygu |
| | 195 | ✓ | ☐ | ☐ | Craidd | Archwiliad gosod trydan |
| | 561 | ✓ | ☐ | ☐ | Craidd | Gwasanaethau peirianneg |
| | 342 | ✓ | ☐ | ☐ | Craidd | Horizon, Ffordd Ravenspoint, Bae Trearddur |
| | 1,000 | ☐ | ☐ | ✓ | Grant | Cynghori a chefnogi er mwyn adennill dyledion sydd heb eu talu o dan y Ddeddf Adeiladu ar safle'r Goron Caergybi. |
| | 1,393 | ☐ | ☐ | ✓ | Craidd | Cyflenwi dŵr a phŵer y prif gyflenwad |
| | 30 | ✓ | ☐ | ☐ | Craidd | Taliad isafswm defnydd Experian |
| | 775 | ☐ | ☐ | ✓ | Arian Wrth gefn | Drafftio a chyhoeddi papurau cyfreithiol ar gyfer achos llys |
| | 41,917 | ☐ | ☐ | ✓ | Craidd | Rhaglen buddsoddi cyfalaf 3 blynedd ac asesu |
| | 338 | ☐ | ☐ | ✓ | Grant | Adolygiad achub bywyd |
| | 134 | ☐ | ☐ | ✓ | Craidd | Cymhwyster L2 |
| | 196 | ☐ | ☐ | ✓ | Craidd | Darparu sesiynau pêl-droed allgyrsiol |
| **Cyfanswm Economaidd ac Adfywio** | **865,348** | | | | | |
| Priffyrdd | 1,362 | ☐ | ☐ | ✓ | Craidd | Tâl PCN |
| | 1,586 | ☐ | ☐ | ✓ | Craidd | Cyfraniad ardoll PCN |
| | 3,300 | ☐ | ☐ | ✓ | Craidd | Cynrychiolaeth mewn ymchwiliad cyhoeddus |
| | | | | | | |

| | Swm Ch4 (£) | Categori – Rheswm Dros Benodi | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer** | **Maint y Gwaith** | **Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am byth** | **Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb Staffio sydd heb ei ddefnyddio / Grant / Cyfraniad Allanol / Cronfa with gefn** | **Disgrifiad o'r gwaith a wnaed** |
| | 3,375 | ☐ | ☐ | ✓ | Craidd | Adroddiadau THS data RCI ac adrodd WGA |
| | 1,200 | ☐ | ☐ | ✓ | Craidd | Llwytho canlyniadau arolwg SCRIM ynglyn â meddalwedd Horizon |
| | 950 | ☐ | ☐ | ✓ | Craidd | Adroddiad ar y drefn gwaith |
| | 7,500 | ☐ | ☐ | ✓ | Craidd | Cyfraniad Prosiect Rheoli Asedau CSSW |
| | 1,869 | ☐ | ☐ | ✓ | Craidd | Cynllun amlinellol safle parcio a theithio Dalar Hir |
| | 43,440 | ✓ | ☐ | ☐ | Craidd | Draenu PAR Llanfair PG |
| | 33,955 | ✓ | ☐ | ☐ | Craidd | Dŵr wyneb Porthaethwy |
| | 40,919 | ✓ | ☐ | ☐ | Craidd | Dŵr wyneb y Fali |
| | 17,002 | ✓ | ☐ | ☐ | Craidd | Draenio Nant y Felin |
| **Cyfanswm Priffyrdd** | **156,458** | | | | | |
| Ysgolion | 950 | ✓ | ☐ | ☐ | Craidd | Gwasanaeth therapi chwarae |
| | 1,709 | ✓ | ☐ | ☐ | Craidd | Gwasanaethau cyfryngu |
| **Cyfanswm Ysgolion** | **2,659** | | | | | |
| Gwastraff | 133 | ✓ | ☐ | Gwaith Penodol | Cyllideb Craidd Penodol | 'Duos offtake' yn unig |
| | 211 | ✓ | ☐ | Gwaith Penodol | Cyllideb Craidd Penodol | Ffì Mesurydd a setliad |
| | 300 | ✓ | ☐ | Gwaith Penodol | Cyllideb Craidd Penodol | Monitro nwyon perimedr ym Mhenhesgyn |
| | 3,950 | ✓ | ☐ | Gwaith Penodol | Cyllideb Craidd Penodol | Cefnogaeth technegol ar gyfer nwy tirlenwi |
| | 875 | ✓ | ☐ | Gwaith Penodol | Cyllideb Creidd Penodol | Gwaith adfer |
| | | | | | | |

| | | Categori – Rheswm Dros Benodi | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Swm Ch4 (£)** | **Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer** | **Maint y Gwaith** | **Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am byth** | **Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb Staffio sydd heb ei ddefnyddio / Grant / Cyfraniad Allanol / Cronfa with gefn** | **Disgrifiad o'r gwaith a wnaed** |
| | 600 | ✓ | ☐ | Gwaith Penodol | Cyllideb Craidd Penodol / Grant / Cyfraniad Allanol | Gwaith a wneir yn IVC Penhesgyn |
| | 1,856 | ✓ | ☐ | Gwaith Penodol | Cyllideb Craidd Penodol / Grant / Cyfraniad Allanol | Monitro bioaerosol |
| **Cyfanswm Gwastraff** | **8,362** | | | | | |
| CRT | 600 | ☐ | ☐ | ✓ | Craidd | Ymgynghoriaeth SOR |
| | 7,234 | ☐ | ☐ | ✓ | Craidd | Gweithredu negeseua a rheoli prosiect Orchard Tai |
| | 600 | ☐ | ☐ | ✓ | Craidd | Gwaith penodol ar gyfer prosiect posibl i adeiladu o'r newydd |
| **Cyfanswm CRT** | **8,434** | | | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 4,000 | ☐ | ☐ | ✓ | Craidd | Cynhyrchu llawlyfr gofal Gwasanaethau Oedolion |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **4,000** | | | | | |
| Gwasanaethau Plant | 9,238 | ☐ | ☐ | ✓ | Craidd | Archwilio achosion |
| | 2,051 | ☐ | ☐ | ✓ | Craidd | Ymchwil a datblygu cartrefi grŵp bach |
| **Cyfanswm Gwasanaeth Plant** | **11,289** | | | | | |
| | | | | | | |

| | | Categori – Rheswm Dros Benodi | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Swm Ch4 (£)** | **Parhaus er mwyn darparu sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol ar eu cyfer** | **Maint y Gwaith** | **Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am byth** | **Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb Staffio sydd heb ei ddefnyddio / Grant / Cyfraniad Allanol / Cronfa with gefn** | **Disgrifiad o'r gwaith a wnaed** |
| Trawsnewid | 2,085 | ☐ | ☐ | ✓ | Craidd | MobieIron - diogelwch |
| | 10,200 | ☐ | ☐ | ✓ | Craidd | TG – isadeledd a chefnogaeth datblygu |
| | 4,046 | ☐ | ☐ | ✓ | Craidd | Llafur peirianneg ar gyfer Cysylltu Ynys Môn |
| | 4,587 | ☐ | ☐ | ✓ | Craidd | Darpariaeth gwasanaethau a Chysylltu Ynys Môn |
| | 4,074 | ✓ | ☐ | ☐ | Grant | Asesiadau |
| **Cyfanswm Trawsnewid** | **24,992** | | | | | |
| Adnoddau | 2,093 | ✓ | ☐ | ☐ | Craidd | Gwasanaeth ymgynghori TAW |
| | 1,000 | ☐ | ☐ | ✓ | Craidd | Costau ymgynghoriaeth CIVICA |
| | 1,000 | ☐ | ☐ | ✓ | Arian Wrth Gefn | R21 prawf uwchraddio yn unig |
| | 2,865 | ☐ | ☐ | ✓ | Craidd | Gwasanaethau budd-daliadau a refeniw CIPFA |
| | 8,421 | ☐ | ☐ | ✓ | Arian Wrth Gefn | Costau rheoli prosiect TG |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **15,379** | | | | | |
| **Cyfanswm Ch4 – Ionawr i Mawrth** | **1,145,332** | | | | | |
| **Cyfanswm cronnus - mis Ebrill i mis Mawrth** | **2,915,528** | | | | | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **17 MEHEFIN 2019** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD ALLDRO CYFALAF 2018/19** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH** | **MARC JONES (EST. 2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **GARETH ROBERTS**<br>**01248 752675**<br>**GarethRoberts@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

- Nodi sefyllfa alldro ddrafft y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2018/19 sy'n destun Archwiliad; a
- Chymeradwyo cario £3.065m drosodd i 2019/20 ar gyfer y tanwariant ar y rhaglen oherwydd llithriad. Bydd y cyllid ar gyfer hyn hefyd yn cario drosodd i 2019/20 (Atodiad A – paragraff 4.2).

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d/b

**C - Am ba reswm mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19, sy'n destun Archwiliad;
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

**DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?**

| | Gyda phwy | Sylwadau |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | d/b – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A – Adroddiad Alldro Cyfalaf – 2018/19
Atodiad B – Crynodeb o'r Gwariant Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r llithriad i 2019/20

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Gyfalaf 2018/19, fel yr argymhellwyd gan y Cyngor Sir ar 28 Chwefror 2018;
- Adroddiad Monitro Cyfalaf 2018/19 ar gyfer chwarter cyntaf 2018/19 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 17 Medi 2018;
- Adroddiad Monitro Cyllideb Cyfalaf 2018/19 ar gyfer ail chwarter 2018/19 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 26 Tachwedd 2018;
- Adroddiad Monitro Cyfalaf 2018/19 ar gyfer trydydd chwarter 2018/19 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 18 Chwefror 2019.

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Dyma'r adroddiad ar yr Alldro Cyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 sy'n caniatáu i Aelodau nodi cynnydd o ran Gwariant Cyfalaf a Derbyniadau Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf. Mae'r ffigurau yn yr adroddiad hwn yn amodol ar Archwiliad.

Yn 2018/19, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf o £37.017m ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai a Rhaglen Gyfalaf o £12.417m ar gyfer y CRT. Yn ychwanegol, ym mis Mehefin 2018, caniataodd y Cyngor i Lithriad Cyfalaf o £9.348m gael ei ddwyn ymlaen o 2017/18. Ers gosod y gyllideb, mae cynlluniau eraill wedi cael eu hychwanegu at y rhaglen, y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu hariannu gan grantiau ac yn werth £5.058m gyda'i gilydd, ac fe adolygwyd rhai cyllidebau gan arwain at ostyngiad o £0.959m. Daw hyn â chyfanswm y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2018/19 i £62.881m.

## 2. GWARIANT CYFALAF 2018/19

**2.1** Tabl Crynodeb o'r gwariant hyd at 31 Mawrth 2019:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | (Tan) / Gorwariant £'000 | % y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol Tai | 3,483 | 1,108 | (2,375) | 32 |
| CRT Tai | 16,360 | 9,028 | (7,332) | 55 |
| Dysgu Gydol Oes | 12,226 | 7,233 | (4,993) | 59 |
| Economaidd ac Adfywio | 6,645 | 4,017 | (2,628) | 60 |
| Priffyrdd | 18,645 | 6,055 | (12,590) | 32 |
| Rheoli Gwastraff | 86 | 84 | (2) | 98 |
| Eiddo | 871 | 697 | (174) | 80 |
| Trawsnewid | 535 | 448 | (87) | 84 |
| Cynllunio | 2,275 | 1,839 | (436) | 81 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,755 | 168 | (1,587) | 10 |
| **Cyfanswm** | **62,881** | **30,678** | **(32,204)** | **49** |
| **Cyllidwyd gan:** | | | | |
| Grant Cyfalaf | 34,771 | 18,557 | (16,213) | 53 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,312 | 726 | (586) | 55 |
| Bethyca a Chefnogaeth | 5,064 | 402 | (4,662) | 8 |
| Benthyca Di-gefnogaeth | 5,999 | 4,266 | (1,733) | 71 |
| Cyfraniad Refeniw | 13,691 | 6,357 | (7,334) | 46 |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 661 | - | (661) | - |
| Benthyciad | 374 | 369 | (5) | 99 |
| Tanwariant o 2017/18 | 1,010 | - | (1,010) | - |
| **Cyfanswm Cyllido** | **62,881** | **30,678** | **(32,204)** | **49** |

**2.2** Roedd y Gyllideb ar gyfer y Gronfa Gyffredinol yn £46.521m a dim ond £21.650m o Wariant a gafwyd erbyn 31 Mawrth 2019, a oedd yn cyfateb i 47% o'r gyllideb. Y prif reswm am y tanwariant oedd y tanwariant mawr yn erbyn y chwe prosiect canlynol: Isadeiledd Strategol Caergybi, Priffordd Newydd i Wylfa Newydd, Ysgol Newydd Llangefni, Safle Preswyl i Sipsiwn a Theithwyr, y Porth Ymwelwyr a Gofal Ychwanegol yn Seiriol. Dim ond £0.211m o'i gyllideb o £1.370m a wariodd prosiect Isadeiledd Strategol Caergybi oherwydd y broses ail-dendro, a bydd hwn nawr yn cario drosodd i 2019/20, gyda'r Briffordd Newydd i Wylfa Newydd yn gwario dim o'i gyllideb £12.000m, ac mae'r holl waith ar y cynllun hwn nawr wedi'i ohirio. Dim ond £0.421m o'i gyllideb o £5.233m a wariwyd ar Ysgol Newydd Llangefni, ac mae'r tanwariant o ganlyniad i oedi gyda'r rhaglen er mwyn ailadrodd y broses ymgynghori. Dim ond £0.053m a wariwyd o'r gwariant o £1.858m a gynlluniwyd ar y prosiect Safle Preswyl i Sipsiwn a Theithwyr yn sgil y gwaith o baratoi cynlluniau manwl ac adroddiadau cysylltiedig er mwyn sicrhau Caniatâd Cynllunio. Gwariwyd dim ond £0.092m ar y prosiect Porth Ymwelwyr yn erbyn cyllideb o £1.398m oherwydd amseriad cymeradwyo'r grant ac ni wnaeth y prosiect Gofal Ychwanegol yn Seiriol wario dim o'i gyllideb £1.000m, ac mae'n debygol o fynd yn ei flaen yn y dyfodol trwy ffynhonnell gyllid wahanol. Mae rhestr lawn o wariant y cynlluniau cyfalaf yn erbyn y gyllideb i'w weld yn Atodiad B yr adroddiad hwn.

**2.3** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai wedi gwario 55% o'i gyllideb gyfan. Y prif reswm pam na chafodd y gyllideb gyfan ei gwario oedd oherwydd tanwariant o ran Prynu Eiddo Presennol a Datblygu Eiddo Newydd, lle gwariwyd dim ond £1.525m o'i gyllideb o £7.964m (19%), oherwydd yr oedi wrth ddechrau ein prosiectau adeiladu tai newydd. Fe wnaeth y prosiect Gwella Effeithlonrwydd Ynni wario 1.6% yn unig o'i gyllideb (£0.016m yn erbyn cyllideb o £1.000m), gyda Gwaith Amgylcheddol yn gwario dim o'i gyllideb o £0.500m. Bydd y cynlluniau hyn nawr yn cael eu cwblhau yn 2019/20.

**2.4** Mae'r rhaglen o welliannau i fân-ddaliadau, a gyllidir o'r derbyniadau cyfalaf sydd wedi'u neilltuo o werthu mân-ddaliadau ac incwm rhent, wedi bod yn rhedeg am sawl blwyddyn. Dygwyd diffyg o £0.078m ymlaen o 2017/18, ac roedd y derbyniadau cyfalaf hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol yn dod i gyfanswm o £0.285m, gyda gwariant o £0.224m erbyn 31 Mawrth 2019. O ganlyniad, mae yna nawr ddiffyg o £0.078m. Fe wnaethom hefyd dderbyn cyfraniad gan glient o £0.012m ar gyfer un o'r darnau gwaith, sy'n golygu bod y rhaglen mân-ddaliadau nawr wedi'i chwblhau gyda chyllideb gytbwys.

**2.5** Fel y gwelir o Dabl 2.1 (uchod), mae gwahaniaeth sylweddol yn y cyllid ar gyfer Grantiau Cyfalaf, Benthyca â Chefnogaeth, Benthyca Di-gefnogaeth a Chyfraniadau Refeniw. Sonnir am y prif reswm dros y tanwariant mewn grantiau ym mharagraff 2.2, lle mae prosiectau Grantiau Cyfalaf mawr yn Isadeiledd Strategol Caergybi, Priffordd Newydd i Wylfa Newydd, Ysgol Newydd Llangefni a'r Porth Ymwelwyr wedi tanwario'n sylweddol. Bydd Isadeiledd Strategol Caergybi, Ysgol Newydd Llangefni a'r Porth Ymwelwyr i gyd yn llithro i 2019/20 ynghyd â'r Arian Grant. Y prif reswm am y gwahaniaeth yn y Benthyca Di-gefnogaeth yw'r tanwariant ar raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Dyma'r rheswm hefyd am y gwahaniaeth mewn Benthyca â Chefnogaeth, ynghyd â'r tanwariant mewn perthynas â chynllun Gofal Ychwanegol Seiriol a'r tanwariant ar y Safleoedd Preswyl i Sipsiwn a Theithwyr, a oedd yn cael eu cyllido'n rhannol o leiaf trwy Fenthyca â Chefnogaeth. Fel y sonnir ym mharagraffau 3.1.14 a 3.1.15, derbyniodd yr Awdurdod gyllid grant ychwanegol yn lle cyllid lleol yn 2018/19, a dyma'r rheswm pam na ddefnyddiwyd unrhyw gronfeydd wrth gefn i gyllido rhaglen gyfalaf 2018/19. Yn olaf, gellir priodoli'r gwahaniaeth mewn Cyfraniad Refeniw i'r tanwariant yn y CRT, a gyllidir yn bennaf trwy gyfraniadau refeniw.

## 3. CYLLIDO

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Mae yna nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2018/19. Mae yna rai cynlluniau blynyddol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, megis y Grant Cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd a'r Grant Galluogi. Cwblhawyd rhai cynlluniau yn ystod y flwyddyn hefyd a oedd wedi derbyn cyllid grant yn y blynyddoedd cynt, megis Ffordd Gyswllt Llangefni. Mae rhai cynlluniau dal yn mynd rhagddynt a byddant yn parhau yn 2019/20, megis Ysgolion yr 21ain Ganrif a Neuadd y Farchnad. Dyfarnwyd cynlluniau Grantiau Cyfalaf newydd hefyd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y Rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio (TRIP) a Chronfa Drafnidiaeth Leol Isadeiledd Porthladd Caergybi.

**3.1.2** **Neuadd y Farchnad, Caergybi –** Roedd y contractwr wedi disgwyl bod oddi ar y safle cyn ddiwedd Mawrth ond oherwydd nifer o faterion yn gysylltiedig â chludo nwyddau arbenigol i'r safle, cytunwyd i ymestyn yr amser hyd ddiwedd Mai. Bwriedir cwblhau'r gwaith ffitio terfynol a gosod y lifft ym mis Mehefin, a bydd y gwasanaeth llyfrgell yn dechrau ei ddefnyddio yn yr haf.

**3.1.3** **Ffordd Gyswllt Llangefni –** Fe wnaeth gwaith ar Ran 3 barhau yn ystod Chwarter 4 a chwblhawyd y gwaith wynebu. Cwblhawyd peth o'r gwaith tirlunio ym mis Ionawr yn ogystal â llinellau ac arwyddion. Cafodd y ffordd ei chwblhau a'i hagor yn swyddogol gan y Gweinidog ar gyfer yr Economi a Thrafnidiaeth (Ken Skates AC) ar 7 Chwefror 2019.

**3.1.4** **Isadeiledd Strategol Llangefni** – Mae'r cynllun yn cynnwys adeiladu 5 (pump) o unedau diwydiannol newydd ar hen safle Hyfforddiant Môn ac estyniad i'r Ganolfan Fusnes i'w gosod i'r sector preifat. Mae'r unedau diwydiannol newydd nawr wedi'u cwblhau, ac mae pob un o'r pump wedi eu gosod. Mae'r gwaith adeiladu yn y Ganolfan Fusnes wedi'i gwblhau, fodd bynnag oherwydd problemau gyda'r contractwr bydd y gwaith ffitio mewnol yn cael ei gwblhau'n fuan yn 2019/20.

**3.1.5** **Cronfa Drafnidiaeth Leol Isadeiledd Porthladd Caergybi** – Mae cyllid wedi'i sicrhau sy'n dod i gyfanswm o £0.604m ar gyfer gwaith dylunio a pharatoi yn Hyb Porth Caergybi, ac ar gyfer gwaith paratoi i ddatblygu isadeiledd newydd ym Mhorthladd Caergybi. Cafodd y gwaith ar Isadeiledd Porthladd Caergybi ei gwblhau ar gost o £596k a gyllidwyd 50% trwy Lywodraeth Cymru a 50% trwy Stena. Mae'r gwaith dylunio a pharatoi tendr yn parhau ac fe ddefnyddiwyd grant o £287k yn 2018/19 a bydd cyllid cyfatebol gan Stena yn cario drosodd i 2019/20.

**3.1.6** **Ysgolion yr 21ain Ganrif** – Mae'r cyllid ar gyfer Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd y Llan wedi'i dynnu i lawr yn llawn fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae'r gwaith wedi'i gwblhau ar adeilad newydd sbon Ysgol Santes Dwynwen ac fe agorodd yr ysgol ym mis Ebrill ar ôl gwyliau'r Pasg. Cafodd y grant ei dynnu i lawr yn llawn yn Chwarter 2 a bydd y Cyngor yn cyllido unrhyw wariant ychwanegol fel rhan o'i gyllid cyfatebol. Mae'r gwaith yn Ysgol Brynsiencyn ac Ysgol Parc Y Bont wedi'i gwblhau. Roedd y rhaglen ar gyfer Band A i fod i gael ei chwblhau yn 2020, fodd bynnag, bydd prosiect Ysgol Newydd Llangefni, sydd i fod wedi'i gwblhau erbyn 2022, yn aros yn rhan o raglen Band A. Mae penderfyniad os ddylid ymgymryd â'r cynlluniau yn dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar foderneiddio'r ddarpariaeth ysgolion yn ardal Llangefni.

**3.1.7** **Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd** – Bydd y cynllun hwn yn golygu gwneud gwaith cyfalaf ar ffordd yr A5025 o Borthaethwy i Amlwch. Mae gwaith wedi dechrau ar y cynllun ac roedd y gwariant am y flwyddyn yn £0.200m yn erbyn cyllideb o £0.220m.

**3.1.8 Lliniaru Llifogydd ym Miwmares** – Mae LlC nawr wedi derbyn yr Adroddiad Asesiad Tendr ac wedi cymeradwyo cost lawn y cynllun, oddeutu £1.700m, ac mae'r contract ar gyfer y gwaith yma wedi'i ddyfarnu. Fodd bynnag, oherwydd bod y prif gontractwr wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr, bu oedi gyda chynnydd y gwaith. Yn dilyn trafodaethau, mae contractwr newydd wedi'i benodi erbyn hyn ac mae gwaith wedi ailgychwyn ar y safle. Disgwylir bellach y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn galendr, bydd yna rai costau ychwanegol ac mae'r rhain yn cael eu cyfrifo ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r sefyllfa.

**3.1.9 Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth –** Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid ar gyfer cynllun Lliniaru Llifogydd yn Nant y Felin, Pentraeth o fewn eu rhaglen ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20. Fodd bynnag, er mwyn cael cynnig ffurfiol mae'n rhaid i'r Awdurdod wneud cais unwaith mae'r holl ganiatadau a phrisiau tendr mewn lle i gychwyn y gwaith. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y gwaith yma yn mynd allan i dendr ym mis Mehefin/Gorffennaf ac y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau ym mis Hydref.

**3.1.10 Isadeiledd Strategol Caergybi** – Mae'r cynllun hwn ar gyfer adeiladu 10 (deg) o unedau diwydiannol newydd ym Mhenrhos, Caergybi. Fodd bynnag, oherwydd oedi gyda'r broses gaffael, ni fydd gwaith yn dechrau ar y safle tan 2019/20 a chaiff ei gwblhau yn ystod 2020. Cafwyd cyllid o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a sefydlwyd Menter ar y Cyd â Llywodraeth Cymru a fydd yn darparu'r cyllid cyfatebol ar gyfer y cynllun. Bydd y contractwyr wedi eu penodi erbyn diwedd Mai neu ddechrau Mehefin, i fod.

**3.1.11 Porth Twristiaeth** – Mae prosiect CDT (Cyrchfan Denu Twristiaeth) Porth Ymwelwyr Caergybi yn becyn o brosiectau sy'n digwydd dros sawl blwyddyn, a chânt eu cyllido'n bennaf trwy Gronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewrop, Llywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae'n cynnwys gosod Deunyddiau Brandio Hyrwyddol yn y Porthladd a'r Orsaf sy'n dangos cyrchfannau ymwelwyr eiconig, a chyfoethogi profiad yr ymwelydd yn Nghaer Rufeinig Sant Cybi, Parc y Morglawdd a Mynydd Twr. Mae'r gwaith o ddylunio'r gosodiad yn y porthladd wedi cychwyn yn ystod chwarter 4 a chaiff ei weithredu yn 2019/20.

**3.1.12 Priffordd Newydd i Wylfa Newydd** – Mae'r holl waith wedi'i atal ar y prosiect hwn ar hyn o bryd.

**3.1.13** Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer y **Rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio (TRIP).** Pwrpas y cyllid yw dod â 108 o eiddo gwag yn ôl i ddefnydd trwy bedwar cynllun, sef Cymorth i Brynwyr Tro Cyntaf, Cymorth i Landlordiaid Tai Gwag, Ymyrraeth Uniongyrchol Tai Gwag a Byw mewn Canol Trefi. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu cyflawni gan Gyngor Sir Ynys Môn, fel yr awdurdod arweiniol, a Chyngor Gwynedd fel ei bartner cyflawni ar y cyd. Bydd cyfanswm y cyllid yn £3.250m, gyda chyfran Ynys Môn yn £1.800m dros dair mlynedd. Yn 2018/19, mae'r gyllideb yn £0.295m. Rhoddwyd 18 o grantiau Prynwyr Tro Cyntaf oedd yn dod i gyfanswm o £295k, ac fe brynwyd eiddo gan yr Awdurdod. Gwariwyd cyfanswm o £733k ar draws Ynys Môn a Gwynedd.

**3.1.14 Grant Priffyrdd Ychwanegol** – Yn rhan olaf 2018/19, cafodd yr Awdurdod £0.603m o gyllid grant ychwanegol ar gyfer gwneud gwelliannau i ffyrdd yr ynys. Cafodd y cyllid grant ei ddefnyddio i gyllido cynlluniau cyfalaf a bennwyd yn lleol yn 2018/19, yn lle cyllid o adnoddau yr Awdurdod ei hun. Bydd y cyllid mae'r Awdurdod wedi'i arbed trwy'r grant hwn nawr yn cael ei ddefnyddio i gyllido'r gwaith ychwanegol ar adnewyddu priffyrdd yn 2019/20.

**3.1.15 Grant Ychwanegol Cynnal a Chadw Ysgolion** – Yn rhan olaf 2018/19, cafodd yr Awdurdod £0.970m o gyllid grant ychwanegol ar gyfer gwaith Cyfalaf cynnal a chadw mewn ysgolion. Cafodd y cyllid grant ei ddefnyddio i gyllido cynlluniau cyfalaf a bennwyd yn lleol yn 2018/19, yn lle cyllid o adnoddau yr Awdurdod ei hun. Bydd y cyllid mae'r Awdurdod wedi'i arbed trwy'r grant hwn nawr yn cael ei ddefnyddio i gyllido gwaith Cyfalaf cynnal a chadw ysgolion yn 2019/20.

## 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Roedd y Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 fel a ganlyn:-

| | Cyllideb 2018/19 £'000 | Derbyniwyd hyd at 31-Mawrth-2019 £'000 | Amrywiant (O dan) / Uwchben y Gyllideb £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 264 | 285 | 21 |
| Cyffredinol | 1,431 | 961 | (470) |
| Diwydiannol | 105 | 20 | (85) |
| Ysgolion | 1,246 | 326 | (920) |
| **Cyfanswm** | **3,046** | **1,592** | **(1,454)** |

**3.2.2** Roedd y Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy ar gyfer 2018/19 yn £1.592m yn erbyn cyllideb o £3.046m, sy'n 52% o'r gyllideb. Y prif reswm am yr amrywiad yw na dderbyniwyd yr holl Dderbyniadau Cyfalaf yn ystod y flwyddyn, er enghraifft, ased yn Llangefni gwerth £0.500m a tair ysgol sy'n dod i gyfanswm o £1.047m. Disgwylir y bydd yr holl asedau hyn yn cael eu gwerthu yn ystod 2019/20. Fel y gellir gweld yn Atodiad B, bydd rhai cynlluniau Cyfalaf yn cael eu cwblhau yn y flwyddyn ariannol nesaf, a bydd y cyllid ar gyfer y cynlluniau hyn hefyd yn cael ei gario drosodd i 2019/20. Bydd y llithriad yn y derbyniadau Cyfalaf hyn yn cyllido'n rhannol y llithriad yn y rhaglen gyfalaf. Bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf sydd dros ben, ar ôl cyllido unrhyw orwariant a'r gwaith pellach, yn cael eu trosglwyddo i Dderbyniadau Cyfalaf y Gronfa Gyffredinol.

**3.2.3** Ar y cyfan, roedd hi'n flwyddyn ariannol gweddol ddistaw mewn perthynas â Derbyniadau Cyfalaf, gan dderbyn dim ond £1.592m, a oedd yn cynnwys gwerthu mân-ddaliad (£0.264m), generadur (£0.140m), tri o safleoedd cyn ysgolion (£0.326m), y Ganolfan Fenter (£0.150m) a gwerthu gweithdai (£0.140m).

# 4. <u>Y BLYNYDDOEDD I DDOD</u>

**4.1** Cafodd yr Adroddiad ar Gyllideb Gyfalaf 2019/20 ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 27 Chwefror 2019. Mae'r rhaglen gyfalaf gyfan ar gyfer 2019/20 (yn cynnwys Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Cyfrif Refeniw Tai) yn dod i gyfanswm o £30.392m. Gellir torri hyn i lawr i'r: Ymrwymiad Cyfredol o Raglen Gyfalaf 2018/19 (£6.429m), Buddsoddi mewn Asedau Cyfredol (£2.539m), Ail-wynebu Priffyrdd (£1.359m), Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif (£4.809m), cynlluniau cyfalaf newydd ar gyfer 2019/20 (£2.146m) a'r CRT (£13.110m). Y cyllid arfaethedig fydd £13.579m (45%) o ffynonellau cyllid allanol megis Grantiau Cyfalaf a £16.813m (55%) o ffynonellau mewnol. Mae hyn yn cynnwys £3.666m o fenthyca â chefnogaeth, £1.402m o fenthyca di-gefnogaeth, £1.098m o gyllid a ddygwyd ymlaen, £1.197m o gyllid sydd wedi'i amnewid, gyda'r £9.450m yn weddill yn cael ei gyllido o gronfeydd wrth gefn y Cyngor ei hun.

**4.2** Fel y gellir gweld yn Atodiad B, bwriedir y bydd £3.065m yn cael ei gario drosodd i 2019/20 fel llithriad ar gyfer cynlluniau cyfalaf na chawsant eu cwblhau erbyn diwedd Mawrth 2019. Gyda'i gilydd, mae cynlluniau yn y Gronfa Gyffredinol sy'n werth cyfanswm o £2.388m a chynlluniau CRT gwerth £0.677m. Bydd y cyllid ar gyfer y cynlluniau hyn hefyd yn llithro i 2019/20 ac, ar gyfer y Gronfa Gyffredinol, mae hyn yn cynnwys £0.477m o Dderbyniadau Cyfalaf, £1.614m o Grantiau Cyfalaf, Benthyca â Chefnogaeth gwerth £0.111m a £0.186m o'r Cronfeydd wrth Gefn, gyda'r elfen CRT yn dod o'r Cyfraniad Refeniw o'r CRT. Fel y gwelir yn Nhabl 2.1 a pharagraff 2.5 yr adroddiad hwn, mae digon o danwariant yn erbyn y ffrydiau cyllido hyn y gellir ei gario drosodd i 2019/20.

**4.3** Os bydd y llithriad yn Atodiad B yr adroddiad hwn yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor yma, bydd cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2019/20 yn £33.457m, lle bydd £19.670m o hwnnw yn dod o'r Gronfa Gyffredinol a £13.787m o'r CRT. Gellir ychwanegu cynlluniau eraill i'r Rhaglen Gyfalaf yn ystod 2019/20 os daw cyllid grant ychwanegol ar gael.

## 5. YR EFFAITH AR Y STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS

**5.1** Roedd y Gofyniad Cyllido Cyfalaf ar 31 Mawrth 2019 yn £138.662m, sef angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthyca er mwyn gallu cyllido ei Raglen Gyfalaf. Mae benthyca allanol ar hyn o bryd yn sefyll ar £132.461m, sy'n golygu i bob pwrpas fod angen i'r Awdurdod fenthyca £6.201m, naill ai'n fewnol neu'n allanol, i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol. Petaem yn benthyca'n allanol, bydd yr Awdurdod yn parhau i fod o fewn ei derfynau benthyca awdurdodedig yn unol â Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2018/19 (Atodiad 11 y datganiad hwnnw).

## 6. CASGLIAD

**6.1** Er bod lefel y tanwariant yn sylweddol (51% o'r cyllid sydd ar gael), mae'r rhan fwyaf ohono'n ymwneud â gwariant ar brosiectau mawr, lle nad yw amseriad y gwaith wedi dilyn yr amserlen a fwriadwyd (Ysgolion yr 21ain Ganrif, safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr, prosiectau isadeiledd a Phrynu Eiddo Presennol a Datblygu Eiddo Newydd ar gyfer y CRT) neu gynlluniau lle nad oes gan y Cyngor reolaeth ar raglennu'r gwaith (gwelliannau i'r ffordd at Wylfa). Yn achos prosiectau cyfalaf mawr, mae'n arferol i gael oedi annisgwyl ac nid yw'n anarferol gweld gwariant ar brosiectau o'r fath yn llithro. Ym mhob achos, llwyddwyd i sicrhau'r cyllid ar gyfer y prosiectau hyn a bydd yn cael ei gario drosodd i 2019/20, sy'n golygu na fydd y Cyngor yn colli unrhyw adnoddau.

**ATODIAD B**

# Crynodeb o'r Gwariant Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r llithriad i 2019/20

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£) | % y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario | % Amrywiad | Tanwariant i'w gario ymlaen i 2019/20 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Dai Gyffredinol** | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 1,006,790 | 482,552 | (524,238) | 48 | 52 | 150,000 | Oherwydd dyraniad newydd a roddwyd yn 2019/20, dim ond £0.150m o lithriad sydd ei angen, a chaiff hwnnw ei gyllido trwy dderbyniadau cyfalaf. Mae'r tanwariant o ganlyniad i lai na'r disgwyl o addasiadau sector preifat. Ni wnaeth nifer sylweddol o ymholiadau cychwynnol fynd ymlaen i dderbyn grant. |
| Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 1,858,000 | 52,873 | (1,805,127) | 3 | 97 | | Oherwydd dyraniad newydd a roddwyd yn 2019/20, nid oes angen unrhyw lithriad. Gwariant yn gyfyngedig yn sgil paratoi cynlluniau manwl ac adroddiadau cysylltiedig ar gyfer sicrhau Caniatâd Cynllunio. Gwaith wedi'i drefnu i gychwyn ar Safle Aros Dros Dro yn ystod |
| Cynllun Prynu Gorfodol | 199,100 | 176,364 | (22,736) | 89 | 11 | 22,736 | Bydd y llithriad yn cael ei gyllido trwy Dderbyniadau Cyfalaf. |
| Grant Galluogi | 93,200 | 100,997 | 7,797 | 108 | (8) | | |
| Tai fforddiadwy | 30,650 | 0 | (30,650) | 0 | 100 | 30,650 | Bydd y llithriad yn cael ei gyllido trwy Dderbyniadau Cyfalaf. |
| Grant TRIP - prynwr tro cynta | 295,000 | 295,000 | 0 | 100 | 0 | | |
| **Cyfanswm** | **3,482,740** | **1,107,786** | **(2,374,954)** | **32** | **68** | **203,386** | |
| **CRT Tai** | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 500,000 | 411,218 | (88,782) | 82 | 18 | | Tanwariant yn bennaf oherwydd y bwriad i ohirio gwaith i flwyddyn ariannol 2019/20. |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 3,983,500 | 4,838,159 | 854,659 | 121 | (21) | | Y gorwariant i'w briodoli'n bennaf i waith ychwanegol, er enghraifft gosod systemau atal tân yn ôl-weithredol ym Mhlas Tudur a Queens Park Court. Hefyd, roedd y cynnydd a'r gwariant o ganlyniad ar y safle yn fwy na'r disgwyliadau cychwynnol. |
| Gwella Perfformiad Ynni | 1,000,000 | 16,048 | (983,952) | 2 | 98 | | Bydd gwaith perfformiad ynni yn cychwyn ar y safle yn Ch1 2019/20. Mae'r gymeradwyaeth i'r Cynllun PV Solar dal yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Gweithredwr Rhwydwaith (Scottish Power). Yn ogystal, mae mesurau perfformiad ynni wedi eu hymgorffori o fewn gwaith cynnal a chadw sydd wedi'i gynllunio. |
| Gwaith Amgylcheddol | 500,000 | 0 | (500,000) | 0 | 100 | | Mae gwariant cyfalaf mewn perthynas â dymchwel garejys wedi llithro a chaiff y gwaith ei wneud yn 2019/20. |
| Prynu Eiddo Presennol a Datblygu Eiddo Newydd | 7,964,780 | 1,524,910 | (6,439,870) | 19 | 81 | | Roedd y gyllideb yn caniatáu prynu 15 o gyn eiddo Hawl i Brynu, ac i ddatblygu 25 o eiddo newydd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, daeth y gwariant i gyfanswm o £1.525m. Bydd gweithwyr ar y safle i ddatblygu 25 o eiddo newydd sbon ar 31 Mawrth; sef 6 tŷ yng Nghaergeiliog, 3 byngalo ym Moelfre, gyda gweddill y tai ar dri safle yng Nghaergybi. Oherwydd yr oedi gyda chychwyn ein prosiectau tai newydd, roedd tanwariant o £6.4m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. |
| Ailfodelu Llawr Y Dref | 500,000 | 756,164 | 256,164 | 151 | (51) | | Mae'r gorwariant hwn oherwydd bod gwaith ychwanegol wedi'i adnabod ar y safle ar ôl cychwyn y gwaith. Roedd y gwaith hwn yn golygu ymgorffori'r cyn dŷ warden yn y cynllun. |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 374,038 | 24,038 | 107 | (7) | | Gwasanaeth sy'n cael ei arwain gan y galw, yn ymwneud â darparu addasiadau megis lifft grisiau a chawodydd mynediad gwastad fel y gall trigolion barhau i fyw gartref. |
| Risg Tân | 200,000 | 130,187 | (69,813) | 65 | 35 | | |
| SATC | 1,000,000 | 737,148 | (262,852) | 74 | 26 | | Y gwariant yn is na'r disgwyl oherwydd bod contractwr a benodwyd i wneud gwaith uwchraddio i geginau, ystafelloedd ymolchi ac ail-weirio wedi mynd i'r wal. Byddwn yn ail-dendro y gwaith yn ystod 2019/20. |
| Gwaith Adferiad - CRT | 362,000 | 240,579 | (121,421) | 66 | 34 | 677,000 | Dyma'r tanwariant net y bydd angen ei lithro i 2019/20 ar gyfer yr holl raglen CRT, a gyllidir trwy gyfraniadau Refeniw. Mae dyraniad newydd o £13.110m ar gyfer y CRT yn 2019/20, ac mae gwariant o £13.787m wedi'i gynllunio yn unol â'r cynllun busnes 30 mlynedd ar gyfer 2019/20, felly, dim ond £0.677m o lithriad sydd ei angen. |
| **Cyfanswm** | **16,360,280** | **9,028,451** | **(7,331,829)** | **55** | **45** | **677,000** | |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£) | % y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario | % Amrywiad | Tanwariant i'w gario ymlaen i 2019/20 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol | 397,330 | 305,609 | (91,721) | 77 | 23 | | Oherwydd dyraniad newydd a roddwyd yn 2019/20, nid oes angen unrhyw lithriad. |
| Adnewyddu Adeiliadau Addysg | 543,950 | 688,144 | 144,194 | 127 | (27) | | Cafodd y gorwariant ei gyllido trwy grant ychwanegol. |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Cybi | 132,000 | 131,182 | (818) | 99 | 1 | | |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Rhyd Y Llan | 178,000 | 169,784 | (8,216) | 95 | 5 | | |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Parc y Bont | 7,000 | 12,093 | 5,093 | 173 | (73) | | |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Santes Dwynwen | 5,082,748 | 5,184,505 | 101,757 | 102 | (2) | | |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Brynsiencyn | 203,000 | 258,443 | 55,443 | 127 | (27) | | |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Esgeifiog | 50,000 | 0 | (50,000) | 0 | 100 | | Oherwydd ailbroffilio’r cynllun a dyraniad newydd a roddwyd yn 2019/20, nid oes angen unrhyw lithriad. Mae’r tanwariant o ganlyniad i oedi i’r rhaglen yn sgil ailadrodd y broses ymgynghori. |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Estyniad Ysgol Y Graig | 350,000 | 10,813 | (339,187) | 3 | 97 | | Oherwydd ailbroffilio’r cynllun a dyraniad newydd a roddwyd yn 2019/20, nid oes angen unrhyw lithriad. Mae’r tanwariant o ganlyniad i oedi i’r rhaglen yn sgil ailadrodd y broses ymgynghori. |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Bro Seiriol | 0 | 1,525 | 1,525 | 0 | 100 | | |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Adeilad Newydd Llangefni | 5,233,000 | 421,172 | (4,811,828) | 8 | 92 | | Oherwydd ailbroffilio’r cynllun a dyraniad newydd a roddwyd yn 2019/20, nid oes angen unrhyw lithriad. Mae’r tanwariant o ganlyniad i oedi i’r rhaglen yn sgil ailadrodd y broses ymgynghori. |
| Grant Cyfalaf Dechra'n Deg | 31,767 | 32,446 | 679 | 102 | (2) | | |
| Hylendid merchaid mewn ysgolion | 17,016 | 17,145 | 129 | 101 | (1) | | |
| **Cyfanswm** | **12,225,811** | **7,232,863** | **(4,992,948)** | **59** | **41** | **0** | |
| | | | | | | | |
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | |
| Porth Twristiaeth | 1,397,980 | 92,574 | (1,305,406) | 7 | 93 | 280,000 | Oherwydd ailbroffilio'r cynllun a dyraniad newydd a roddwyd yn 2019/20, dim ond £280k o lithriad sydd ei angen, a bydd yn cael ei gyllido trwy grantiau. Y rheswm am y tanwariant yn 2018/19 oedd oherwydd amseriad derbyn cymeradwyaeth grant. |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 1,370,000 | 211,018 | (1,158,982) | 15 | 85 | 299,000 | Oherwydd ailbroffilio'r cynllun a dyraniad newydd a roddwyd yn 2019/20, dim ond £299k o lithriad sydd ei angen, a bydd yn cael ei gyllido trwy grantiau. Y rheswm am y tanwariant yn 2018/19 oedd oherwydd y broses ail-dendro. |
| Isadeiledd Strategol Llangefni | 3,357,000 | 3,250,214 | (106,786) | 97 | 3 | 106,000 | Gwnaed cynnydd rhagorol yn 2018/19. Bydd y cynllun yn cael ei gwblhau yn fuan yn 2019/20. Mae angen llithriad o £106k sy'n cael ei gyllido trwy Grantiau. |
| Buddsoddi i Arbed - System Gynllunio | 69,350 | 12,224 | (57,126) | 18 | 82 | 57,000 | Bydd y cynllun yn cael ei gwblhau yn fuan yn 2019/20, felly, mae angen y llithriad llawn o £57k a fydd yn cael ei gyllido o'r cronfeydd wrth g |
| Parc Morglwadd | 41,000 | 41,718 | 718 | 102 | (2) | | |
| Goleuadau LED Salix Canolfan Hamdden - Cadw | 5,000 | 5,194 | 194 | 104 | (4) | | |
| Cwrs Golff Llangefni - Peiriant torri gwair | 4,500 | 4,500 | 0 | 100 | 0 | | |
| Cae Pel Droed 3G Llangefni | 200,000 | 200,913 | 913 | 100 | (0) | | |
| Offer Ffitrwydd Caergybi | 200,000 | 198,966 | (1,034) | 99 | 1 | | |
| **Cyfanswm** | **6,644,830** | **4,017,321** | **(2,627,509)** | **60** | **40** | **742,000** | |
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | | | | | |
| Meysydd Parcio | 12,920 | 0 | (12,920) | 0 | 100 | | |
| Cerbydau | 150,000 | 118,045 | (31,955) | 79 | 21 | 31,955 | Llithriad yn cael ei gyllido trwy dderbyniadau Cyfalaf. |
| Menter Benthyca Darbodus y Sir | 1,532,800 | 1,529,626 | (3,174) | 100 | 0 | | |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Miwmares (LIC) | 954,290 | 414,764 | (539,526) | 43 | 57 | 539,526 | Mae'r tanwariant oherwydd bod y prif gontractwr wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr. Bydd y cynllun yn cario ymlaen yn 2019/20 gyda'r llithriad yn cael ei gyllido 85% grantiau allanol a 15% Benthyca â Chefnogaeth. |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth (LIC) | 200,000 | 0 | (200,000) | 0 | 100 | 200,000 | Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid ar gyfer cynllun Lliniaru Llifogydd Nant y Felin, Pentraeth o fewn eu rhaglen ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20. Fodd bynnag, mae cynnig ffurfiol yn amodol ar yr Awdurdod yn gwneud cais unwaith mae’r holl ganiatadau a phrisiau tendr mewn lle i ddechrau’r gwaith. Ar hyn o bryd, disgwylir y bydd y gwaith yma yn mynd allan i dendr ym Mehefin/Gorffennaf a’r gwaith adeiladu yn cychwyn ym mis Hydref. Bydd y cynllun yn cario ymlaen yn 2019/20 gyda’r llithriad yn cael ei gyllido 85% grantiau allanol a 15% Benthyca â Chefnogaeth. |
| Priffyrdd Newydd Wylfa Newydd | 12,000,000 | 0 | (12,000,000) | 0 | 100 | | Mae'r tanwariant oherwydd bod yr holl waith wedi'i atal ar y prosiect hwn ar hyn o bryd. |
| Teithio Actif | 175,000 | 56,913 | (118,087) | 33 | 67 | | Y rheswm am y tanwariant oedd i Lywodraeth Cymru roi sêl bendith hwyr i Fap Rhydwaith Integredig Teithio Llesol Ynys Môn. Ni chafodd ei dderbyn tan yn hwyr yn y flwyddyn, felly, nid oedd modd defnyddio’r gyllideb yn llawn. Mae Ynys Môn wedi derbyn cyllid newydd ar gyfer Teithio Llesol yn 2019/20, felly, mae’r prosiect yn parhau. |
| Ffordd Gyswllt Llangefni | 1,671,000 | 2,078,552 | 407,552 | 124 | (24) | | Roedd y gorwariant o ganlyniad i brynu tir a gafodd ei gyllido trwy grant ychwanegol. |
| Grant Tais Oriel Môn, Lôn Las a Dingle | 128,000 | 129,811 | 1,811 | 101 | (1) | | |
| A545 Biwmares | 120,000 | 104,091 | (15,909) | 87 | 13 | 15,909 | Llithriad yn cael ei gyllido gan dderbyniadau Cyfalaf. |
| Grant Diogelwch Lôn | 220,000 | 200,997 | (19,003) | 91 | 9 | | Tanwariant oherwydd bod y contractwr wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr. |
| A545 Astudiaeth gwydnwch | 95,000 | 42,094 | (52,906) | 44 | 56 | 52,906 | Llithriad yn cael ei gyllido gan dderbyniadau Cyfalaf. |
| Gwaith llifogydd Llangefni | 75,000 | 73,912 | (1,088) | 99 | 1 | | |
| Parcio a theithio Gaerwen | 59,000 | 59,000 | 0 | 100 | 0 | | |
| Hyb Porth Caergybi | 287,000 | 287,144 | 144 | 100 | (0) | | |
| Isadeiledd Porthladd Caergybi | 596,000 | 596,000 | 0 | 100 | 0 | | |
| Salix Rhan 2 - Goleuadau Stryd | 105,130 | 104,881 | (249) | 100 | 0 | | |
| Salix Rhan 3 - Goleuadau Stryd | 264,000 | 258,971 | (5,029) | 98 | 2 | | |
| **Cyfanswm** | **18,645,140** | **6,054,801** | **(12,590,339)** | **32** | **68** | **840,296** | |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Cyfanswm (Tan) / Gorwariant (£) | % y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario | % Amrywiad | Tanwariant i'w gario ymlaen i 2019/20 (£) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | |
| Pont Pwyso Newydd | 30,590 | 28,995 | (1,595) | 95 | 5 | | |
| Offer newydd Penhesgyn | 55,000 | 55,000 | 0 | 100 | 0 | | |
| **Cyfanswm** | **85,590** | **83,995** | **(1,595)** | **98** | **2** | **0** | |
| | | | | | | | |
| **Eiddo** | | | | | | | |
| Adnewyddu Asedau Cyfredol | 406,930 | 234,395 | (172,535) | 58 | 42 | 172,535 | Llithriad yn cael ei gyllido gan dderbyniadau Cyfalaf. |
| Eiddo - Buddsoddi i Arbed | 250,000 | 225,683 | (24,317) | 90 | 10 | 24,317 | Bydd y llithriad yn cael ei gyllido trwy'r gronfa Gyfalaf wrth gefn. |
| Neuadd y Sir - Ystafell newydd hyfforddiant | 7,400 | 7,365 | (35) | 100 | 0 | | |
| Mynwent Llanddona | 0 | 6,155 | 6,155 | 0 | 100 | | |
| Mân-ddaliadau | 207,000 | 223,708 | 16,708 | 108 | (8) | | Cafodd y gorwariant ei gyllido trwy gyfraniadau allanol. |
| **Cyfanswm** | **871,330** | **697,306** | **(174,024)** | **80** | **20** | **196,852** | |
| **Trawsnewid** | | | | | | | |
| TGCh - Isadeiledd Craidd | 182,700 | 189,462 | 6,762 | 104 | (4) | | |
| TGCh - Adnewyddu Cyfrifiaduron | 121,000 | 123,657 | 2,657 | 102 | (2) | | |
| TGCh - Mudo System Etifeddiaeth | 20,000 | 29,924 | 9,924 | 150 | (50) | | |
| TGCh - Trwydded MS | 106,000 | 104,870 | (1,130) | 99 | 1 | | |
| System CRM - Buddsoddi i Arbed | 105,640 | 0 | (105,640) | 0 | 100 | 105,000 | Bydd y cynllun yn cael ei gwblhau yn 2019/20, felly, mae angen llithriad llawn o £105k i'w gyllido o'r cronfeydd wrth gefn. |
| **Cyfanswm** | **535,340** | **447,914** | **(87,426)** | **84** | **16** | **105,000** | |
| **Cynllunio** | | | | | | | |
| Prosiect Hyb Neuadd y Farchnad, Caergybi | 2,225,000 | 1,788,291 | (436,709) | 80 | 20 | 300,000 | Oherwydd ailbroffilio'r cynllun a dyraniad newydd a roddwyd yn 2019/20, dim ond £300k o lithriad sydd ei angen, a bydd hwn yn cael ei gyllido trwy grantiau. Y rheswm am y tanwariant yn 2018/19 oedd oedi gyda gwaith adeiladu. |
| THI Rhan 2 | 50,000 | 50,860 | 860 | 102 | (2) | | |
| **Cyfanswm** | **2,275,000** | **1,839,151** | **(435,849)** | **81** | **19** | **300,000** | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | |
| ICF | 731,000 | 137,991 | (593,009) | 19 | 81 | | Ni chollwyd unrhyw grantiau ar y prosiect hwn. Roedd un cynllun heb fynd yn ei flaen, felly, cafodd y cyllid grant ei amnewid i gyllido Prosiect Cyfalaf arall. Roedd y tanwariant a oedd yn weddill yn ymwneud â gwariant y Bwrdd Iechyd Lleol. |
| Wifi Canolfan Byron - Buddsoddi i Arbed | 8,750 | 11,484 | 2,734 | 131 | (31) | | |
| Seiriol | 1,000,000 | 0 | (1,000,000) | 0 | 100 | | Mae'r Cynllun Cyfalaf hwn yn debygol o fynd yn ei flaen yn y dyfodol a bydd yn cael ei gyllido o ffynonellau eraill. |
| Garreglwyd | 15,420 | 18,577 | 3,157 | 120 | (20) | | |
| **Cyfanswm** | **1,755,170** | **168,051** | **(1,587,119)** | **10** | **90** | **0** | |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **62,881,231** | **30,677,638** | **(32,203,593)** | **49** | **51** | **3,064,534** | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD** | **17 MEHEFIN 2019** |
| **PWNC:** | **MONITRO CYLLIDEB Y CRT, BLWYDDYN ARIANNOL 2018/19** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **STEPHEN MOORE**<br>01248 752634<br>StephenMoore@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol:-

**(i)** Y sefyllfa a nodir o ran perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2018/19.

**2. Cefndir**

**(i)** Ym mis Mawrth 2018, cytunodd y Cyngor ar gyllideb refeniw ar gyfer 2018/19 a oedd yn dangos gwarged cynlluniedig o £7.3m.

**(ii)** Roedd y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2018/19 yn £12.4m ond dylid nodi nad oedd £3.6m o wariant a gynlluniwyd ar gyfer 2017/18 wedi ei gwblhau a'i fod wedi llithro i raglen gyfalaf 2018/19. Addaswyd y gyllideb i gynnwys £362k ychwanegol gogyfer gwaith adfer yn Amlwch (gweler isod). Daw hyn â chyfanswm y gyllideb gyfalaf i £16.4m.

**(iii)** Rhoes y cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu, ddiffyg cyllidebol cynlluniedig o £6.4m a fyddai'n cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT.

**(iv)** Mae'r CRT wedi'i 'glustnodi' ar gyfer dibenion penodol, ac ni ellir trosglwyddo ei gronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT am y Flwyddyn Ariannol o 1 Ebrill 2018 hyd at 31 Mawrth 2019.

**4. Trosolwg**

**(i)** Mae'r sefyllfa ariannol refeniw ar gyfer y flwyddyn yn dangos gorwariant o £121k. Roedd yr incwm £55k yn is na'r gyllideb wreiddiol, a'r gwariant £66k yn uwch na'r gyllideb wreiddiol. Ceir mwy o fanylion yn Atodiad A.

**(ii)** Roedd y gwariant cyfalaf £7.3m yn is na'r gyllideb, fel yr eglurir isod. Ceir mwy o fanylion yn Atodiad B.

**(iii)** Mae'r gwarged (yn cyfuno refeniw a chyfalaf) yn £7.2m yn well na'r gyllideb, yn bennaf o ganlyniad i wariant cyfalaf is na'r gyllideb.

**5. Incwm**

**(i)** Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd yr incwm a dderbyniwyd £55k yn is na'r gyllideb, fel y nodir isod.

**(ii)** Roedd incwm rhent £250k yn is na'r gyllideb. Roedd y gyllideb yn rhagdybio y byddai nifer penodol o eiddo newydd yn cael eu gosod yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ond roedd y nifer gwirioneddol yn is na'r ffigwr yn y gyllideb. Mae cynllun 30 mlynedd diweddaraf y CRT wedi rhoi sylw i'r mater hwn er mwyn darparu cyllideb fwy realistig ar gyfer 2019/20.

**(iii)** Roedd rhagdybiaeth yn y gyllideb y byddai'r broses o ailfodelu'r stoc garejys wedi'i chwblhau ac y byddai llai o garejys ar gael i'w gosod. Fodd bynnag, mae cyflymder y gwaith modelu wedi bod yn arafach na'r disgwyl ac mae nifer y garejys sy'n dal i gael eu gosod yn uwch nag a gynlluniwyd. Roedd yr incwm £25k yn well na'r gyllideb wreiddiol.

**(iv)** Roedd Costau Gwasanaeth, sydd yn seiliedig ar y gwir gostau a gafwyd, £80k yn well na'r gyllideb wreiddiol.

**(v)** Roedd incwm arall £42k yn is na'r gyllideb, yn bennaf oherwydd bod incwm grantiau yn ystod y flwyddyn yn is na'r disgwyl.

**(vi)** Cynyddwyd y ddarpariaeth ar gyfer drwg-ddyledion gan £89k, £130k llai na'r gyllideb. Roedd y gyllideb yn rhagdybio y byddai'r gwaith o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol wedi datblygu ymhellach nag a ddigwyddodd mewn gwirionedd, a llwyddodd y tîm adennill dyledion i leihau lefel y dyledion rhent oedd yn ddyledus gan gyn denantiaid.

**(vii)** O ganlyniad, cyfanswm y diffyg mewn incwm oedd £55k.

**6. Gwariant nad oedd yn ymwneud â Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw**

**(i)** Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roedd gwariant nad oedd yn ymwneud â gwaith trwsio a chynnal a chadw £60k yn uwch na'r gyllideb. Gwariwyd £200k ar waith paratoi ar gyfer adeiladu tai newydd, gwariant nad oes modd ei gyfalafu arno nes y bydd y prif waith wedi cychwyn. Gwariwyd ar offer cyfrifiadurol a meddalwedd hefyd. Gwrthbwyswyd y gorwariant hwn o ganlyniad i benderfyniad i oedi'r arolwg stoc.

**7. Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw**

**(i)** Mae'r Uned Cynnal a Chadw Tai yn dangos gorwariant o £320k, er bod hyn yn cynnwys costau unwaith ac am byth eithriadol yn dilyn allanoli'r storfeydd. Hefyd, gwnaed mwy o waith cynnal a chadw dydd i ddydd a gwaith trwsio a gwasanaethu nwy. Roedd gwariant ar staff cynnal a chadw adeiladau (dim yr Uned Cynnal a Chadw Tai) £133k yn is na'r gyllideb wreiddiol oherwydd swyddi gwag yn ystod y flwyddyn.

**(ii)** Roedd gorwariant o £56k ar waith Trwsio a Chynnal a Chadw arall oherwydd gwaith ychwanegol yn ymwneud â diogelwch tân a chynnal tiroedd.

**8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn**

**(i)** Roedd gwariant ar y pennawd hwn £237k o dan y gyllideb. Roedd £389k o ganlyniad i gostau cyllido cyfalaf is na'r disgwyl o ganlyniad i lefel is o wariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn. Roedd costau a godwyd ar y CRT gan y Gwasanaethau Canolog £152k yn uwch na'r gyllideb wreiddiol o ganlyniad i'r polisi diwygiedig o godi am Cyswllt Môn, gwasanaethau polisi a chwynion a gorbenion swyddfa ychwanegol. Mae'r Cyngor yn parhau i adolygu'r polisi codi tâl i sicrhau fod costau yn cael eu dyrannu yn deg i'r CRT.

**9. Gwariant Cyfalaf**

**(i)** Roedd y rhaglen gyfalaf wreiddiol a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2018 yn werth cyfanswm o £12,417k a oedd am gael ei gyllido o'r Lwfans Gwaith Trwsio Mawr (£2,665k) a chyfraniad o gronfa wrth gefn y CRT (£9,752k). Cafodd gwariant cyfalaf cynlluniedig o £3,581k ei ddwyn ymlaen fel llithriant o 2017/18 i roi rhaglen gyfalaf ddiwygiedig o £15,998k. Ychwanegwyd £362k i'r rhaglen gogyfer gwaith adfer (gweler isod) sydd yn rhoi cyfanswm rhaglen o £16,360k. Y gwir wariant oedd £9,028k, £7,332k yn is na'r gyllideb. Ceir mwy o fanylion yn Atodiad B.

**(ii)** Roedd y contract gwres canolog £89k yn is na'r gyllideb, yn bennaf oherwydd cynlluniau i ohirio'r gwaith i flwyddyn ariannol 2019/20.

**(iii)** Bu oedi yn y rhaglen gwella perfformiad ynni o ganlyniad i drafodaethau gyda'r darparwr cyfleustodau ynglŷn â gwaith angenrheidiol i uwchraddio'r isadeiledd cyn y bydd modd i'r rhaglen lawn gychwyn.

**(iv)** Bu oedi yn y rhaglen waith amgylcheddol, y mae'r rhan fwyaf ohoni'n ymwneud ag ailfodelu garejys, oherwydd oedi wrth dderbyn caniatâd statudol.

**(v)** Mae mwyafrif y gyllideb gwariant cyfalaf yn ymwneud â phrynu hen dai cyngor a datblygu tai newydd, gyda £7,964k yn cael ei ddyrannu. Roedd y gyllideb yn caniatáu ar gyfer prynu 15 cyn eiddo 'Hawl i Brynu' a datblygu 25 eiddo newydd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cyfanswm y gwariant oedd £1,525k. Bydd gwaith ar y safle wedi cychwyn ar 25 o ddatblygiadau newydd erbyn 31 Mawrth; sef 6 tŷ yng Nghaergeiliog, 3 Byngalo ym Moelfre ac mae'r gweddill ar dri safle arall yng Nghaergybi. Oherwydd oedi wrth gychwyn ein prosiectau adeiladu tai newydd, roedd tanwariant o £6.4m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**(vi)** Roedd y rhaglen ailfodelu stoc presennol, sef prosiect Llawr y Dref, yn dangos gorwariant o £256k. Mae'r gorwariant o ganlyniad i waith ychwanegol a nodwyd yn y cynllun ar ôl cychwyn y gwaith. Roedd y gwaith hwn yn golygu ymgorffori hen dŷ'r warden yn y cynllun.

**(vii)** Mae gwaith adfer ar y 7 annedd CRT yng Nghraig y Don, Amlwch wedi cael ei ymgorffori yn y rhaglen gyfalaf CRT erbyn hyn.

**(viii)** Bydd y tanwariant yn y rhaglen cyfalaf yn cael ei gario ymlaen i'r blynyddoedd nesaf.

**10. Balans y CRT**

**(i)** Roedd balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT yn £7,380k. Roedd y gyllideb ddiwygiedig yn caniatáu am ddefnyddio £6,412k o'r balans hwn. Fodd bynnag, arweiniodd y tanwariant ar y gyllideb gyfalaf ynghyd â'r gorwariant ar y gyllideb refeniw at warged o £1,007k. Daw hyn â balans y gronfa wrth gefn i £8,387k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans hwn wedi cael ei glustnodi, felly, gellir ei ddefnyddio i gyllido gwariant y CRT yn y dyfodol yn unig.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham y gwnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| **DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth Strategol** (gorfodol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | d/b – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Ymgynghorir â hi fel rhan o'r UDA |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |

| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A – Gwariant Refeniw hyd at ddiwedd y Flwyddyn Ariannol
Atodiad B – Gwariant Cyfalaf hyd at ddiwedd y Flwyddyn Ariannol

**F - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb y CRT am 2018/19 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mawrth 2018).
- Cynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT am 2018/48 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mawrth 2018).

**ATODIAD A**

## *CYFRIF CRT 2018/19*

| | Cyllideb Flynyddol 2018/19 | Alldro | Amrywiant |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| **CYFRIF REFENIW** | | | |
| **Incwm** | | | |
| Anheddau | (17,339,000) | (17,089,211) | 249,789 |
| Garejys | (190,000) | (215,431) | (25,431) |
| Costau Gwasanaeth | (99,000) | (179,808) | (80,808) |
| Arall | (311,000) | (269,405) | 41,595 |
| Darpariaeth Dyledion Drwg | 219,000 | 88,918 | (130,082) |
| **CYFANSWM INCWM** | **(17,720,000)** | **(17,664,937)** | **55,063** |
| **Gwariant nad yw'n Wariant ar Atgyweirio a Chynnal a Chadw** | | | |
| Cyfranogiad Tenantiaid | 115,820 | 106,052 | (9,768) |
| Gweinyddu Rhenti | 135,360 | 164,902 | 29,542 |
| Rheoli Stadau | 369,560 | 370,662 | 1,102 |
| Gwariant Refeniw Arall | 1,167,040 | 1,206,010 | 38,970 |
| **Cyfanswm Gwariant nad yw'n Wariant ar Atgyweirio a Chynnal a Chadw** | **1,787,780** | **1,847,626** | **59,846** |
| **Atgyweirio a Chynnal a Chadw** | | | |
| Uned Cynnal a Chadw Tai (HMU) | 3,016,840 | 3,337,021 | 320,181 |
| Staff Cynnal a Chadw Adeiladau (dim HMU) | 852,560 | 719,242 | (133,318) |
| Atgyweirio a Chynnal a Chadw Arall | 463,730 | 520,559 | 56,829 |
| **Cyfanswm Atgyweirio a Chynnal a Chadw** | **4,333,130** | **4,576,822** | **243,692** |
| **Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | | | |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 2,987,000 | 2,597,979 | (389,021) |
| Ad-daliadau gan y Gwasanaethau Tai | 635,120 | 634,872 | (248) |
| Ad-daliadau gan y Gwasanaethau Canolog | 693,360 | 845,213 | 151,853 |
| **Cyfanswm Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | **4,315,480** | **4,077,664** | **(237,416)** |
| | | | |
| **CYFANSWM GWARIANT REFENIW** | **10,436,390** | **10,502,512** | **66,122** |
| | | | |
| **CYFANSWM REFENIW (GWARGED) / DIFFYG** | **(7,283,610)** | **(7,162,425)** | **121,185** |

| | Cyllideb Flynyddol 2018/19 | Alldro | Amrywiant |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| **CYFRIF GWARIANT CYFALAF** | | | |
| Gwariant 2018/19 | 16,360,280 | 9,028,451 | (7,331,829) |
| | | | |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr | (2,665,000) | (2,671,000) | (6,000) |
| | | | |
| **CYFANSWM CYFALAF (GWARGED) / DIFFYG** | **13,695,280** | **6,357,451** | **(7,337,829)** |
| | | | |
| **(CYNNYDD) / GOSTYNGIAD NET YNG NGHRONFA WRTH GEFN Y CRT** | **6,411,670** | **(804,974)** | **(7,216,644)** |
| **Addasiad i gronfeydd wrth gefn** | | (202,000) | |
| **Balans Agoriadol y CRT** | (7,380,000) | (7,380,000) | |
| | | | |
| **(Cynnydd) / Gostyngiad Net yng Nghronfa Wrth Gefn y CRT** | 6,411,670 | (1,007,974) | |
| | | | |
| **Balans Cau y CRT** | **(968,330)** | **(8,387,974)** | |

**ATODIAD B**

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Alldro (£) | Amrywiant (£) |
|---|---|---|---|
| **CRT Tai** | | | |
| Contract Gwres Canolog | 500,000 | 411,218 | (88,782) |
| Contract Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 3,983,500 | 4,838,159 | 854,659 |
| Gwella Perfformiad Ynni | 1,000,000 | 16,048 | (983,952) |
| Gwaith Amgylcheddol | 500,000 | 0 | (500,000) |
| Caffaeliad Eiddo sydd Eisoes yn Bodoli/Datblygu Eiddo Newydd | 7,964,780 | 1,524,910 | (6,439,870) |
| Adeiladau Ailfodelu Stoc Presennol | 500,000 | 756,164 | 256,164 |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 374,038 | 24,038 |
| Risg Tân | 200,000 | 130,187 | (69,813) |
| Safonau Ansawdd Tai Cymru | 1,000,000 | 737,148 | (262,852) |
| Gwaith Adfer | 362,000 | 240,579 | (121,421) |
| **Cyfanswm CRT Tai** | **16,360,280** | **9,028,451** | **(7,331,829)** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **17 MEHEFIN 2019** |
| **Pwnc:** | **POLISI CORFFORAETHOL AR ADENNILL DYLEDION** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS – AELOD PORTFFOLIO (CYLLID)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES – PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **GERAINT H JONES – RHEOLWR GWASANAETH REFENIW A BUDD-DALIADAU**<br>01248 752651<br>GeraintH.Jones@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **DIM YN BERTHNASOL** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**ARGYMHELLION**

- Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r Polisi Corfforaethol ar Adennill Dyledion.

**CEFNDIR**

Ar y 16 Gorffennaf 2018, bu i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo Strategaeth Gwrth-dlodi ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn. O fewn y polisi, gosodwyd gwaelodlin ar gyfer camau gweithredu a fyddai'n cael eu cymryd ar draws gwasanaethau yn y tymor byr, canol a hir gan ddefnyddio'r 5 thema strategol. Diffiniwyd tymor byr fel cyfnod o flwyddyn, tymor canol fel 2 - 3 blwyddyn a thymor hir fel 4 - 5 mlynedd.

O dan flaenoriaeth 4 o'r waelodlin o amcanion, gofynnwyd i'r Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau fabwysiadu'r Polisi Casglu Dyledion Corfforaethol ar gyfer y tymor canol. Mae'r polisi sydd i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith yn manylu ar yr egwyddorion i'w mabwysiadu gan Gyngor Sir Ynys Môn wrth fynd ati i gasglu arian sy'n ddyledus i'r Cyngor. Mae hefyd yn egluro sut y bydd y Cyngor yn ceisio adennill cymaint o ddyledion a bo modd tra, ar yr un pryd, yn trin pobl a busnesau'n deg a chyda pharch.

Mae'r polisi corfforaethol ar adennill dyledion hefyd yn cynnwys nodiadau gweithdrefn sy'n ymwneud â'r meysydd incwm a gasglwyd gan y Cyngor a cheir ynddynt fwy o fanylion ar drefniadau casglu dyledion. Mae protocolau hefyd wedi cael eu creu sy'n rheoli'r defnydd o asiantaethau gorfodi a/neu gasglwyr dyledion gan y Cyngor a'r modd y mae'r Cyngor yn chwilio am bobl sydd wedi rhedeg i ffwrdd. Mae yna brotocol ynglŷn â'r defnydd a wna'r Cyngor o Asiantaethau Gwirio Credyd a chydymffurfiaeth hefo gofynion Deddf Gwarchod Data 1998 a'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Mae hyn yn sicrhau nad yw'r wybodaeth ariannol am unigolyn ond yn cael ei defnyddio ble mae caniatâd ar gael i wneud hynny er mwyn adennill rhai mathau o ddyled. Ceir hefyd brotocolau ynghylch sut y defnyddir dedfrydau i gyfnodau yn y carchar, gorchmynion methdaliad ac arwystlon i adennill dyledion.

Mae'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 hefyd wedi ymrwymo i'r "Brotocol Dreth Gyngor Cymru - Arfer Dda wrth Gasglu'r Dreth Gyngor" a gyhoeddwyd yn Ionawr 2019 ac mae'r polisi i'w gymeradwyo yn adeiladu ar y canllawiau o fewn y protocol hwn ac ar y gwaith ymchwil helaeth a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â dulliau'r awdurdodau lleol i adennill dyled y Dreth Gyngor a'r protocol arfer da presennol a gefnogir gan y Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth Cenedlaethol.

Mae'r polisi sydd i'w gymeradwyo yn cyfeirio at, ac yn adeiladu ar, arweiniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar safonau i'w defnyddio gan asiantaethau gorfodi sy'n cael eu defnyddio i adennill dyledion gan brif gredydwyr, fel y Cyngor, wrth ddelio â phobl fregus. Mae'r polisi hefyd yn cyfeirio at adroddiadau gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) sy'n disgwyl i sefydliadau fod yn arbennig o ofalus wrth ddelio gyda defnyddwyr a all fod yn fregus. Mae hwn yn faes sy'n cael sylw gan lywodraethau Caerdydd a San Steffan ar y funud. Disgwylir arweiniad pellach ar fregusrwydd gan Lywodraeth Cymru wrth gasglu dyledion y Dreth Gyngor ac arweiniad newydd gan yr FCA ynglŷn â'r modd y disgwylir i ddarparwyr gwasanaeth ariannol ymdrin â defnyddwyr bregus, sut i adnabod bregusrwydd a sefydlu hyfforddiant safonol i staff rheng flaen fel y gallent gefnogi defnyddwyr bregus.

Mae Trysorlys Ei Mawrhydi, rhwng 29 Hydref 2018 a 29 Ionawr 2019 wedi ymgynghori a gofyn am farn ar ei bolisi "Cyfle i Anadlu" *("Breathing Space")* a'r cynllun statudol ar gyfer ad-dalu dyledion. Fe ymatebodd y Cyngor i'r ymgynghoriad hwn trwy Grŵp Rheolwyr Refeniw a Budd-daliadau Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r Trysorlys yn ystyried yr ymatebion ar y funud.

Mae'r polisi i'w gymeradwyo yn cael ei gyflwyno yn gynt na'r amserlen a nodwyd ar gyfer camau gwaelodlin yn y Strategaeth Gwrth-dlodi a hynny oherwydd y gofynion y mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan wedi eu gosod ar gynghorau.

Fe ystyriwyd y polisi drafft gan y Panel Sgriwtini Cyllid ar 1 Mai 2019 a chytunwyd iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith i'w fabwysiadu yn ei gyfarfod ym Mehefin 2019.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

I beidio cyflwyno polisi corfforaethol ar adennill dyledion. Byddai hyn yn groes i ddymuniadau'r Pwyllgor Gwaith yn ôl yng Ngorffennaf 2018. Mae'r Cyngor hefyd yn casglu incwm gan unigolion a busnesau am amryfal resymau. Mae'r polisi yma yn dangos sut y mae'r Cyngor yn rheoli ac yn casglu dyledion i sicrhau cysondeb a thegwch ym mhob amgylchiad.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am sicrhau bod materion ariannol y Cyngor yn cael eu gweinyddu'n gywir yn unol ag Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae casglu incwm yn un o'r meysydd gweinyddu hyn ac mae cyfrifoldeb swyddogion eraill, o ran casglu incwm, wedi cael ei amlinellu yng Nghyfansoddiad y Cyngor (sy'n cynnwys Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor a Chynllun Dirprwyo i Swyddogion).

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith sefydlu fframwaith, drwy'r polisi hwn, i sicrhau cysondeb a thegwch wrth gasglu incwm.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Mae'r polisi hwn yn cyfrannu at amcanion a nodau corfforaethol yr Awdurdod.

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Nid yw hyn yn berthnasol yn yr achos yma.

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Awdur yr adroddiad |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | Mae'r adroddiad hon wedi bod gerbron y Panel Sgriwtini Cyllid ar 1 Mai 2019 |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | Gweler Atodiad B |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad A – Polisi Corfforaethol ar Adennill Dyledion.
- Atodiad B - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Strategaeth Gwrth-dlodi Cyngor Sir Ynys Môn – Gorffennaf 2018;
- Protocol Dreth Gyngor Cymru – Arfer Dda wrth Gasglu'r Dreth Gyngor – Ionawr 2019 (Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol Cymru);
- Dulliau Awdurdodau Lleol i adennill y Dreth Gyngor yng Nghymru – Ymchwil Cymdeithasol Rhif: 57/2017;
- Protocol y Dreth Gyngor yng Nghymru – protocol ymarfer da diwygiedig casglu ôl-ddyledion y Dreth Gyngor - Mehefin 2017 (Cyngor ar Bopeth, Cymdeithas Lywodraeth Leol Cymru);
- Cymryd Rheolaeth o Nwyddau: Safonau Cenedlaethol – Ebrill 2014 (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder);
- Ein Hymagwedd yn y dyfodol tuag at ddefnyddwyr - 2017 (Awdurdod Ymddygiad Ariannol);
- Cynllun Cyfle i Anadlu ('breathing space') : ymgynghoriad ar bolisi arfaethedig – 29 Hydref 2018 - 29 Hydref 2018 (Trysorlys ei Mawrhydi);

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# SWYDDOGAETH ADNODDAU

## Refeniw a Budd-daliadau

# POLISI CORFFORAETHOL AR ADENNILL DYLEDION

| Dyddiad | Fersiwn | Enw |
|---|---|---|
| 17 Mehefin 2019 | Gyntaf | Geraint Jones |

**Crynodeb o'r Polisi:**

Mae'r Polisi Corfforaethol ar Adennill Dyledion yn rhoi manylion yr egwyddorion i'w mabwysiadu gan Gyngor Sir Ynys Môn wrth fynd ati i gasglu dyledion sy'n ddyledus i'r Cyngor. Ynddo, mae'n egluro sut y bydd y Cyngor yn ceisio adennill cymaint o ddyledion a bo modd wrth drin pobl a busnesau'n deg ac yn barchus.

Mae'r Polisi Corfforaethol ar Adennill Dyledion yn cymryd i ystyriaeth yr amcanion allweddol yng Nghynllun Cyngor Sir Ynys Môn 2017 – 2022, Datganiad ac Amcanion Llesiant Cyngor Sir Ynys Môn 2017-18 a Strategaeth Wrth Dlodi Cyngor Sir Ynys Môn 2018.

# CYNNWYS


| ADRAN | CYNNWYS | TUD |
|---|---|---|
| 1 | CYFLWYNIAD A PHWRPAS Y POLISI HWN | 3 |
| 2 | SUT BYDD Y CYNGOR YN YMDRIN AG UNIGOLION A BUSNESAU | 5 |
| 3 | Y GALLU I DALU | 8 |
| 4 | TREFNIADAU AR GYFER RHEOLI DYLEDION LLUOSOG SY'N DDYLEDUS I'R CYNGOR | 11 |
| 5 | SAFONAU, CWYNION A LLE I GAEL MWY O WYBODAETH | 13 |
| | Atodiad 1 – Help hefo rheoli eich arian | 15 |
| | Atodiad 2 – Côd Ymarfer : cyngor ar achosion bregus | 20 |
| | Atodiad 3 – ffurflen Incwm a Gwariant | 28 |

# ADRAN 1

## CYFLWYNIAD A PHWRPAS Y POLISI HWN

**Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i drin pobl yn deg wrth gasglu incwm sy'n ddyledus i'r Cyngor.**

Mae gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 gyfrifoldeb dros weinyddiaeth cywir materion ariannol y Cyngor dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae un o'r meysydd gweinyddu hyn yn ymwneud â chasglu incwm sy'n ddyledus i'r Cyngor. Amlinellir cyfrifoldeb y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, ynghyd â chyfrifoldeb swyddogion eraill, o ran casglu incwm sy'n ddyledus i'r Cyngor, yng Nghyfansoddiad y Cyngor (sy'n cynnwys Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor a Chynllun Dirprwyo i Swyddogion).

Mae gofyn i'r Cyngor gasglu incwm gan unigolion a busnesau am amryfal resymau ac, mae'n anochel, y bydd hyn yn golygu mynd ar ôl dyledion gan unigolion neu fusnesau a allai fod yn cael trafferth talu. O'r herwydd, dylai polisi y cytunwyd iddo ar sut y mae'r Cyngor yn rheoli ac yn casglu dyledion sicrhau cysondeb a thegwch ym mhob amgylchiad.

Dyma egwyddorion cyffredin Polisi Corfforaethol y Cyngor ar Adennill Dyledion (y Polisi) o ran casglu dyledion:-

- Annog talu ymlaen llaw neu wrth ddarparu gwasanaeth (lle bo'n bosib) ac, felly, arbed dyled yn y lle cyntaf ac osgoi'r angen i'w adennill;
- Pan nad oes modd osgoi credyd, casglu cymaint o ddyledion a bo modd er mwyn cyllido gwaith darparu gwasanaethau trwy anfon anfonebau/biliau, llythyrau atgoffa ac ati'n brydlon;
- Darparu ac annog amrywiaeth o ddulliau talu cost effeithiol, ond Debyd Uniongyrchol yn bennaf;
- Rhoddir cyngor a chefnogaeth i unigolion mewn trafferth ariannol wirioneddol i sicrhau eu bod yn hawlio'r holl fudd-daliadau lles sy'n ddyledus iddynt yn ogystal â chyngor ariannol a chyngor ar ddyledion. Yna gellir cytuno ar amserlenni talu neu gellir gwneud penderfyniadau o ran adennill y ddyled a chytuno ar ddulliau talu realistig;
- Rhoddir cefnogaeth i bobl fregus reoli eu materion ariannol yn effeithiol, a fydd yn cynnwys talu dyledion;
- Nodir yn glir brotocolau sy'n rheoli'r defnydd a wneir o swyddogion gorfodi (a elwir yn aml yn feilïaid) a/neu gasglwyr dyledion ac wrth ddechrau camau ansolfedd a thraddodi, ac maent ar gael i'r rhai hynny y mae arnynt angen eu gweld.

Mae'r Polisi hwn yn ymdrin â'r holl ddyledion sy'n ddyledus i'r Cyngor, ac eithrio'r rhybuddion talu cosb (torri rheolau parcio). Ymdrinnir â hyn dan drefniadau statudol ar wahân a chaiff ei weinyddu gan Bartneriaeth Prosesu Cosbau Cymru (PPCC) sydd yn rhan o Gyngor Sir Ddinbych ar ran y Cyngor (a deg awdurdod arall Cymru ar hyn o bryd). Er mwyn gweld "Gweithdrefnau Gorfodaeth Parcio Sifil" y PPCC, a fyddech cystal â defnyddio'r ddolen isod -

https://www.wppp.org.uk/pdf/WPPP_CPE_Procedures.%20CYMRAEG.pdf

Nodir yn y Polisi hwn yr egwyddorion cyffredin sy'n berthnasol i gasglu dyledion yn y Cyngor. Caiff ei ategu'n bennaf gan bedair set ychwanegol o nodiadau gweithdrefn (er efallai y bydd rhagor o nodiadau gweithdrefn yn cael eu hychwanegu) sy'n ymwneud â'r meysydd incwm a gasglwyd gan y Cyngor –

- dreth gyngor a threthi busnes;
- rhenti tai;
- mân ddyledwyr; a
- gordaliadau budd-dal tai / gostyngiad yn y dreth gyngor lleol.

Yn y Polisi eglurir egwyddorion y Cyngor a ddefnyddir wrth adennill pob dyled a bydd y polisïau gweithdrefn ychwanegol yn rhoi mwy o fanylion ar drefniadau casglu dyledion ym mhob un o'r meysydd penodol.

Mae yna hefyd Brotocolau sy'n llywodraethu'r defnydd o asiantaethau gorfodi a/neu gasglwyr dyledion wrth gychwyn gweithredoedd methdaliad a thraddodeb, sydd hefyd yn cefnogi'r Polisi hwn. Bydd y Protocolau ar gyfer defnyddio casglwyr dyledion neu asiantaethau gorfodi hefyd yn berthnasol i asiantau gorfodi wrth adennill taliadau rhybudd cosb sefydlog (torri rheolau parcio).

Mae'n mynd ymlaen i egluro sut y mae'r Cyngor yn chwilio am bobl sydd wedi rhedeg i ffwrdd, y defnydd a wna'r Cyngor o Asiantaethau Gwirio Credyd a sut y defnyddir Gorchmynion ansolfedd ac arwystlo i adennill dyledion. Cyfeirio at Drethi Busnes yn unig y mae protocol ar gyfer traddodi unigolyn i garchar am fethu talu dyled gan mai ar gyfer y mathau hyn o ddyledion y mae'r dull hwn o adennill yn berthnasol.

Pan fo gan unigolion sawl dyled gyda'r Cyngor, mae'r Polisi'n egluro sut y bydd yr amryfal wasanaethau casglu incwm yn y Cyngor yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau dull cydgysylltiedig, cyson a theg o adennill dyledion lluosog.

Mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn derbyn y byddai rhai unigolion a busnesau o bosib yn cael trafferthion talu a bod ar unigolion bregus, o bosib, angen cymorth i reoli eu materion. O'r herwydd, cynhwyswyd ystod eang o ddulliau cefnogi yn y Polisi, ynghyd ag arferion a fydd yn sicrhau y cynigir i unigolion gymaint o gefnogaeth a bo modd er mwyn medru cwrdd â'u hymrwymiadau ariannol.

Ynghyd â phrosesau adolygu annibynnol a monitro perfformiad rheolaidd, mae rheolau rheolaethol yn eu lle i sicrhau y cydymffurfir â'r Polisi a gweithdrefnau atodol.

Mae gweddill y Polisi hwn yn ymdrin ag:-

- Adran 2: Sut y bydd y Cyngor yn ymdrin ag unigolion a busnesau
- Adran 3: Y gallu i dalu
- Adran 4: Trefniadau i reoli dyledion lluosog
- Adran 5: Safonau, cwynion a lle i gael mwy o wybodaeth

# ADRAN 2

## SUT Y BYDD Y CYNGOR YN YMDRIN AG UNIGOLION A BUSNESAU

**Dylai unrhyw un sy'n mynd i ddyled neu sy'n disgwyl wynebu trafferthion ariannol gyda'r Cyngor gysylltu â'r Cyngor cyn gynted a bo modd. Fel hyn, rhoddir y cyfle gorau posib i unigolion neu fusnesau, ynghyd ag i'r Cyngor, fedru datrys unrhyw broblem yn fuan ac yn effeithiol.**

**Egwyddorion gweithredol:-**

- Bydd anfonebau/biliau yn cael eu cynhyrchu a chamau'n cael eu cymryd i adennill dyledion, a hynny'n unol ag ymrwymiadau neu weithdrefnau statudol y Cyngor;
- Bydd staff sydd wedi'u hyfforddi'n llawn yn gyfeillgar a phroffesiynol bob amser ac ni fyddant yn feirniadol. Yn hyn o beth, byddant yn gweithredu o fewn gweithdrefnau y cytunwyd iddynt;
- Bydd staff yn gwneud pob ymdrech i gael cymaint â bo modd o arian a chymorth ariannol, megis budd-daliadau/hawliadau eraill neu ddisgowntiau/eithriadau i unigolion a busnesau;
- Bydd staff yn sicrhau y caiff unigolion a busnesau eu cyfeirio at gyngor cymeradwy ar lles, arian a dyledion;
- Mewn achosion lle ceir caledi gwirioneddol, bydd staff yn cynorthwyo unigolion a busnesau i lunio a chynnal cynlluniau talu realistig;
- Nod y gwasanaeth casglu ac adennill dyledion yw cyfrannu at yr ymagwedd "Un Cyngor" o ddarparu gwasanaeth, lle bo hynny'n bosibl. Mae'r gwasanaeth dyledion a chasglu yn ceisio sicrhau bod gwasanaeth o safon uchel yn cael ei ddarparu mewn modd cost effeithiol a bydd yn edrych i foderneiddio a chyflwyno'r modelau darparu mwyaf addas i'r cwsmer yn y modd mwyaf cost effeithiol;
- Bydd gwefan y Cyngor yn cael ei datblygu er mwyn darparu cyngor ar lesiant a gweithdrefnau adennill dyledion gan hysbysu cwsmeriaid am yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt o ran eu hatebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw ddyledion y bydd ganddynt efallai gyda'r Cyngor, y goblygiadau o beidio â thalu a'r cymorth sydd ar gael.

Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn ceisio rhwystro unigolion a busnesau rhag mynd i ddyled gyda'r Cyngor. Fodd bynnag, pan eir i ddyled, bydd y Cyngor yn rhoi cefnogaeth i gynorthwyo pobl i dalu eu hôl-ddyledion dros gyfnod rhesymol. Ni fyddir yn cymryd camau adennill ffurfiol oni byddir wedi cymryd pob cam rhesymol arall ond **yr unigolion neu'r busnesau perthnasol fydd yn ysgwyddo cost camau adennill o'r fath ac nid trethdalwyr yr Ynys.** Bydd y costau adennill y bydd y Cyngor yn cytuno arnynt neu'n gofyn i'r llysoedd amdanynt er mwyn adennill y ddyled yn gyfreithlon, yn rhesymol ac yn briodol. Bydd y Cyngor hefyd yn sicrhau y bydd y costau a godir gan ei asiantau gorfodi neu asiantaethau gorfodi eraill yn gyfreithlon, yn rhesymol ac yn briodol wrth weithredu ar ran y Cyngor.

Ar gyfer unrhyw ddyled sy'n ddyledus i'r Cyngor, bydd unigolion a busnesau'n cael gwybod faint o arian sy'n ddyledus ganddynt a'r dewisiadau o ran talu sydd ar gael gan gynnwys yr amser a roddir i wneud taliadau a, lle bo'n berthnasol, yr hawl i dalu fesul tipyn. Bydd unigolion a busnesau'n cael gwybod am unrhyw ddisgowntiau, rhyddhad neu ostyngiadau sy'n berthnasol i'r ddyled pan fo'r anfonebau/biliau'n cael eu hanfon.

Os na wneir taliadau erbyn y dyddiad(au) penodol a bennwyd, bydd y Cyngor yn anfon llythyr atgoffa gyda'r nod o gael y taliadau'n ôl 'ar y trywydd iawn'. Bydd y Cyngor yn rhoi cyngor ar asiantaethau a all fod o gymorth i unigolion sy'n cael trafferth rheoli eu hymrwymiadau ariannol er mwyn eu cynorthwyo i ddod i drefniadau talu gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill y mae arnynt arian iddynt. (Ceir manylion asiantaethau o'r fath yn **Atodiad 1** y Polisi hwn).

Pan fo unigolyn neu fusnes yn methu ymateb i lythyrau atgoffa'r Cyngor neu'n methu'n gyson ar gytundebau talu a wnaed gyda'r Cyngor, gall y Cyngor ddewis, a bydd yn gwneud, dechrau camau cyfreithiol i adennill y ddyled trwy ynadon, y llysoedd sirol neu'r uchel lysoedd, gan ddibynnu ar fath a gwerth y ddyled. Yna, gall y Cyngor gyfeirio dyledion i gasglwyr dyledion, asiantau gorfodi neu swyddogion gorfodi'r uchel Lys i adennill y ddyled. Mae protocolau ar gael ar gyfer rhoi cyfarwyddiadau i gasglwyr dyledion, asiantau gorfodi neu swyddogion gorfodi'r uchel lysoedd i adennill dyledion a byddent ar gael i'r rheini sydd angen mynediad iddynt.

**Sut mae'r polisi hwn yn berthnasol i bolisïau eraill y Cyngor?**

Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei Ddatganiad ac Amcanion Llesiant ar gyfer 2017 – 2018 sy'n gysylltiedig â Chynllun y Cyngor ar gyfer 2017 – 2022 sy'n nodi prif flaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y pum mlynedd nesaf, sef:-

- Creu'r amodau fydd yn galluogi pobl Môn i gyflawni eu potensial tymor hir.
- Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus a'u cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl; a
- Gweithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau i'w galluogi i ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol.

Mabwysiadodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor ei "Strategaeth Wrth Dlodi" ym mis Gorffennaf 2018.

Bydd y Polisi Corfforaethol ar Adennill Dyledion yn cefnogi cynlluniau, amcanion a strategaethau o'r fath wrth iddynt gael eu datblygu. Golyga hyn, er enghraifft, helpu pobl i reoli eu materion ariannol eu hunain, cael mynediad i fancio prif lif a chymorth ar gyfer y rhai hynny a allai fod angen cymorth dros dro neu barhaus gyda rheoli eu materion ariannol. Bydd hyn yn cynnwys cydbwyso eu hincwm a'u taliadau er mwyn sicrhau y gallant dalu eu biliau yn rheolaidd a gwella gwybodaeth addysgol gyffredinol am faterion dyledion a allai godi mewn bywyd, cyfrifoldebau sy'n codi yn sgil hyn a'r canlyniadau posibl o fethu â thalu dyledion blaenoriaeth a dyledion nad ydynt yn flaenoriaeth.

Mae'r Cynllun Gweithredu Credyd Cynhwysol 2017 a gynhyrchwyd gan y Gwasanaethau Tai (fel y Gwasanaeth sy'n arwain ar Gredyd Cynhwysol) yn darparu enghraifft ddefnyddiol o'r mathau o bethau sy'n cael eu cynllunio ar eu cyfer ac, er enghraifft, sydd eu hangen ar gyfer datblygu cymorth ariannol, gwella cynhwysiant ariannol, datblygu sgiliau digidol, codi ymwybyddiaeth am y goblygiadau o beidio â thalu a gwella ymwybyddiaeth o ddyledion yn gyffredinol.

Bydd y Polisi, felly, angen ei addasu er mwyn cymryd i ystyriaeth y polisïau amrywiol a fydd yn cael eu datblygu yn y dyfodol.

**Cyfathrebu:-**

Bydd y Cyngor yn sicrhau y bydd pob cyfathrebiad ysgrifenedig a anfonir gan y Cyngor ynglyn â dyled yn y Gymraeg a'r Saesneg ac wedi ei ysgrifennu mewn iaith glir, lle bynnag y bo'n bosib. Bydd y Cyngor yn ymateb i gyfathrebiad ysgrifenedig yn yr iaith a ddefnyddir gan yr unigolyn. Byddwn yn egluro geirfa gymhleth pan fo gofyn cyfreithiol i'w defnyddio. Bydd pob dogfen angenrheidiol yn cael ei chynhyrchu'n amserol yn unol ag amserlenni neu weithdrefnau statudol. Byddwn yn egluro'r opsiynau cyfreithiol sy'n agored i'r Cyngor i gasglu dyledion, gan gadw mewn cof y cyfnod adennill a gyflawnwyd. Bydd yr holl gyfathrebu, yn eiriol neu'n ysgrifenedig, yn cydymffurfio gyda Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor, Mai 2016, a Safonau'r Iaith Gymraeg, Mawrth 2016.

**Gwarchod Data a Hawliau Dynol:-**

Bydd y Cyngor yn sicrhau y bydd gwybodaeth am ddyled sy'n ddyledus gan unigolyn neu fusnes i'r Cyngor yn cael ei gadw'n ddiogel ac na chaiff ei datgelu i unrhyw unigolyn (unigolion) heb ganiatâd penodol yr unigolyn neu'r busnes dan sylw. Bydd polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor ynghylch adennill dyled yn ymgeisio i fod yn deg a chyfiawn, gan gydnabod hawliau dynol a chyfiawnder naturiol ym mhob agwedd o adennill dyled.

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth:-**

Mae'r Cyngor yn anelu at roi gwasanaethau i drigolion yr Ynys, a hynny yn agored, yn deg ac yn gyfartal ac, felly, yn sicrhau yr ymdrinnir â phob unigolyn neu fusnes yn barchus. Wrth adennill dyled i'r Cyngor, ni fyddir yn gwahaniaethu yn erbyn unigolyn oherwydd diwylliant, ethnigrwydd neu darddiad cenedl, rhyw, anabledd, oedran, tueddiadau rhywiol na chred wleidyddol neu grefyddol (gan gynnwys dim cred), statws economaidd-gymdeithasol, edrychiad neu safon byw.

Mae'r Cyngor yn deall bod rhaid wrth gyngor a chymorth ychwanegol gyda rhai pobl er mwyn cael gwasanaethau ac i ddefnyddio eu hawliau. Os bydd ar gael, rhoddir gwybodaeth mewn Braille neu ar dâp. At hyn, bydd modd trefnu cyfieithydd pan fo raid ynghyd â chymorth i bobl gyda nam ar y clyw neu'r golwg.

**Unigolion bregus:-**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gefnogi unigolion a allai gael eu dosbarthu'n fregus i reoli eu materion ariannol yn effeithiol, gan gynnwys talu dyled. Gall unigolion gael eu dosbarthu'n fregus am nifer o resymau. Mae'r Cyngor wedi cynnwys yn y Polisi hwn Gôd Ymarfer ar gyfer ei staff ei hun, ei asiantau gorfodi a/neu ei gasglwyr dyledion ac unrhyw unigolyn neu sefydliad arall a ddefnyddir gan y Cyngor i gasglu dyledion lle dylid bod yn ofalus a doeth wrth ymdrin ag unigolion sy'n perthyn i'r grwpiau a restrir yn **Atodiad 2** ac y gallant gael eu hystyried yn fregus at ddibenion y Polisi hwn.

Os yw unigolyn yn credu ei fod yn fregus neu fod unigolyn yn gweithredu ar ran rhywun sy'n fregus, a fyddech cystal â rhoi gwybod i'r Cyngor. Fel hyn, bydd modd i'r Cyngor ymdrin â'r unigolyn yn sensitif ac yn briodol.

# ADRAN 3

## Y GALLU I DALU

**Bydd y Cyngor yn gefnogol wrth adennill dyledion. Bydd yn gwneud hyn mewn modd fydd yn cwrdd ac anghenion pob unigolyn ac yn cynnig eu cyfeirio at asiantaethau cefnogol annibynnol.**

Wrth fynd ar ôl dyledion, bydd y Cyngor yn gweithredu'n unol â rheoliadau statudol a safonau proffesiynol. Cymerir camau ymarferol i:-

- Codi ymwybyddiaeth o ddyled gyda chwsmeriaid;
- Canfod maint y ddyled / sut y digwyddodd;
- Codi ymwybyddiaeth o oblygiadau peidio â thalu.

Byddir yn asesu'r gallu i dalu ar sail maint yr incwm sydd ar gael o'i gymharu â'r ddyled gyffredin a'r dyledion sy'n ddyledus i'r Cyngor. Byddir yn ystyried bod rhyw gymaint o'r ddyled sy'n ddyledus i'r Cyngor, ond nid y cyfan ohoni, yn cael ei thrin fel "dyled â blaenoriaeth".

**Trefniadau ar gyfer unigolion sydd mewn dyled i'r Cyngor ac sy'n gallu talu:-**

Bydd y Cyngor yn rhoi gwybodaeth am sut i dalu trwy gynghori ar ddulliau talu, pa môr aml y dylid talu ac yn lle y gall unigolion dalu.

Bydd trefniadau ar gyfer talu dyled yn sicrhau, yn fras, nad yw **dyled unigolyn i'r Cyngor yn gwaethygu.** Yn ymarferol golyga hyn, o bosib, sicrhau bod y cyfrif cyfredol neu'r cyfrif mwyaf diweddar yn cael ei glirio tra'n gwneud y cyfraniad mwyaf posib i glirio dyledion eraill. Byddwn hefyd yn blaenoriaethu pa ddyledion fydd yn cael eu had-dalu gyntaf er mwyn sicrhau nad yw amgylchiadau personol y dyledwr yn gwaethygu, er enghraifft, rhent neu'r dreth gyngor fydd y flaenoriaeth uchaf er mwyn lleihau'r risgiau y bydd y dyledwr yn colli eu tenantiaeth neu'n cael eu gwneud yn fethdalwyr.

Bydd staff wastad yn ceisio gwneud trefniadau realistig i dalu dyledion trwy daliadau rheolaidd yn hytrach na chymryd camau cyfreithiol i adennill y ddyled. Efallai y bydd raid wrth ddatganiad ariannol, yn nodi incwm a gwariant teulu'r unigolyn, i gefnogi cais am drefniant gyda thaliadau rheolaidd. Mae modd i'r unigolyn gwblhau datganiad ariannol gyda chymorth asiant cynghori annibynnol neu ar lein (gweler **Atodiad 3** y Polisi hwn).

**Trefniadau ar gyfer unigolion sydd mewn dyled i'r Cyngor ac sy'n methu talu:-**

- Bydd y Cyngor yn rhoi gwybod beth fydd yn digwydd os na thelir dyledion;
- Bydd y Cyngor yn rhoi gwybod pwy all roi cymorth/cyngor;
- Bydd y Cyngor yn annog unigolion i gael cymorth o ystod o ffynonellau;
- Bydd y Cyngor yn cyfeirio at asiantaethau priodol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd raid ymdrin â rhai unigolion penodol gyda mwy o gydymdeimlad a sensitifrwydd e.e. gyda phrofedigaeth ddiweddar, salwch mawr neu pan fo ar yr unigolyn angen cymorth arbennig i ymdrin â'i faterion ariannol. Bydd y Cyngor yn cynorthwyo'r holl unigolion neu fusnesau sy'n cael trafferth talu eu dyledion er mwyn iddynt gael cyngor a chefnogaeth briodol.

**Trefniadau ar gyfer dyledion y cred y Cyngor nad oes modd eu hadennill:-**

Mae'r Cyngor yn cydnabod nad oes modd casglu'r holl ddyledion ac, felly, mewn amgylchiadau penodol bydd yn briodol dosbarthu dyledion fel rhai nad oes modd eu hadennill, a hynny lle bodlonir meini prawf y penderfynwyd arnynt ymlaen llaw. Bydd y Cyngor yn bodloni ei hun bod un neu fwy o'r isod yn berthnasol cyn y bydd yn derbyn nad oes modd adennill dyled:-

- Bod yr holl ddulliau adennill priodol wedi'u defnyddio;
- Ei bod yn aneconomaidd mynd ar ôl y ddyled;
- Byddai adennill y ddyled yn arwain at galedi i'r unigolyn;
- Bod y swm yn anghasgliadwy os yw'r sawl mewn dyled yn fethdalwr neu'r cwmni mewn datodiad;
- Bod y ddyled wedi ei dileu neu wedi ei hystyried yn un na ellir ei hadennill gan lys mewn gwrandawiad i geisio adennill y ddyled;
- Bod y dyledwr wedi'i garcharu oherwydd y ddyled;
- Bod y dyledwr wedi rhedeg i ffwrdd ac nid oes modd cael hyd iddo neu mae busnes wedi rhoi'r gorau i fasnachu;
- Bod statud wedi gwahardd rhag adennill y ddyled;
- Nad yw er lles gorau'r Cyngor i fynd ar ôl y ddyled.

**Trefniadau i ddileu dyledion nad oes modd eu hadennill:-**

Ceir manylion am drefniadau dileu dyledion yn Rheolau Gweithdrefnau Ariannol y Cyngor. O bryd i'w gilydd, gall Pwyllgor Gwaith y Cyngor adolygu a phennu amgylchiadau, gwerth ac awdurdod dirprwyedig sy'n caniatáu dileu dyledion.

Cafodd hwn ei adolygu a'i bennu ddiwethaf gan y Pwyllgor Gwaith ar 30 Tachwedd 2010 ac, ar hyn o bryd, mae fel a ganlyn –

- Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151

    - Hyd at £5,000; a
    - Dim cyfyngiad lle mai methdalwr yw'r dyledwr; neu mae'r dyledwr yn gwmni sydd mewn datodiad; neu fod y ddyled wedi'i dileu gan y llys; neu fod y dyledwr wedi'i garcharu oherwydd y ddyled.

- Penderfyniad y Pwyllgor Gwaith a ddirprwyir i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Deilydd Portffolio (Cyllid)

    - Dros £5,000.

Mae'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) ers 5 Mehefin 2017 wedi neilltuo'r hawl i ddileu dyledion i swyddogion eraill -

- Rheolwr Refeniw – gall ddileu balansau o hyd at £10 lle mae'r rhan fwyaf o'r ddyled wedi ei thalu ond bod balans bychan ar ôl i'w dalu. Nid yw'r pŵer i ddileu dyledion yn ymestyn i ddyledion lle'r oedd yr anfoneb am swm o lai na £10 ac nad oes taliad wedi ei dderbyn.

- Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau – yn gallu dileu unrhyw ddyled hyd at £250 heb orfod cyfeirio'r achos at y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

# ADRAN 4

## TREFNIADAU AR GYFER RHEOLI DYLEDION LLUOSOG SY'N DDYLEDUS I'R CYNGOR

**Bydd y Cyngor yn gweithredu'n gydgysylltiedig wrth ddelio ag unrhyw un sydd â dyledion lluosog gyda'r Cyngor, gan gadw mewn cof amgylchiadau'r unigolyn a maint a math y ddyled sy'n ddyledus i'r Cyngor.**

O ran effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, dengys profiad y cesglir y mwyaf o ddyledion trwy fynd ar eu hôl yn unigol ac yn amserol. At hyn, mae bodolaeth gwahanol ddeddfwriaethau adennill yng nghyswllt y Dreth Gyngor, Rhenti Tai, Mân Ddyledion ac ati, yn tueddu i gefnogi'r agwedd hon.

Fodd bynnag, pan fo'n amlwg nad yw cwsmer yn gallu talu dyled, neu nifer o ddyledion tebyg, y nod fydd cytuno ar drefniant i dalu (lle bo'n briodol), sy'n ystyried amgylchiadau penodol yr unigolyn a mathau'r dyledion sy'n ddyledus i'r Cyngor. Wrth gytuno ar drefniant i dalu dyledion lluosog sy'n ddyledus iddo gan unigolyn neu fusnes, bydd y Cyngor yn blaenoriaethu dyledion fel a ganlyn (gan ddechrau gyda'r fwyaf) -

Ar gyfer unigolion:-

- Morgais y Cyngor/Rhent Tŷ/Rhent Mân ddaliad/Dyled oherwydd twyll;
- Y Dreth Gyngor / Trethi Busnes;
- Gordaliad Budd-dal Tai;
- Mân ddyledwyr/Ôl-ddyledion Rhent Cyn-denant Tai.

Ar gyfer busnesau:-

- Rhent Masnachol/ Rhent Mân ddaliad/Dyled oherwydd twyll;
- Y Dreth Gyngor / Trethi Busnes;
- Mân ddyledwyr.

(Caiff cofrestru cyn cyhuddo Rhybuddion Talu Cosb (torri rheolau parcio) ar eu pennau eu hunain eu heithrio rhag y broses drefniadau ar gyfer dyledion lluosog sy'n ddyledus i'r Cyngor, er y cânt eu trin fel dyled â blaenoriaeth at ddibenion cyfrifo gallu unigolyn i dalu dyledion).

Er mwyn gwella effeithlonrwydd dull y Cyngor o gynorthwyo unigolion, yn benodol, i ymdopi gyda dyledion lluosog, bydd staff o'r gwasanaethau perthnasol yn cysylltu'n agos ar achosion lle mae dyledion yn mynd yn uwch na'r lefelau sylfaenol ac yr ystyrir cam pellach o adennill dyledion, megis:-

| | |
|---|---|
| Rhenti Tai - | Rhybudd i geisio Meddiant yn cael ei anfon |
| Y Dreth Gyngor - | Ystyried deisebau mewn Gorchmynion methdalu neu arwystlo |
| Trethi Busnes - | Ystyried gwŷs ragdraddodi neu ddeisebau methdalu |

| | |
|---|---|
| Mân ddyledwyr/ - Rhent Masnachol/ Rhent Mân ddaliadau/ Ôl-ddyledion Cyn-denantiaid Tai | Ystyried achosion perthnasol i'w cyfeirio am gamau cyfreithiol (gwerth dim llai na £600) |
| Gordaliad Budd-daliadau Tai | Ystyried achosion perthnasol i'w cyfeirio am gamau cyfreithiol (gwerth dim llai na £600) |

Pan fo unigolyn yn cyrraedd y cam adennill dyledion y cyfeirir ato uchod yn unrhyw un o'r meysydd, bydd y swyddog perthnasol yn cysylltu â'r gwasanaethau eraill i hwyluso ystyriaeth gydgysylltiedig o unrhyw ddyled luosog ac ymgymryd â datganiad ariannol sy'n ymdrin ag incwm a gwariant.

# ADRAN 5

## SAFONAU, CWYNION A LLE I GAEL MWY O WYBODAETH

**Bydd y Cyngor yn mabwysiadu dull hyblyg, tra'n cydymffurfio â'i safonau ei hun neu safonau rhagnodedig o wasanaeth.**

**Pa wasanaethau fydd cwsmeriaid yn eu derbyn?**

Wrth bennu sut orau i gefnogi preswylwyr a busnesau a'u hannog i roi sylw i faterion yn ymwneud â dyledion, bydd gwasanaeth y Cyngor, yn y pwynt cyswllt cyntaf, yn cael ei gyflawni mewn modd sensitif.

Unwaith y mae preswylydd neu fusnes wedi cysylltu â'r Cyngor, mae'n hanfodol eu bod yn cael eu cyfeirio at y ffynhonnell fwyaf priodol o ran cefnogi gwaith rheoli dyledion, os oes angen.

Bydd preswylwyr neu fusnesau fydd ag un ddyled yn gallu gwneud taliad neu, pan nad oes modd clirio'r ddyled, gytundeb realistig i dalu trwy'r gwasanaeth perthnasol.

Rhaid i breswylwyr neu fusnesau fydd â sawl dyled gredu bod ateb i'w problemau dyledion a byddant yn cael eu hannog i rannu gyda staff wybodaeth am yr holl arian sy'n ddyledus, fel bod modd gwneud y cyfeiriad mwyaf perthnasol, os oes angen.

Nid yw'r polisi hwn yn gweithredu yn y fath fodd bod yr un camau a gymerir yn mynd i weithio i bawb.  Yn hytrach, mae'n bwriadu gweithio gyda'r preswylydd neu'r busnes i gymryd camau y cytunir iddynt er mwyn cynorthwyo i roi sylw i ddyledion lluosog.

Mae pob gwasanaeth sy'n casglu dyled i'r Cyngor wedi sefydlu polisi gweithdrefnol cynhwysfawr y byddant yn eu dilyn wrth gasglu dyledion.

**Cwynion:-**

Yn y lle cyntaf, dylai preswylwyr a busnesau wneud cwyn am unrhyw gamau adennill dyledion a gymerir gan y Cyngor yn uniongyrchol i'r gwasanaeth sy'n casglu'r ddyled.  Ceir manylion cyswllt ymhellach ymlaen yn yr adran hon.

Os yw unrhyw achwynydd yn anfodlon gyda'r ymateb a gafwyd, dylai ddefnyddio trefn gwyno ffurfiol y Cyngor.  Am fanylion, a fyddech cystal â mynd i wefan y Cyngor ar:-

http://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cymryd-rhan/Sylwadau-canmoliaeth-a-chwynion/Sut-i-gwneud-cwyn-swyddogol.aspx

**Lle i gael mwy o wybodaeth:-**

Am fwy o fanylion ynghylch defnyddio'r polisi hwn ar gyfer y dreth gyngor, trethi busnes, rhenti tai, mân ddyledion a gordaliadau budd-daliadau, a fyddech cystal â defnyddio'r manylion cyswllt isod yn y lle cyntaf:-

**Y Dreth Gyngor** – Bilio ac Adennill
Swyddogaeth Adnoddau (Refeniw)
Swyddfeydd y Cyngor
LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7TW
Rhif Ffôn: (Bilio 01248 750057)(Adennill 01248 752214)
E-bost: refeniw@ynysmon.gov.uk

**Ar gyfer Trethi Busnes** – Bilio ac Adennill
Swyddogaeth Adnoddau (Refeniw)
Swyddfeydd y Cyngor
LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7TW
Rhif Ffôn: (Bilio 01248 750057)(Adennill 01248 752214)
E-bost: refeniw@ynysmon.gov.uk

**Ar gyfer Rhenti Tai:**
Gwasanaeth Tai
Swyddfeydd y Cyngor
LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7TW
Rhif Ffôn: (Bilio 01248 752200)
E-bost: ADRANTAI@ynysmon.gov.uk

**Ar gyfer Mân ddyledwyr** – Bilio ac Adennill
Swyddogaeth Adnoddau (Refeniw)
Swyddfeydd y Cyngor
LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7TW
Rhif Ffôn: (Bilio 01248 750057)(Adennill 01248 752214)
E-bost: incwm@ynysmon.gov.uk

**Ar gyfer Gordaliadau Budd-daliadau Tai** – Bilio ac Adennill
Swyddogaeth Adnoddau (Budd-daliadau a Refeniw)
Swyddfeydd y Cyngor
LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7TW
Rhif Ffôn: (Bilio 01248 750057)(Adennill 01248 752214)
E-bost: budd-dal@ynysmon.gov.uk

## CYMORTH GYDA RHEOLI EICH ARIAN A'CH DYLED

Yn aml nid yw cwsmeriaid yn gwybod ble i droi os ydynt yn pryderu ynglŷn â rheoli eu harian neu os oes ganddynt ddyledion ac nid yw nifer o gwsmeriaid yn dewis derbyn y cyngor sydd ar gael. Mae cwsmeriaid yn dal i fod yn amharod i ddefnyddio gwasanaethau cynghorydd ariannol neu gynghorydd dyledion sy'n golygu bod cwsmeriaid yn gwneud dewisiadau cymhleth heb gymorth.

**Ni fydd anwybyddu'r broblem yn golygu y bydd yn diflannu**. Rhaid i gwsmeriaid ofyn am help ac mae llawer o sefydliadau sy'n gallu rhoi cyngor ar les, dyledion a phroblemau ariannol.

Yn arolwg Bywydau Ariannol ("Our Financial Lives Survey") 2017 yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), dangoswyd mai ychydig iawn o ddefnyddwyr sydd yn 'ddelfrydol'. Mae lefelau isel o allu ariannol, cadernid ariannol a hyder yn eu gallu i wneud penderfyniadau ariannol, ynghyd â thueddiadau ymddygiadol, yn ei gwneud yn anodd i gwmnïau a sefydliadau ddisgwyl i ddefnyddwyr gymryd cyfrifoldeb bob amser am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd.

Mae'r Awdurdod yn defnyddio rhan o'i gyllideb i sicrhau bod cyngor ynglŷn â lles, ynghyd â chyngor ariannol a chyngor ar ddyledion, ar gael ar yr Ynys i unigolion a busnesau. Mae'r Awdurdod wedi cytuno i ddarparu cyllid i –

- **Canolfan yr Awdurdod ei hun – Canolfan J.E.O'Toole**

  Mae hon, yn bennaf, yn rhoi gwasanaeth hawliau lles sy'n cynnwys rhoi cymorth, cyngor a gwybodaeth ymarferol. Fe'i leolir yn –

  Sgwâr Trearddur
  Caergybi
  Ynys Môn
  LL65 1NB

  https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Trigolion/Budd-dalidau-a-grantiau/Hawliau-lles-a-sefydliadau-eraill-syn-gallu-helpu-chi.aspx

  cathp@ynysmon.gov.uk

  01407 760208

- **Cyngor ar Bopeth**

  Mae Cyngor ar Bopeth (CAB) yn cynnig cyngor ar faterion ariannol a phroblemau dyledion. Yn ogystal, mae'n darparu ystod eang iawn o gyngor ar faterion ariannol ac ar faterion nad ydynt yn ymwneud ag arian. Mae modd cysylltu â'ch swyddfa 'Cyngor ar Bopeth' leol yn –

**a)** 6 Rhes Victoria Terrace, CAERGYBI, Ynys Môn, LL65 1UT.

https://www.citizensadvice.org.uk/local/ynys-mon/contact-us/?serialnumber=561457
AngleseyCA@gmail.com

03444 772020

**b)** Canolfan Ebeneser, Stryd y Bont, LLANGEFNI, Ynys Môn, LL77 7PN.

https://www.citizensadvice.org.uk/local/ynys-mon/contact-us/?serialnumber=102150
AngleseyCA@gmail.com

03444 772020

**c)** Swyddfeydd y Cyngor Tref, Llawr y Llan, Lôn Goch, AMLWCH, Ynys Môn, LL68 9EN.

https://www.citizensadvice.org.uk/local/ynys-mon/contact-us/?serialnumber=102146

03444 772020

Am ei denantiaid tai ei hun, mae'r Awdurdod yn darparu **Gwasanaeth Cefnogaeth Tai** i gynorthwyo pobl i fyw yn eu cartrefi fel bod modd i bobl ymdrin â'u materion eu hunain a pheidio â chael pobl i wneud drostynt. Er enghraifft, rheoli arian, mynediad i hawliau lles a gwasanaethau, osgoi mynd i ôl-ddyledion ac i ddyled. Fe leolir y gwanaaeth yn –

9a Clôs Peibio, Caergybi, Ynys Môn, LL65 2EG.

https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Trigolion/tai/gwasanaeth-cefnogaeth-tai.aspx

Gwasanaethau Cwsmer 01248 752200 neu'n uniongyrchol ar 01407 765912.

cefnogaethtai@ynysmon.gov.uk

Mae **gwasanaethau cefnogi busnes** hefyd ar gael ar yr Ynys. Gan fod yr Awdurdod yn rheoli neu'n gweinyddu gwasanaethau cefnogi busnes uniongyrchol, megis grantiau, adeiladau ayb ac er mwyn sicrhau gwahaniad tryloyw dyletswyddau, mae'r Awdurdod yn argymell mai busnescymru.llyw.cymru (http://busnescymru.llyw.cymru) yw'r pwynt cyswllt cyntaf os ydych yn meddwl am ddechrau busnes neu am ymholiadau busnes cyffredinol.

Y dolenni amrywiol i'r wefan hon a gwefannau allanol eraill sy'n rhoi cyngor i fusnesau yw –

https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Busnes/Cyllid-a-grantiau-busnes/Cyngor-ar-Grantiau-a-Chyllid.aspx

Felly, bydd staff yr Awdurdod ei hun yn cyfeirio cwsmeriaid unigol at sefydliadau ar yr Ynys sydd wedi cael cymorth o gyllideb yr Awdurdod i roi cyngor ar les a chyngor ariannol yn ogystal â chyngor ar ddyledion ac yn cyfeirio busnesau at busnescymru.llyw.cymru. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod bod llawer o sefydliadau sy'n gallu rhoi cyngor ynghylch dyled a phroblemau ariannol ac y gallai cwsmeriaid ddymuno gwneud eu dewisiadau eu hunain gan bwy i geisio cymorth ganddynt ac sy'n fwy addas i'w hanghenion.

Canllaw yn unig yw'r sefydliadau a restrir isod. Mae'r Awdurdod wedi ceisio gwneud yn siŵr bod y wybodaeth yn gywir ar y dyddiad a nodir ar glawr y Polisi hwn, mae'n bosibl y bydd yn cynnwys gwybodaeth anghywir y bydd angen ei ddiweddaru.

**Cyngor Sir Ynys Môn**

Mae tudalen we benodol https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Trigolion/Budd-daliadau-a-grantiau/Hawliau-lles-a-sefydliadau-eraill-syn-gallu-eich-helpu-chi.aspx yn darparu gwybodaeth neu'n eich cyfeirio neu'n darparu dolenni i sefydliadau amrywiol sy'n darparu cyngor ynglŷn â lles, materion ariannol a dyledion. Yn ogystal mae dolenni gwe defnyddiol ar gyfer busnesau ar wefan yr Awdurdod -

https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Busnes/Cyllid-a-grantiau-busnes/Cyngor-ar-Grantiau-a-Chyllid.aspx

**Cymdeithas Bancwyr Prydain (y BBA)**

Mae'r BBA'n cynhyrchu rhyw gymaint o daflenni defnyddiol ynghylch profi eich hunaniaeth ac ar ystod o wasanaethau bancio. Am fwy o fanylion, ewch i: www.bba.org.uk.

**Gwasanaeth Cyngor Ariannol (yr MAS))**

Gwasanaeth annibynnol yw hwn a sefydlwyd gan y Llywodraeth. Mae'r MAS yn rhoi gwasanaeth lle rhoddir 'archwiliad meddygol' i'ch sefyllfa ariannol. Am fwy o fanylion: ewch i http://www.moneyadviceservice.org.uk/cy/tools/gwiriad-iechyd/start. Gall hyn eich cynorthwyo i weithio allan eich blaenoriaethau ariannol a gwneud penderfyniadau am eich arian.

Yn ogystal, mae gan yr MAS gyfrifiannell cyllideb i'ch cynorthwyo i feddwl am eich gwario a gweithio allan a yw'r arian sydd gennych yn dod i mewn yn ddigon ar gyfer yr arian yr ydych yn ei wario. Am fwy o fanylion, ewch i:-

http://www.moneymadeclearwales.org/
https://www.moneyadviceservice.org.uk/
0800 1387777

**Elusen Dyledion 'Step Change'**

Mae 'Step Change' yn rhoi cyngor ar ddyledion yn rhad ac am ddim dros y ffôn. Mae popeth yn rhad ac am ddim ac yn gyfrinachol, o gyngor ar gyllidebu i Gynlluniau Rheoli Dyledion ymarferol. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i bawb yn y DU. Am fwy o fanylion ewch ar eu gwefan: www.stepchange.org neu eu ffonio ar 0800 1381111 neu ysgrifennu atynt: Step Change Debt Charity, Wade House, Merrion Centre, Leeds. LS2 8NG.

**Shelter Cymru**

Gwasanaeth cynghori dros y ffôn neu ar lein yw hwn yn bennaf. Yn Swyddfa Menai, Blwch Post 172, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4RX y mae swyddfa leol Shelter Cymru: Llinell Gymorth - 0845 0755005 neu ar lein advicenorth@sheltercymru.org.uk neu fanylion am wasanaeth apwyntiadau ar yr Ynys https://sheltercymru.org.uk/get-advice/advice-near-you/anglesey/

**Llinell Ddyled Genedlaethol**

Gwasanaeth dros y ffôn yw hwn ac mae'n llinell gymorth genedlaethol i bobl gyda phroblemau gyda dyled yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Byddant yn trafod problemau ynghylch dyled gyda chi ac yn egluro'r dewisiadau sydd gennych. Am fwy o fanylion ewch ar eu gwefan: www.nationaldebtline.co.uk, eu ffonio ar 0808 808 4000 neu sgwrs ar y we hefo cynghorydd. Fe'u lleolir yn National Debtline, Tricorn House, 51-53 Hagley Road, Edgbaston, Birmingham. B16 8TP.

**Payplan**

Mae Payplan yn rhoi gwasanaeth cynghori ar ddyledion a'u rheoli yn rhad ac am ddim. Am fwy o fanylion: ewch i'w gwefan www.payplan.com, eu ffonio ar 0800 278 6944 neu ysgrifennu atynt yn: Payplan Ltd, Kempton House, Dysart Road, Grantham, NG31 7LE.

**Insolvencyhelpline.co.uk**

Gwasanaeth cynghori dielw ar ddyledion yw hwn sy'n rhoi cyngor ar ddyledion a sut i'w rheoli. Am fwy o fanylion: ewch i'w gwefan https://www.gov.uk/the-insolvency-service, e-bostio - insolvency.enquiryline@insolvency.gsi.gov.uk neu eu ffonio ar 0300 6780015.

**Gwasanaethau a Gwybodaeth y Llywodraeth – Arian a Threth**

Mae gwasanaeth gwybodaeth Llywodraeth y DU yn rhoi cyngor ar faterion ariannol a threth sy'n cynnwys cyngor ar yr hyn i'w wneud os byddwch yn cael, er enghraifft, alwad gan asiantaeth gorfodi (a elwir yn flaenorol yn feilīaid), dyfarniad Llys Sirol neu opsiynau i dalu eich dyledion. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar – https://www.gov.uk/browse/tax/court-claims-debt-bankruptcy.

**Age Concern**

Mae Age Concern yn rhoi gwybodaeth am incwm a budd-daliadau i bobl hŷn. Am fwy o fanylion: ewch i'w gwefan www.ageuk.org.uk/cymru, eu ffonio ar 0800 223 444 neu ysgrifennu atynt yn: Age Concern Cymru, Tŷ John Pathy, 13/14 Neptune Court, Vanguard Way, Caerdydd, CF24 5PJ.

**The Money Charity**

Mae The Money Charity yn rhoi gwybodaeth ac arweiniad i bobl sy'n pryderu am ddyledion neu arian. Am fwy o fanylion: ewch ar eu gwefan www.themoneycharity.org.uk, e-bostio hello@themoneycharity.org.uk, eu ffonio ar 0207 7062 8933 neu ysgrifennu atynt yn: The Money Charity, 15 Prescott Place, Llundain, SW4 6BS.

**Advice UK**

Elusen gofrestredig yw Advice UK a hi yw’r rhwydwaith cefnogi mwyaf yn y DU ar gyfer canolfannau cynghori annibynnol sy’n rhad ac am ddim. Am fwy o fanylion: ewch ar eu gwefan www.adviceuk.org.uk, eu ffonio ar 0300 777 0107 neu ysgrifennu atynt yn: Advice UK, 101E Universal House, 88-94 Wentworth Avenue, Llundain, E1 7SA.

## CÔD YMDDYGIAD – Arweiniad ar Achosion Bregus

### Gall diffinio bregusrwydd fod yn anodd

Ym mis Ebrill 2014, cyhoeddodd y **Weinyddiaeth Gyfiawnder** "Cymryd Rheolaeth o Nwyddau: Safonau Cenedlaethol". Bwriedir i'r safonau hyn gael eu defnyddio gan bob asiant gorfodi, cyhoeddus a phreifat, yr asiantaethau gorfodi sy'n eu cyflogi hwy a'r prif gredydwyr sy'n defnyddio eu gwasanaethau e.e. awdurdodau lleol.

Nid yw'r canllawiau cenedlaethol hyn yn disodli cytundebau lleol, codau ymarfer neu ddeddfwriaeth presennol yr asiantaethau; yn hytrach, mae'n nodi'r hyn y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, y rhai yn y diwydiant a rhai defnyddwyr mawr yn eu hystyried yn safonau sylfaenol. Cydnabyddir nad yw'r ddogfen hon yn creu rhwymedigaeth gyfreithiol, ond fe'i cynigiwyd fel offeryn defnyddiol i'r diwydiant ac i gredydwyr, y gobeithir, y bydd yn llywio eu trefniadau eu hunain ac y gallant feincnodi eu safonau proffesiynol yn eu herbyn.

Mae'r safonau hyn yn gosod rhwymedigaethau ar gredydwyr mewn perthynas â phriodoldeb atgyfeiriad gorfodi ac wrth rybuddio asiantaethau orfodi o fregusrwydd, bod â phrotocolau cytûn mewn lle ac, fel credydwr, bod yn barod i gymryd rheolaeth yn ôl gan yr asiant gorfodi. Mae'r Safonau Cenedlaethol yn rhestru (er nad yw'n rhestr gynhwysfawr) pobl y gellir ystyried eu bod yn fregus -

- Pobl hŷn;
- Pobl anabl;
- Salwch meddyliol;
- Pobl sy'n ddifrifol wael;
- Pobl sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar;
- Teuluoedd un rhiant;
- Merched beichiog;
- Pobl ddi-waith;
- Pobl sy'n cael anhawster amlwg i ddeall, siarad neu ddarllen Saesneg.

Mae'r safonau hyn hefyd yn gosod rhwymedigaethau ar asiantau gorfodi i rybuddio credydwyr am unigolion bregus a nodwyd a gweithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth, mae asiantau gorfodi hefyd wedi'u hyfforddi i adnabod unigolion bregus ac i wybod pryd i dynnu'n ôl ac maent yn gallu defnyddio eu disgresiwn yn y cyswllt hwnnw.

Mae Rheoliadau Cymryd Rheolaeth o Nwyddau (Ffioedd) 2014 hefyd yn nodi lle y mae'r dyledwr yn berson sy'n fregus, na ellir adennill y ffi neu'r ffioedd a ddisgwylir ar gyfer y cam gorfodi **oni fydd** yr asiant gorfodi, **cyn symud ymlaen i symud nwyddau** a gymerwyd i reolaeth, wedi rhoi cyfle digonol i'r dyledwr gael cymorth a chyngor mewn perthynas ag arfer y pŵer gorfodi.

Mae Rheoliadau Cymryd Rheolaeth o Nwyddau 2013 yn diffinio person anabl fel person –

**a)** Sydd â nam sylweddol ar ei olwg, clyw neu leferydd;
**b)** Sydd ag anhwylder meddyliol;
**c)** Sy'n cael eu analluogi'n gorfforol yn sylweddol gan unrhyw salwch neu unrhyw amhariad sy'n bresennol ers ei eni, neu fel arall.

Mae'r **Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA)** yn disgwyl i gwmnïau a sefydliadau ymarfer gofal ychwanegol lle gall defnyddwyr fod yn fregus, er bod yr FCA yn cydnabod y gallai fod yn anodd i gwmnïau a sefydliadau nodi pa mor fregus ydynt mewn rhai achosion.

Mae cwmnïau a sefydliadau yn disgwyl i ddefnyddwyr gymryd cyfrifoldeb rhesymol am eu dewisiadau a'u penderfyniadau. Fodd bynnag, bydd yr union lefel o resymoldeb yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Dylai defnyddiwr sydd wedi cymryd cyngor a reoleiddir fod yn gallu dibynnu ei fod yn briodol ond, fel y crybwyllwyd uchod, dylid cymryd gofal ychwanegol gyda defnyddwyr sy'n fregus ddim yn cydnabod eu bod yn profi anawsterau a/neu eu bod yn amharod i drafod materion personol.

Mae'r FCA, yn ei ddatganiad cenhadaeth “Our Future Approach to Consumers” 2017, yn cydnabod bod yn rhaid iddynt reoleiddio hefyd ar gyfer defnyddwyr go iawn ac nid y defnyddiwr "delfrydol" yn unig. Cyn penderfynu beth sy'n gwneud i ddefnyddiwr fod yn fregus, bydd yn fuddiol disgrifio'r hyn yw defnyddiwr "delfrydol". Dywed yr FCA –

**“Byddai’r defnyddiwr ‘delfrydol’ bob amser yn ymddwyn yn rhesymegol, gan olygu y byddai’n cymryd cyfrifoldeb brwd yn eu cynnyrch gwasanaethau ariannol ac yn darllen y print mân yn llawn bob amser. Byddent yn newid pan fyddai eu hymchwil yn dangos nad oeddent yn derbyn y fargen orau bosib a byddent yn gallu gwneud cyfrifiadau a’r cyfnewidiadau cymhleth er mwyn deall a chymharu gwerth cynhyrchion. Byddent yn blaenoriaethu ymchwilio i’r bargeinion gorau ac yn gweithredu ar eu canfyddiadau er mwyn gwobrwyo cwmnïau cystadleuol gyda’u busnes.”** Maent yn mynd ymlaen i ddweud -

**“Mae ein harolwg Bywydau Ariannol 2017 yn dangos mai ychydig iawn o ddefnyddwyr sy'n 'ddelfrydol'. Mae lefelau isel o allu ariannol, cadernid ariannol a hyder yn eu gallu i wneud penderfyniadau ariannol, ynghyd â thueddiadau ymddygiadol, yn ei gwneud yn anodd i gwmnïau ddisgwyl i ddefnyddwyr gymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd bob amser. "**

Dangosodd eu harolwg hefyd fod 50% o ddefnyddwyr yn dangos nodweddion o natur fregus ond nad yw niwed posibl o reidrwydd yn datblygu'n niwed gwirioneddol i'r rhan fwyaf ohonynt. Mae hyn yn golygu, i'r Awdurdod hwn, o gasgliadau'r FCA, bod angen cydbwysedd gofalus rhyngddo ef a chydranddeiliaid ehangach i sicrhau ymagwedd gytbwys at y materion hyn fel bod defnyddwyr bregus nid yn unig yn cael cymorth a gwarchodaeth ond hefyd yn gallu cymryd rhan yn yr un marchnadoedd â phawb arall h.y. nid yw'r ffaith bod defnyddiwr yn cael ei ystyried yn 'fregus' yn esgus i beidio talu’r ddyled sy’n ddyledus ond bod gofal ychwanegol yn cael ei ymarfer wrth gasglu dyledion pan fernir bod defnyddiwr yn fregus a bod y defnyddiwr yn cael cyngor ynglŷn â dyledion, yn arbennig o safbwynt blaenoriaethu gwahanol fathau o ddyledion.

Yn ogystal â’r rhestr a ddarparwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, mae diffiniad cyffredinol yr FCA o gwsmeriaid bregus yn arbennig o ddefnyddiol. Maent yn diffinio cwsmeriaid bregus fel –

- **“pobl y gellir eu hadnabod yn rhwydd fel rhai sydd yn sylweddol llai abl i ymgysylltu â’r farchnad; a/neu**
- **pobl sy’n dioddef yn anghyfartal os yw pethau’n mynd o chwith.”**

Mae'r FCA yn mynd ymlaen i rannu'r hyn sy'n achosi bregusrwydd yn 4 categori –

1. **Iechyd.** Yn Arolwg o Fywydau Ariannol 2017 yr FCA, roedd 5% o oedolion y DU yn perthyn i'r categori hwn, gan nodi bod eu gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'i leihau'n sylweddol oherwydd salwch.

2. **Gwydnwch.** Nodwyd bod 30% o oedolion y DU â gwydnwch ariannol isel yn seiliedig ar eu hymatebion eu hunain i'r arolwg. Mae defnyddwyr yn y categori hwn yn agored i gynnydd tebygol mewn cyfraddau llog, trethiant a phrisiau neu newid bach yn eu hamgylchiadau e.e. byddai defnyddiwr yn cael trafferth talu ei forgais pe bai'n cynyddu llai na £50 y mis.

3. **Digwyddiadau bywyd.** Mae'r rhain fel arfer yn ddigwyddiadau mawr sydd wedi digwydd yn ystod y 12 mis diwethaf, megis ysgariad, colli swydd neu farwolaeth aelod agos o'r teulu. Digwyddodd digwyddiad o'r fath, yn ôl arolwg yr FCA, i 19% o oedolion y DU neu eu partner.

4. **Gallu.** Diffinnir hyn fel gwybodaeth isel iawn am faterion ariannol neu ddiffyg hyder wrth reoli eu harian. Nodwyd bod gan 17% o bobl allu isel.

Efallai y bydd defnyddwyr a allai fod yn fregus gallu 'ymdopi ' os ydynt yn dioddef o un achos, ond efallai y byddant yn fwy agored i niwed os byddant yn dioddef mwy nag un achos ar yr un pryd. Mae ymchwil yr FCA ei hun wedi nodi bod cymaint â 2.2 miliwn o ddefnyddwyr mewn perygl o gael mwy o niwed gan siociau ariannol a hefyd wedi profi digwyddiad bywyd yn ystod y 12 mis diwethaf.

Gall pob defnyddiwr fod yn fregus ar ryw adeg yn eu bywyd, er enghraifft drwy salwch difrifol neu brofedigaeth. Mae'r FCA yn disgwyl i gwmnïau a sefydliadau orfod talu sylw i arwyddion posibl o fregusrwydd a fod ganddynt bolisïau ar waith i ddelio â defnyddwyr a allai fod mewn mwy o berygl o niwed.

Bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r canlynol fel dangosyddion ynglŷn â bregusrwydd at ddibenion casglu dyledion –

- **Yr angen am ofal a chefnogaeth**: defnyddwyr sydd angen gofal a chymorth corfforol, emosiynol neu seicolegol;
- **Mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, methu ag amddiffyn eu hunain rhag cael eu hecsbloetio**: defnyddwyr a all fod dan reolaeth seicolegol trydydd parti, lle mae eu rhyddid i symud wedi ei gymryd oddi wrthynt, neu lle maent yn cael eu cywilyddio, eu beio neu eu brawychu;
- **Eisoes yn byw mewn llety heblaw am lety anghenion cyffredinol megis llety gwarchod, gofal ychwanegol a llety gofal tymor hir;**
- **Eisoes yn derbyn gofal yn y cartref neu ofal iechyd ategol;**
- **Yn dioddef o broblemau iechyd corfforol neu iechyd meddyliol rhagnodedig;**
- **Angen cymorth i ymdrin â'u busnes;**
- **Sgiliau cyfathrebu isel:** methu cyfathrebu, ynganiad gwael, sgiliau mynegiannol cyfyngedig, dyfeisiau cynorthwyol, anawsterau iaith;

- **Tlodi:** lle mae tlodi yn cyfyngu neu'n atal mynediad at ddyfeisiau cynorthwyol neu byw mewn amgylchedd diogel neu rhoi blaenoriaethu i ddyledion o flaen anghenion dynol neu beidio â gwresogi'r tŷ neu beidio â bwyta'n iawn;

- **Unigedd cymdeithasol:** gall hyn greu teimlad o anallu, amharodrwydd i ofyn am gyngor, ofn cael eu gwrthod, diffyg hunan barch, amheus o realiti a phryder.

**Yn gyffredinol, bydd yr Awdurdod yn ystyried fod person yn fregus at ddibenion casglu dyledion, petai'n afresymol disgwyl i'r person hwnnw/honno allu delio gyda phroblem y ddyled ar eu pen eu hunain.**

Gan fod yr Awdurdod yn defnyddio asiantau gorfodi a/neu gasglwyr dyledion mewnol ac allanol, rhaid cynnwys manylebau dyletswydd cydraddoldeb anabledd mewn unrhyw gytundebau caffael. Mae asiantau gorfodi neu gasglwyr dyledion, pan fyddant yn gweithredu ar ran awdurdod lleol, yn cymryd arnynt rôl y corff cyhoeddus a rhaid iddynt gydymffurfio â'r holl reolau côd ymddygiad perthnasol.

**Beth fyddai'r Awdurdod wedyn yn ei ystyried yn ddefnyddiwr sy'n fregus at ddibenion adennill dyledion?**

Ar y dechrau bydd yn rhaid i'r Awdurdod lunio barn ar beth yw ei ddisgwyliadau rhesymol ar gyfer ei ddefnyddwyr mewn perthynas â thalu'r ddyled sy'n ddyledus i'r Awdurdod a hefyd dangos bod penderfyniadau ynghylch adennill dyledion yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o'r defnyddwyr sy'n defnyddio ac yn talu am eu gwasanaethau. Er enghraifft, o ran y Dreth Gyngor, byddai trethdalwr 'delfrydol' yn rhoi gwybod i'r Awdurdod am atebolrwydd mewn eiddo o fewn cyfnod rhesymol (llai na mis fel arfer) o symud i mewn ac yn rhoi gwybodaeth am y bobl sy'n byw yno sydd dros 18 oed. Byddent yn sicrhau y gwneir cais am yr holl ddisgowntiau, eithriadau neu diystyriadau mewn amser rhesymol ac yn penderfynu a allent fod yn gymwys, yn seiliedig ar eu hincwm, i dderbyn Gostyngiad yn y Dreth Gyngor.

Byddai'r trethdalwr wedyn yn dewis y dull talu dewisol, drwy Ddebyd Uniongyrchol o ddewis, ac yna'n gwneud taliadau yn unol â'r rhandaliadau statudol y cytunwyd arnynt. Byddai'r trethdalwr yn cysylltu â'r Awdurdod i ddewis talu dros 12 mis. Byddai'r trethdalwr wedyn, o fewn amser rhesymol (o fewn 1 mis fel arfer), yn rhoi gwybod am unrhyw newidiadau yn eu hatebolrwydd ac yn talu yn unol â'r bil diwygiedig.

O ystyried Safonau Cenedlaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, adroddiadau'r FCA a sylfaen defnyddwyr yr Awdurdod ei hun, mae'r Awdurdod wedi penderfynu y dylid cymryd gofal a disgresiwn wrth ymdrin â phersonau sy'n perthyn i'r grwpiau canlynol y gellir ystyried eu bod yn fregus at ddibenion y Côd Ymarfer hwn mewn perthynas â chasglu dyledion sy'n ddyledus i'r Awdurdod. Pan geir yr amgylchiadau canlynol, amlinellir y dull a ddisgwylir gan yr Awdurdod isod:-

**Pobl Hŷn**

Nid yw unigolyn hŷn, o reidrwydd, yn fregus, ac mae nifer fawr o bobl hŷn yn ariannol gadarn ac yn feddyliol a chorfforol iach. Fodd bynnag, mae rhai pobl hŷn yn fusgrell, yn ddryslyd, yn sâl ac yn byw ar incwm sefydlog a chyfyngedig ac, felly, cânt eu hystyried yn fregus.

Wrth adennill dyled, os yw'n amlwg fod y dyledwr yn perthyn i un o'r categorïau uchod, dylai staff gysylltu â'u rheolwr llinell ynghylch y ffordd orau i fwrw ymlaen ac, o ran swyddogion gorfodi'r Awdurdod, ni ddylid gwneud unrhyw ymdrech i atafaelu neu fynd â nwyddau oddi yno heb, yn gyntaf, ymgynghori gyda'r Awdurdod a dylai casglwyr dyledion yr Awdurdod gysylltu â'r Awdurdod am gyngor.

**Pobl Anabl**

Nid yw unigolyn ag anabledd, o reidrwydd, yn fregus at bwrpas y Côd Ymddygiad yma. Fodd bynnag, pan fo'r anabledd yn cael effaith ar allu'r unigolyn i ymdrin â'i faterion ariannol, dylid ei ystyried yn fregus.

Pan fo aelod o staff yn credu bod anabledd y dyledwr yn cael effaith ar allu'r unigolyn i ymdrin â materion ariannol, dylid ceisio arweiniad gan ei reolwr llinell. Waeth pa mor ddifrifol yw'r anabledd, ni ddylai swyddog gorfodi'r Awdurdod fyth atafaelu eiddo sy'n angenrheidiol i les yr unigolyn oherwydd ei anabledd. Os yw'n amlwg bod gan y dyledwr anabledd sy'n waeth nag anabledd eithaf bychan, ni ddylid gwneud dim heb gysylltu â'r Awdurdod. Dylai casglwyr dyledion yr Awdurdod hefyd gysylltu â'r Awdurdod dan amgylchiadau o'r fath.

**Pobl â Nam Meddyliol neu Anawsterau Dysgu**

Os yw'n amlwg bod gan y dyledwr nam meddyliol neu anawsterau dysgu, dylid ystyried ei fod yn fregus ac ni ddylid gwneud dim heb gysylltu â'ch rheolwr llinell neu, o ran asiantaethau allanol, yr Awdurdod.

**Pobl sydd â Salwch Difrifol, gan gynnwys Salwch Meddyliol**

Pan ymddengys fod y dyledwr (neu bartner y dyledwr) yn dioddef o unrhyw gyflwr sy'n ddifrifol neu'n bygwth bywyd, gellid ei ystyried yn fregus. Ni ddylid gwneud dim os yw'r dyledwr (neu bartner y dyledwr) yn dioddef o unrhyw gyflwr sy'n ddifrifol neu'n bygwth bywyd neu os yw aelod o staff, asiant gorfodi neu gasglwr dyledion yr Awdurdod yn bryderus y gallai cymryd camau pellach gael effaith hynod andwyol ar les yr unigolyn.

**Unigolyn sydd newydd gael Profedigaeth**

Gellid ystyried person sydd newydd golli perthynas agos ei ystyried yn unigolyn bregus.

Mae profedigaeth yn cael effaith wahanol ar bobl wahanol a bydd raid i aelodau o staff, asiantau gorfodi a chasglwyr dyledion fod yn ddoeth wrth benderfynu a yw'r unigolyn sydd newydd gael profedigaeth yn fregus yn seiliedig ar yr amgylchiadau unigol. Pan fo'r dyledwr (neu bartner y dyledwr) yn amlwg yn parhau i fod mewn galar mawr, dylai'r aelod o staff, swyddog gorfodi neu gasglwr dyledion yr Awdurdod geisio arweiniad gan reolwr llinell neu'r Awdurdod cyn gwneud dim, er bod cryn amser, o bosib, wedi pasio.

**Rhieni Sengl**

Nid yw rhiant sengl, o reidrwydd, yn unigolyn bregus a chydnabu bod rhai rhieni sengl yn ariannol gadarn. Fodd bynnag, efallai bod rhieni sengl, ac yn enwedig rhai gyda phlant mân, yn cael anhawster cael gwaith ac, felly, yn dibynnu ar Fudd-daliadau Lles. Dylai aelod o staff, asiant gofodi neu gasglwr dyledion yr Awdurdod, fod yn ddoeth ac ymgynghori â rheolwr llinell neu â'r Awdurdod cyn gwneud dim os credir y gall rhiant sengl fod yn fregus.

**Beichiogrwydd**

Gall dynes sydd yng nghyfnod hwyr beichiogrwydd brofi straen wrth ymdrin â materion ariannol, yn enwedig felly os nad oes ganddi gefnogaeth partner, neu os ydyw ar incwm isel neu fudd-daliadau. Gallai hyn waethygu gyda gwariant hanfodol ychwanegol oherwydd y beichiogrwydd neu enedigaeth plentyn.

Os yw'n amlwg bod dyledwr neu bartner dyledwr yn feichiog, dylai'r aelod o staff, swyddog gorfodi neu gasglwr dyledion yr Awdurdod gymryd gofal nad ydynt yn peri straen gan y gallai hyn gael effaith andwyol ar les yr unigolyn. Pan fo'r aelod o staff, swyddog gorfodi neu gasglwr dyledion yr Awdurdod yn bryderus y gallai cymryd camau pellach gael effaith andwyol ar les yr unigolyn, dylent geisio mwy o gyngor gan eu rheolwr llinell neu gan yr Awdurdod.

**Pobl sy'n cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith (seiliedig ar Incwm), Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (seiliedig ar Incwm) neu Gredyd Pensiwn (neu pan wnaed cais am fudd-dal o'r fath a dim penderfyniad wedi'i wneud yn ei gylch hyd yn hyn)**

Mae'r rhai hynny sy'n cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Gredyd Pensiwn yn byw ar fudd-dal lefel cynhaliaeth.

Dylai aelod o staff yr Awdurdod geisio dulliau eraill o adennill dyledion sydd ar gael cyn rhoi cyfarwyddiadau i swyddog gorfodi neu gasglwr dyledion yr Awdurdod.

Fel arfer, dylai swyddog gorfodi'r Awdurdod adael yn awtomatig pan fo dyledwr yn dangos tystiolaeth ei fod yn cael Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith a rhoi gwybod i'r Awdurdod yn syth gan fod gan yr Awdurdod ffyrdd eraill o adennill dyledion (e.e. atafaelu budd-daliadau). Os digwydd hyn, dylid dychwelyd y Gorchymyn Atebolrwydd i'r Awdurdod. Os yw'n ymddangos i'r swyddog gorfodi'r Awdurdod bod y dyledwr, o bosib, yn hawlio budd-dal trwy dwyll, dylai swyddog gorfodi'r Awdurdod gysylltu â'r Awdurdod a nodi ei bryderon cyn cymryd camau. Os yw'r dyledwr yn disgwyl clywed canlyniad ei gais am fudd-dal, dylai swyddog gorfodi'r Awdurdod gysylltu â'r Awdurdod cyn gwneud dim.

Mewn rhai amgylchiadau, gall yr Awdurdod ofyn i swyddog gorfodi'r Awdurdod gymryd camau gorfodaeth, er enghraifft os yw'r swm a allai gael ei dynnu o'r budd-daliadau'n llai na'r ddyled sy'n cronni. Mewn achosion o'r fath, bydd yr Awdurdod yn rhoi cyfarwyddiadau clir i'w gwmni gorfodi.

Gall casglwr dyledion yr Awdurdod ddychwelyd y ddyled i'r Awdurdod os cred y casglwr dyledion nad oes fawr ddim gobaith neu ddim gobaith o gwbl o adennill y ddyled, o gofio amgylchiadau'r unigolyn.

**Pobl ddi-waith**

Nid yw diweithdra'n golygu'n awtomatig bod y dyledwr yn fregus. Er enghraifft, efallai bod yr unigolyn wedi cael taliad diswyddo sylweddol a'i fod yn ariannol gadarn yn y tymor byr. Fodd bynnag, gallai colli gwaith arwain at anawsterau ariannol difrifol os yw unigolyn, yn sydyn, yn methu cwrdd â'i ymrwymiadau ariannol.

Efallai nad yw unigolyn sydd newydd golli ei waith ar ôl cyfnod hir o gyflogaeth yn gyfarwydd gyda'r broses o hawlio budd-daliadau ac efallai y bydd arno angen cymorth ychwanegol i ddeall yr hyn y mae ganddo hawl iddo.

Os yw'n amlwg o'r hyn y mae'r aelod o staff, swyddog gorfodi neu gasglwr dyledion yr Awdurdod yn ei weld o sefyllfa'r dyledwr, y gallai'r dyledwr fod yn fregus, ni ddylid cymryd camau heb ymgynghori â rheolwr llinell neu â'r Awdurdod.

**Unigolyn sydd ag anhawster deall Cymraeg neu Saesneg**

Pan nad yw unigolyn yn deall na Chymraeg na Saesneg llafar nac ysgrifenedig, dylid ystyried ei fod yn fregus, yn enwedig felly os nad oes ganddo gefnogaeth gan aelodau o'r teulu sy'n gallu siarad a darllen Cymraeg neu Saesneg.

Pan fo gan aelod o staff, swyddog gorfodi neu gasglwr dyledion yr Awdurdod le i gredu bod gan unigolyn, o bosib, anhawster deall Cymraeg neu Saesneg, dylid nodi hyn wrth y rheolwr llinell neu'r Awdurdod a fydd yn rhoi cyngor ar sut i weithredu.

**Unigolion dan 18 mlwydd oed**

Mae'n annhebygol y bydd arno unigolyn dan 18 mlwydd oed unrhyw arian i'r Awdurdod. Fodd bynnag, mae'n bosib bod unigolyn yn cynorthwyo neu'n gofalu am riant neu unigolyn hŷn arall a gall gysylltu â'r Awdurdod ar ei ran. Efallai mai unigolyn dan 18 mlwydd oed yw'r unig un gartref pan fyddir yn ymweld. Dylid ystyried yn syth bod unrhyw un dan 18 mlwydd oed yn fregus.

**Unigolyn sy'n cael trafferth darllen neu ysgrifennu**

Fel arfer, dylid ystyried unigolyn sy'n cael trafferth darllen neu ysgrifennu yn fregus oherwydd y bydd yn cael trafferth darllen rhybuddion ysgrifenedig. Yn aml, mae unigolyn sy'n cael trafferth darllen neu ysgrifennu'n gyndyn o ddatgelu'r anhawster, a phan fo pryderon bod gan unigolyn anawsterau o'r fath, dylid bod yn sensitif wrth roi sylw i'r mater.

Pan fo gan aelod o staff, swyddog gorfodi neu gasglwr dyledion yr Awdurdod le i gredu bod unigolyn, o bosib, yn cael anhawster darllen neu ysgrifennu, dylid nodi hyn wrth y rheolwr llinell neu'r Awdurdod a fydd yn rhoi cyngor ar sut i weithredu.

**Achosion lle byddai lles plant mewn perygl**

Os yw’n ymddangos i’r aelod o staff, swyddog gorfodi neu gasglwr dyledion yr Awdurdod y gallai lles plant fod mewn perygl oherwydd camau y byddai’r Awdurdod yn eu cymryd, neu os oes gan yr aelod o staff, swyddog gorfodi neu gasglwr dyledion yr Awdurdod le i fod yn bryderus ynghylch lles neu diogelwch plentyn, dylid nodi’r pryderon wrth yr Awdurdod yn syth a bydd yn rhoi cyngor ar sut i weithredu.

**Pobl y mae eu priodas newydd chwalu**

Os yw’n amlwg i’r aelod o staff, swyddog gorfodi neu gasglwr dyledion yr Awdurdod nad yw dyled yn cael ei thalu oherwydd bod priodas newydd chwalu, dylai’r aelod o staff, swyddog gorfodi neu gasglwr dyledion yr Awdurdod ymgynghori â’r rheolwr llinell neu â’r Awdurdod.

**Colli swyddi o bosib**

Mewn unrhyw achos lle ceir tystiolaeth y gellid colli gwaith wrth beidio â thalu dyled neu fynd â nwyddau o’r eiddo, rhaid i’r aelod o staff, swyddog gorfodi neu gasglwr dyledion yr Awdurdod ymgynghori â’r rheolwr llinell neu â’r Awdurdod cyn cymryd camau gorfodi i adennill y ddyled neu fynd â nwyddau o’r eiddo.

**Amgylchiadau Anarferol Eraill**

Os daw’r aelod o staff, swyddog gorfodi neu gasglwr dyledion yr Awdurdod ar draws amgylchiadau anarferol nad ymdrinnir â nhw dan y categorïau uchod, ni ddylai’r aelod o staff, swyddog gorfodi neu gasglwr dyledion yr Awdurdod wneud dim heb ymgynghori â’r rheolwr llinell neu â’r Awdurdod.

## Incwm & Gwariant / *Income & Expenditure*

**Rhowch yr <u>HOLL</u> ffigyrau fel symiau wythnosol <u>NEU</u> symiau mis calendr**
***Please give <u>ALL</u> figures as either weekly <u>OR</u> calendar monthly amounts***

Enw / *Name*: ……………………………..…………………...……………

Rhif Cyf / *Ref No:* ………..………………………...........

Cyfeiriad / *Address*:

…..………………………………………………………………………………………………

……………………….…………………..…………

Côd post / *Post Code:* …………………...

| WYTHNOSOL / MISOL* (*Dileu fel sy'n briodol) | Incwm / *Income* £ | p | *WEEKLY / MONTHLY** *(*Delete as appropriate)* |
|---|---|---|---|
| Eich enillion | - | | *Your earnings* |
| Enillion eich partner | - | | *Partner's earnings* |
| Cyfraniadau rhai nad yw'n ddibynnol | - | | *Non-dependent contributions* |
| Credyd Cynhwysol | - | | *Universal Credit* |
| Cymhorthdal Incwm | - | | *Income Support* |
| Budd-dal Tai | - | | *Housing Benefit* |
| Lwfans ceisio gwaith | - | | *Jobseeker's Allowance* |
| Budd-dal analluogrwydd | - | | *Incapacity Benefit* |
| Tâl salwch statudol | - | | *Statutory Sick Pay* |
| Credyd treth gwaith | - | | *Working Tax Credit* |
| Credyd treth plant | - | | *Child Tax Credit* |
| Budd-dal plant | - | | *Child Benefit* |
| Tâl Cynnal a dderbynnir | - | | *Maintenance received* |
| Lwfans Byw Anabledd | - | | *Disability Living Allowance* |
| Budd-dal arall 1: ……..………………………… | - | | *Other benefit 1:* ………………………..……. |
| Budd-dal arall 2: ……..………………………… | - | | *Other benefit 2:* …………………..………… |
| Ffi llety | - | | *Lodging fee* |
| Arall 1: ……..……………………..………… | - | | *Other 1:* ……..……………………..………… |
| Arall 2: ……..……………………..………… | - | | *Other 2:* ……..……………………..………… |
| **CYFANSWM INCWM** | **A** - | **A** | ***TOTAL INCOME*** |

| | Gwariant/*Outgoings* | | |
|---|---|---|---|
| | **£** | **p** | |
| Rhent | - | | *Rent* |
| Morgais/benthyciadau a sicrhawyd | - | | *Mortgage / secured loans* |
| Rhent tir / tâl gwasanaeth | - | | *Ground rent / service charge* |
| Dreth Gyngor | - | | *Council Tax* |
| Treth dŵr | - | | *Water rates* |
| Trydan | - | | *Electricity* |
| Nwy | - | | *Gas* |
| Olew / tanwydd arall | - | | *Oil / other fuel* |
| Cynnal a chadw | - | | *Maintenance* |
| Dirwyon Ynadon | - | | *Magistrates fines* |
| Yswiriant bywyd | - | | *Life assurances* |
| Yswiriant adeiladau | - | | *Buildings insurance* |
| Yswiriant cynnwys | - | | *Contents insurance* |
| Yswiriant iechyd | - | | *Health insurance* |
| Iechyd (e.e. deintydd, profion llygaid) | - | | *Health (e.g. dentists, eye tests)* |
| Ffôn | - | | *Telephone* |
| Trwydded deledu | - | | *Television licence* |
| Treth car | - | | *Car tax* |
| Yswiriant car | - | | *Car insurance* |
| Car, MOT, trin ac atgyweirio | - | | *Car MOT, service & repairs* |
| Petrol | - | | *Petrol* |
| Costau teithio eraill | - | | *Other travelling expenses* |
| Dillad ac esgidiau | - | | *Clothes & shoes* |
| Bwyd a chadw tŷ | - | | *Food & housekeeping* |
| Bwyd anifeiliaid anwes | - | | *Pet food* |
| Yswiriant Anifeiliaid anwes / biliau Milfeddyg | - | | *Pet insurance / veterinary bills* |
| Deunydd glanhau a phethau ymolchi | - | | *Cleaning materials & toiletries* |
| Prydau ysgol | - | | *School meals* |
| Tripiau ysgol | - | | *School trips* |
| Gofal / Gwarchod plant | - | | *Childcare / child-minding* |
| Arian poced plant | - | | *Children's pocket money* |
| Eitemau cartref (trwsio ayyb.) | - | | *Household items (repairs etc.)* |
| Papurau newydd a chylchgronau | - | | *Newspapers & magazines* |
| Mynd allan / adloniant | - | | *Going out / entertainment* |
| Alcohol/sigaréts/melysion | - | | *Alcohol / cigarettes / sweets* |
| Arall 1: …………………………..………… | - | | *Other 1: …………………………..……………* |
| Arall 2: ………………....……………… | - | | *Other 2: …………………………..……………* |
| **CYFANSWM GWARIANT** | **B** - **B** | | ***TOTAL OUTGOINGS*** |

| ARIAN AR ÔL YN DILYN GWARIANT WYTHNOSOL / MISOL (ar gael ar gyfer credydwyr â blaenoriaeth) | A – B = C | MONEY LEFT AFTER WEEKLY / MONTHLY SPEND (available for priority creditors) |
|---|---|---|
| | C - C | |

| | Dyledion â blaenoriaeth / *Priority Debts* £ p | |
|---|---|---|
| Ôl-ddyledion rhent | - | *Rent Arrears* |
| Ôl-ddyledion morgais | - | *Mortgage arrears* |
| Ôl-ddyledion benthyciadau a sicrhawyd | - | *Secured loan arrears* |
| Ôl-ddyledion Dreth Gyngor | - | *Council Tax arrears* |
| Ôl-ddyledion nwy | - | *Gas arrears* |
| Ôl-ddyledion trydan | - | *Electricity arrears* |
| Dirwyon | - | *Fines* |
| Dyfarniadau Llys Sirol | - | *County Court judgments* |
| Ôl-ddyledion tâl cynnal | - | *Maintenance arrears* |
| Treth / Yswiriant gwladol (dim PAYE) | - | *Tax / National insurance (non-PAYE)* |
| Arall: ……………………………… | - | *Other: ………………………………* |
| **CYFANSWM DYLEDION Â BLAENORIAETH** | D - D | ***TOTAL PRIORITY DEBTS*** |

| **ARIAN AR ÔL (os o gwbl) ar gyfer credydwyr sydd ddim yn cael blaenoriaeth** | C – D = E | ***TOTAL MONEY LEFT (if any) for non-priority creditors*** |
|---|---|---|
| | E E | |

| | Dyledion sydd ddim yn cael blaenoriaeth / *Non-priority Debts* £ p | |
|---|---|---|
| Cardiau credyd | - | *Credit cars* |
| Catalogau | - | *Catalogues* |
| Benthyciadau dydd tâl/rhyngrwyd | - | *Pay day / internet loans* |
| Cardiau siopau | - | *Store cards* |
| Credydwr arall 1: ……………………………… | - | *Other creditor 1: ………………………………* |
| Credydwr arall 2: ……………………………… | - | *Other creditor 2: ………………………………* |
| Credydwr arall 3: ……………………………… | - | *Other creditor 3: ………………………………* |
| **CYFANSWM DYLEDION SYDD DDIM YN CAEL BLAENORIAETH** | - | ***TOTAL NON-PRIORITY DEBTS*** |

Ticiwch **UN** o'r blychau isod ☑ *Please tick* ***ONE*** *of the boxes below:*

☐ Mae hwn yn gofnod cywir o fy sefyllfa ariannol ar / / 20
*This is a true record of my financial situation on:*

**NEU** / ***OR***

☐ Mae hwn yn amcangyfrif cywir o beth fyddai fy sefyllfa ariannol, pe bawn yn symud i:

*This is a true estimate of what my financial situation shall be, if I were to take up occupation of:*

……………………………………………………………………………………………………
(cyfeiriad / address)

**Llofnodi /** ***Signed:*** ……………………………………………………………………….

# Cyngor Sir Ynys Môn - Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb

**Hanes adolygu**:

| Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 0.1 | 28 Mai 2019 | |
| | | |
| | | |

**Cam 1: Y Cefndir**

| | |
|---|---|
| **1 - Beth sy'n cael ei asesu?** | Polisi Corfforaethol ar gyfer Adennill Dyledion (Polisi) |
| **2 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes?** | Newydd |
| **3 - Beth yw nodau a phwrpas y cynnig yma?** | Mae'r Polisi'n manylu ar yr egwyddorion y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn ei fabwysiadu wrth gasglu arian sy'n ddyledus i'r Cyngor. Mae'n egluro'r modd y bydd y Cyngor yn mynd ati i geisio adennill cymaint o ddyledion ag sy'n bosibl. Mae hefyd yn anelu at –<br><br>• Drin pobl yn deg wrth gasglu incwm sy'n ddyledus i'r Cyngor;<br>• Sicrhau'r siawns gorau posibl o ddod o hyd i ddatrysiad buan ac effeithiol pan fydd person/busnes yn mynd i ddyled neu'n disgwyl y bydd yn wynebu anawsterau ariannol gyda'r Cyngor;<br>• Sicrhau ymagwedd gydlynol tuag at ddelio gyda phobl a chanddynt nifer o ddyledion gyda'r Cyngor;<br>• Darparu ymagwedd gefnogol tuag at adennill dyledion gan gwrdd ag anghenion unigolion a'u cyfeirio i asiantaethau cymorth annibynnol;<br>• Darparu côd ymarfer ar gyfer staff y Cyngor, ei asiantaethau gorfodaeth ac/neu gasglwyr dyledion ac unrhyw berson neu sefydliad arall a ddefnyddir gan y Cyngor i gasglu dyledion gyda gofal a disgresiwn gan bobl yr ystyrir eu bod yn fregus. |
| **4 - Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei asesu?** | Holl wasanaethau'r Cyngor |
| **5 - Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma?** | Swyddogaeth Adnoddau |

| **Cam 1: Y Cefndir** | |
|---|---|
| **6 - Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr asesiad yma?** | Y gwasanaethau a phartneriaid |
| **7 - Oes yna gyswllt rhwng y cynnig yma a meysydd gwaith eraill?**<br><br>Er enghraifft, oes una unrhyw gynigion neu bolisiau eraill y dylid eu cymryd ystyriaeth wrth asesu'r effaith? | Cynllun y Cyngor 2017-2022, Datganiad ac Amcanion Llesiant, Strategaeth Gwrth-dlodi Gorffennaf 2018, Cynllun Gweithredu 2017 ar gyfer Gweithredu Credyd Cynhwysol.<br><br>Cyfres o bolisïau gweithdrefnol manylach i gefnogi'r Polisi yn sôn am y meysydd incwm a gesglir gan y Cyngor a phrotocolau'n rheoli'r defnydd o asiantau gorfodaeth/casglwyr dyledion, ceisio dod o hyd i bobl sydd wedi rhedeg i ffwrdd, defnydd o asiantau credyd a phrotocolau ar gyfer defnyddio gorchmynion dedfrydau i gyfnodau yn y carchar, gorchmynion methdaliad ac arwystlon i adennill dyledion.<br><br>Mae'r cynnig hefyd yn cymryd i ystyriaeth, ac yn adeiladu ar Brotocol Dreth Gyngor Cymru "Arfer Dda wrth Gasglu'r Dreth Gyngor", Ionawr, 2019 – Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chynghorau Cymru; "Cymryd Rheolaeth o Nwyddau": Safonau Cenedlaethol, Ebrill 2014 – Y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac "Ein Hymagwedd yn y Dyfodol tuag at Ddefnyddwyr", 2017 ac "Arolwg O'n Bywydau Ariannol", 2017 – Awdurdod Ymddygiad Ariannol. |
| **8 - Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?** | Dyledwyr y mae arnynt arian i Gyngor Sir Yn y Môn. |

| Cam 1: Y Cefndir | | | |
|---|---|---|---|
| **9 - Ydy'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd cyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â phobl sy'n cael eu gwarchod gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010?** | **Ydi** | **Nac ydi** | |
| **Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu** | ✓ | | |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | ✓ | | |
| **Meithrin perthynas dda** | ✓ | | |
| **Diogelu a hyrwyddo hawliau dynol** | ✓ | | |
| | Noder: Fel rheol, mae unrhyw cynnig sy'n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws pob grŵp a warchodir. | | |

| Cam 2: Casglu gwybodaeth | |
|---|---|
| **10 - A yw'r cynnig yma'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir?** | Ydi.<br><br>Fodd bynnag, dylid nodi, yn achos dyledwyr sy'n dymuno gwneud eu dewisiadau eu hunain ynghylch bwy y dylent ofyn am help ganddynt sy'n addas i'w gofynion nhw, bod yr help hwnnw'n debygol o fod ar gael drwy gyfrwng y Saesneg yn unig. |
| **11 - Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd?** | Oes – ond noder y sylwadau uchod. |
| **12 – A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr?** | Bydd – ond noder y sylwadau uchod. |
| **13 – A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned?** | Bydd – ond noder y sylwadau uchod. |

<table>
<tr><th colspan="3">Cam 2: Casglu gwybodaeth</th></tr>
<tr><td colspan="3">Mae Atodiad 1 i’r Canllawiau Asesu Effaith yn rhestru cyfres o gwestiynau y dylid eu hystyried wrth edrych sut bydd cynigion yn effeithio ar yr iaith Gymraeg yn gyffredinol. Bydd y graddau mae’r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw. Y bwriad yw gwneud i chi feddwl am effaith neu gyfraniad ehangach posibl ac mae modd eu defnyddio fel sail ar gyfer ystyried cwestiynau 10 - 13 uchod.<br><br>Fodd bynnag, wrth edrych ar sut fyddai prif bolisïau a strategaethau’r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg, argymhellir y dylid ystyried y cwestiynau hyn yn fwy manwl er mwyn cynnal asesiad cynhwysfawr – mae templed ar wahân ar gael gyda’r papurau hyn ar MonITor, i chi gwblhau os fyddai hynny’n briodol.</td></tr>
<tr><td>14 - Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol? Os oes, beth yw’r materion yma?<br><br>(Er enghraifft, a fyddai’r cynnig yn arwain at fethu a diogelu’r hawl i breifatrwydd?)<br><br>(Mae’r 16 hawl sylfaenol wedi’u rhestru yn Atodiad 1).</td><td colspan="2">Na</td></tr>
<tr><td rowspan="7">15 - Ydi cynnig yn cyflawni unrhyw rai o’r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015?<br><br>(Mae disgrifiadau o’r nodau llesiant wedi’u rhestru yn Atodiad 2)</td><td>Cymru lewyrchus</td><td>✓</td></tr>
<tr><td>Cymru gydnerth</td><td></td></tr>
<tr><td>Cymru iachach</td><td>✓</td></tr>
<tr><td>Cymru sy’n fwy cyfartal</td><td>✓</td></tr>
<tr><td>Cymru o gymunedau cydlynus</td><td>✓</td></tr>
<tr><td>Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu</td><td></td></tr>
<tr><td>Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang</td><td></td></tr>
<tr><td>16 - Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran cyfranogiad ac ymgynghoriad mewn perthynas â’r cynnig yma?</td><td colspan="2">Ceir manylion am y polisi a’r egwyddorion sy’n gysylltiedig â chasglu arian sy’n ddyledus i’r Cyngor sydd eisoes yn cael eu rheoli drwy ddeddfwriaeth a phrotocolau arfer dda. Mae’r Polisi’n cymryd i ystyriaeth y sylwadau a wnaed gan y gwasanaethau a chan sgriwtini.</td></tr>
<tr><td>17 – Ydych chi wedi defnyddio unrhyw wybodaeth arall sy’n berthnasol i’r cynnig fel rhan o’ch asesiad? Os hynny, rhowch y manylion yma ogydda.</td><td colspan="2">Wedi adolygu polisïau awdurdodau lleol eraill a phrotocolau cenedlaethol.</td></tr>
<tr><td>18 - Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma?<br><br>Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw?</td><td colspan="2"></td></tr>
</table>

## Cam 3: Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru

**19 - Nodwch isod unrhyw effaith debygol o safbwynt cydraddoldeb ar y grwpiau unigol, ynghyd ag adnabod pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma.**

*Er mwyn penderfynu natur yr effaith debygol, dewiswch un o'r canlynol os gwelwch yn dda – **Negyddol / Cadarnhaol / Dim effaith**

| Y Grwp a Warchodir | * Yr Effaith Debygol | Manylion am yr Effaith | Camau i Liniaru Effaith Negyddol |
|---|---|---|---|
| **Oed** | **Cadarnhaol** | **Ystyried y ffaith y gall rhai pobl mewn oed fod yn agored i niwed oherwydd eu bod yn fregus, yn ddryslyd, yn sâl ac yn y byw ar incwm sefydlog a chyfyngedig. I ddibenion y Polisi hwn, caiff pobl dan 18 oed eu hystyried yn bobl 'fregus'.** | |
| **Anabledd** | **Cadarnhaol** | **Ystyried y gall pobl â rhai anableddau penodol fod yn fregus oherwydd eu bod yn effeithio ar eu gallu i ddelio gyda materion ariannol ac er mwyn diogelu eu heiddo rhag cael ei gymryd oddi arnynt. Caiff pobl a chanddynt broblemau iechyd meddwl neu anawsterau dysgu eu hystyried yn bobl 'fregus' i bwrpas y polisi hwn.** | |
| **Rhyw** | **Dim effaith** | | |
| **Newid Rhyw** | **Dim effaith** | | |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | **Cadarnhaol** | **Ystyrir bod merched sy'n dod tuag at ddiwedd eu beichiogrwydd ac sydd heb bartner neu ar incwm isel neu fudd-daliadau yn 'fregus'.** | |
| **Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd** | **Dim effaith** | | |

| Y Grwp a Warchodir | * Yr Effaith Debygol | Manylion am yr Effaith | Camau i Liniaru Effaith Negyddol |
|---|---|---|---|
| **Crefydd neu Gred** | **Dim effaith** | | |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | **Dim effaith** | | |
| **Yr iaith Gymraeg** | **Cadarnhaol** | **Mae'r polisi'n cydymffurfio â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor, Mai 2016, a gyda'r Safonau Iaith Gymraeg, Mawrth 2016.** | |
| **Hawliau Dynol** | **Cadarnhaol** | **Caiff gwybodaeth ei diogelu a dyledion eu hadennill yn unol â deddfwriaeth a heb wahaniaethu.** | |
| **Priodas neu bartneriaeth sifil** | **Dim Effaith** | | |
| **Unrhyw fater arall perthnasol, ee tlodi, mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig** | **Cadarnhaol** | **Ystyrir y modd y gall pobl sy'n byw ar fudd-daliadau lefel cynhaliaeth, sy'n methu siarad Cymraeg neu Saesneg, sydd ag anhawster ysgrifennu a darllen, lles plant ac ati fod yn fregus.** | |

| **Cam 4: Canlyniad yr asesiad** | |
|---|---|
| **20 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol** (sef crynodeb o'r tabl uchod). | Dim effeithiau andwyol wedi eu nodi |
| **21 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?** | |
| **22 - Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed neu a fwriedir i wneud y mwyaf o'r cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb a/neu nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (cynaliadwyedd).**<br><br>**(**Rhestrir y saith nod llesiant yn Atodiad 2) | Polisi |

| Y Grwp a Warchodir | * Yr Effaith Debygol | Manylion am yr Effaith | Camau i Liniaru Effaith Negyddol |
|---|---|---|---|
| **23 - A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma?**<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario ‘mlaen gyda’r cynnig ar yr adeg yma). | | | Na |
| **24 - A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad?** | | | Y Pwyllgor Sgriwtini i argymell i’r Pwyllgor Gwaith ei fod yn cymeradwyo’r Polisi. |
| **25 - Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw’r trefniadau hynny?** | | | Mae dulliau rheoli, ynghyd â phrosesau monitro perfformiad rheolaidd ac adolygiad annibynnol, yn eu lle er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â’r Polisi a pholisïau a phrotocolau gweithdrefnol ategol. |

## Cam 5 – Cynllun Gweithredu

**Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi’u cynllunio yn dilyn cwblhau’r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach**

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Atodiad 1 – Hawliau Dynol

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, gwaeth beth yw eu cenedligrwydd nag eu dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)
Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

## Atodiad 2 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

| Nod | Disgrifiad o'r nod |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| **Cymru gydnerth** | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| **Cymru iachach** | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| **Cymru o gymunedau cydlynys** | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

Tudalen 149

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **17eg Mehefin, 2019** |
| **Pwnc:** | **Gostwng Oed mynediad Ysgol Henblas** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd R. Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Mr Arwyn Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Meinir Hughes**<br>**01248752947**<br>**MeinirHughes@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Cynghorydd Dafydd Roberts**<br>**Cynghorydd Eric Wyn Jones** |

| **A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau** |
|---|

Derbyniwyd cais gan Gorff Llywodraethu Ysgol Henblas i'r Awdurdod ystyried gostwng oed mynediad yr ysgol i dderbyn disgyblion yn rhan-amser o'r Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed.

Ar 29ain Ebrill, 2019, adroddwyd i Bwyllgor Gwaith y Cyngor ar yr ymatebion a dderbyniwyd gan ran-ddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad statudol. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig ac fe drafodwyd yr ymatebion cefnogol o fewn yr adroddiad. Yn eu cyfarfod ar 29ain Ebrill, penderfynodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor fel a ganlyn:

i. Cymeradwyo'r cynnig i ostwng oed mynediad Ysgol Henblas i dderbyn disgyblion yn rhan amser o'r Mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed, hyn yn weithredol o 31 Awst 2019.
ii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig yn (i) uchod yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)2013

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013, a Chôd Trefniadaeth 011/2018 ynghyd â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn eu cyfarfod ar 29ain Ebrill, cyhoeddwyd rhybudd statudol ar 13 Mai 2019. Yn dilyn hyn fe gynhaliwyd cyfnod gwrthwynebu statudol o 28 diwrnod ar y cynnig hwn.

Gan na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau mae swyddogion yr Awdurdod yn argymell fod Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn cadarnhau'n derfynol y cynnig i ostwng oed mynediad Ysgol Henblas i fod yn weithredol o 31 Awst 2019.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| |

| |
|---|
| Yr opsiwn arall yw parhau gyda'r trefniadau presennol fodd bynnag ni chafwyd gwrthwynebiadau i'r cynnig. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae newid ystod oedran ysgol yn "newidiad a reoleiddir" o fewn trefn ail strwythuro ysgolion ac o fewn gofynion Côd Trefniadaeth Ysgolion, 011/2018.<br>Penderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith yw hyn ac mae angen iddynt gyhoeddi cynigion ar y newid gan ystyried yr ymatebion. |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy, mae'r awdurdod wedi dilyn y broses gydag ysgolion eraill dros y blynyddoedd diwethaf. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydy. |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Mae angen cwblhau asesiadau effaith cydraddoldeb – wedi ei atodi: Atodiad 2. Mae angen manylu ar ymateb staff y cylch gan asesu'r effaith arnynt gan y cynnig. Hyn wedi ei ychwanegu i'r adroddiad. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |

| | | |
|---|---|---|
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Adroddiad ar yr Ymgynghori. |

| **FF -Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Dim |

**Atodiad 1**

**22/05/19**

# ADRODDIAD CYFNOD GWRTHWYNEBU CYNNIG I OSTWNG OED MYNEDIAD YSGOL HENBLAS

## 1. Cefndir

Pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd yn dilyn cyfnod rhybudd statudol ar y cynnig i ostwng oed mynediad Ysgol Henblas, Llangristiolus, Bodorgan fel eu bod yn derbyn disgyblion yn rhan amser o'r mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed, hyn yn weithredol o 31 Awst 2019.

Ar 29ain Ebrill, 2019, adroddwyd i Bwyllgor Gwaith y Cyngor ar yr ymatebion a dderbyniwyd gan ran-ddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad statudol. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig ac fe drafodwyd yr ymatebion cefnogol o fewn yr adroddiad. Yn eu cyfarfod ar 29ain Ebrill, penderfynodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor fel a ganlyn:

iii. Cymeradwyo'r cynnig i ostwng oed mynediad Ysgol Henblas i dderbyn disgyblion yn rhan amser o'r Mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed, hyn yn weithredol o 31 Awst 2019.
iv. Cymeradwyo cyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig yn (i) uchod yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)2013

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013, a Chôd Trefniadaeth 011/2018 ynghyd â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn eu cyfarfod ar 29ain Ebrill, cyhoeddwyd rhybudd statudol ar 13 Mai 2019. Yn dilyn hyn fe gynhaliwyd cyfnod gwrthwynebu statudol o 28 diwrnod ar y cynnig hwn.

O dan adran 49 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae'n rhaid i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau ac ymateb i'r gwrthwynebiadau hynny yn yr adroddiad hwn sef 'Adroddiad Gwrthwynebu'

Gosodwyd copi o'r rhybudd ym mhrif fynedfa'r ysgol a'r cylch meithrin cyfagos. Dosbarthwyd copïau electroneg a chaled o'r rhybuddion yn unol â gofynion y Côd Trefniadaeth Ysgolion. Nodwyd yn glir yn y rhybuddion bod modd i unrhyw un wrthwynebu a sut yr oedd modd gwneud hynny.

Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 10fed Mehefin 2019.

**Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod gwrthwynebu.**

## 2. Camau Nesaf

Gan na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau mae'r adran Dysgu Gydol Oes yn argymell fod Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn cadarnhau'n derfynol y cynnig i ostwng oed mynediad Ysgol Henblas yn weithredol o Awst 31ain, 2019.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 17 Mehefin 2019 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Cynnydd ar y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>Ffôn:<br>E-bost: | Elin Williams, Rheolwr Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>01248 751813<br>ElinWilliams@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Yn berthnasol i'r holl Aelodau |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**ARGYMHELLION**

- **I gadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon â chyflymder y cynnydd a’r gwelliannau hyd yma o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.**

**Cefndir**

Fel Aelodau Etholedig, rydych yn llwyr ymwybodol o gefndir y Cynllun Gwella Gwasanaeth a’r ffaith ei fod yn cael ei adolygu’n rheolaidd gan y Panel Gwella Gwasanaethau Plant. Yn dilyn ail-arolwg o’r gwasanaeth yn ddiweddar gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), mae’r gwasanaeth bellach yn dilyn Cynllun Datblygu Gwasanaeth newydd sy’n cymryd lle’r Cynllun Gwella Gwasanaeth blaenorol.

Mae’r Cynllun Datblygu Gwasanaeth yn gynllun 3 blynedd ac mae’n cynnwys y 5 thema ganlynol:

1. Gweithlu hyderus a medrus i ddarparu gwasanaeth cyson ac effeithiol;
2. Asesiadau, cynllunio gofal, ymyraethau a phenderfyniadau amserol o ansawdd uchel i amddiffyn, cefnogi a rheoli’r risgiau i blant: cronolegau, cofnodion a thystiolaeth a theclynnau ymchwil o ansawdd;
3. Fframwaith perfformiad a sicrwydd ansawdd sy’n cefnogi’r awdurdod lleol i reoli ei gyfrifoldebau tuag at blant yn effeithiol;
4. Ymyrraeth gwaith cymdeithasol priodol ‘ar yr adeg iawn’ er mwyn gwella bywyd teuluoedd ar adegau o drawma;
5. Gwella deilliannau i blant mewn gofal.


Mae'r gwasanaeth yn frwdfrydig ynghylch ei Gynllun Datblygu Gwasanaeth wrth symud ymlaen.

Ers yr adroddiad diwethaf, mae gwaith y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi canolbwyntio ar:

**1. Perfformiad**

Gellir gweld gwelliant amlwg yn y Dangosyddion Perfformiad (DP) ar gyfer Chwarter 4 o fewn y gwasanaeth. Mae perfformiad wedi parhau i wella yn y rhan fwyaf o feysydd sydd yn cael eu mesur ac mae hynny'n arwydd o'r newidiadau cadarnhaol a datblygiadau sydd yn digwydd o fewn y gwasanaeth cyfan.


1.1 Ymweliadau Amddiffyn Plant Statudol




Mae'r Dangosydd Perfformiad hwn yn mesur nifer yr Ymweliadau Amddiffyn Plant Statudol a gynhaliwyd yn unol â'r amserlen.

Chwarter 4 yw chwarter gorau'r flwyddyn, gyda sgôr o **96.69%** (methwyd **17** allan o **514**). Methwyd **185** o ymweliadau yn ystod y flwyddyn, sef **660** yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn welliant sylweddol. Y sgôr diwedd blwyddyn yw **89.80%**.


1.2 <u>Grwpiau Craidd Amddiffyn Plant</u>




Mae'r Dangosydd Perfformiad hwn yn mesur nifer y Grwpiau Craidd Amddiffyn Plant a gynhaliwyd yn unol â'r amserlen.

Mae'r DP hwn wedi parhau i wella ers mis Awst a gwelwyd gwelliant sylweddol yn ystod y ddau fis diwethaf, gyda **99%** yn cael ei gyflawni ym mis Chwefror. Mae hyn yn galonogol iawn ac mae'r gwasanaeth yn anelu i gyflawni **100%** wrth symud ymlaen.


1.3 <u>Plant sydd wedi Symud Ysgol o Ganlyniad i Newid mewn Lleoliad</u>




Mae'r Dangosydd Perfformiad hwn yn mesur nifer y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi symud ysgol am resymau heblaw trosglwyddo.

Y llynedd bu'n rhaid i bron i **draean** o blant oedran ysgol symud ysgol am resymau heblaw trosglwyddo, gyda **19** ym mis Medi yn unig, y lefel uchaf mewn 5 mlynedd. Yn 2016/17 a 2015/16 y ffigwr oedd **17%**, felly mae ffigwr eleni **(6.50%)** yn sylweddol is ac yn is na'r targed.


1.4 <u>Plant Mewn Gofal sydd wedi Dychwelyd Adref</u>




Mae'r Dangosydd Perfformiad hwn yn mesur nifer y plant sydd wedi dychwelyd adref.

Bu i nifer uchel o blant ddychwelyd adref yn ystod chwarter 4 ac mae hyn yn welliant ar ffigwr y llynedd, gyda **9.73%** yn dychwelyd adref eleni o gymharu â **9.09%** y llynedd.


1.5 Plant sy'n cael eu Hailgofrestru o fewn 12 Mis




Mae'r Dangosydd Perfformiad hwn yn mesur nifer y plant sydd wedi ailgofrestru o fewn 12 mis.

Mae gwelliant o gymharu ag y llynedd. Eleni roedd **122** o gofrestriadau yn y gwasanaeth ac o'r 122 hynny, dim ond **3** oedd wedi ailgofrestru o fewn 12 mis, ac roedd y 3 phlentyn yn perthyn i'r un teulu. Y sgôr terfynol ar gyfer y flwyddyn hon oedd **2.46%**.

1.6 Adolygiadau Amddiffyn Plant a Phlant sy'n Derbyn Gofal




Mae'r Dangosydd Perfformiad hwn yn mesur nifer yr adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal ac adolygiadau amddiffyn plant a gynhaliwyd yn unol â'r amserlen.

Bu perfformiad mewn perthynas ag adolygiadau yn dda eleni, er gwaethaf y sgôr isel yn chwarter 1 ar gyfer adolygiadau amddiffyn plant. Mae gweddill y flwyddyn wedi

bod yn gyson iawn, a chafwyd uchafbwynt yn chwarter 3 drwy gyflawni **100%** o adolygiadau amddiffyn plant ac yn chwarter 4, drwy gyflawni **100%** o adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae hyn yn galonogol iawn.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i geisio cyflawni'r canlyniadau gorau posib yn erbyn pob un o'r Dangosyddion Perfformiad.

**2. <u>Cwynion a Sylwadau Cadarnhaol</u>**

Mae'r canlynol yn grynodeb o'r cwynion a'r sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn ystod Chwarter 4:

- Bu gostyngiad yn nifer y cwynion Cam 1 a gofnodwyd (**3** yn ystod y chwarter).
- Cofnodwyd **10** o bryderon / sylwadau negyddol yn ystod y chwarter.
- Cofnodwyd **12** canmoliaeth yn ystod y chwarter. Mae'r **7** canmoliaeth gan deuluoedd yn dangos eu gwerthfawrogiad am y budd y mae teuluoedd wedi'i gael o'r gwasanaeth a sut mae gweithwyr wedi datblygu perthnasau cadarnhaol gyda phlant. Mae'r **5** canmoliaeth gan weithwyr proffesiynol yn amlygu barn gadarnhaol am ymwneud gweithwyr cymdeithasol ag achosion lle bu achos llys, ac yn gwerthfawrogi sut yr oedd cynllun amddiffyn plant clir ac o safon uchel wedi helpu rhieni i wneud newidiadau.

Mae'r canlynol yn rhoi trosolwg o nifer y cwynion a'r sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd am y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19:

Roedd **30** o gwynion Cam 1, **2** gŵyn Cam 2 a **0** ymchwiliad gan yr Ombwdsmon.

Mae'r **68** canmoliaeth a dderbyniwyd yn dangos gwerthfawrogiad o:

- y ffordd y mae staff yn cyfathrebu ac yn gwrando;
- y gefnogaeth a dderbyniwyd a'r gwahaniaeth y mae hyn wedi'i wneud i deuluoedd, yn cynnwys cynyddu hyder;
- staff yn ymddwyn mewn modd proffesiynol, gwybodus ac effeithiol;
- perthnasau cadarnhaol a ffurfiwyd gyda defnyddwyr gwasanaeth, yn cynnwys plant.

Mae'n gadarnhaol gweld bod nifer y cwynion Cam 1 wedi gostwng yn ystod Chwarter 4 a bod nifer o sylwadau cadarnhaol a chanmoliaeth.

**3. <u>Polisïau Ôl-ofal</u>**

Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth Ôl-ofal wedi cynhyrchu polisïau newydd mewn

perthynas â phobl ifanc sydd wedi gadael y gwasanaeth. Mae’r tri polisi canlynol wedi eu cymeradwyo ac ar waith:

- Protocol ar y cyd ar gyfer Pobl Ifanc a Phobl Ifanc sy’n Gadael Gofal Ynys Môn rhwng y Gwasanaethau Tai a’r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd;
- Polisi Gadael Gofal;
- Canllawiau i Bobl Ifanc i Gymorth a Chefnogaeth Ariannol.

Mae’r polisïau yn darparu arweiniad ynglŷn â pa gymorth sydd ar gael i bobl ifanc sydd yn gadael gofal, neu sydd wedi gadael gofal, yn ymwneud ag arian a budd-daliadau; tai a llety; rolau a chyfrifoldebau; addysg, cyflogaeth a hyfforddiant; iechyd a llesiant a chadw mewn cysylltiad â’r gwasanaeth.

**4. <u>Polisi Arian Poced, Cyfrif Banc a Chynilion ar gyfer Plant sy’n Derbyn Gofal</u>**

Lluniwyd polisi newydd ynglŷn â materion ariannol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal, yn dilyn ymgynghori â Gofalwyr Maeth Môn, Darparwyr Annibynnol ac Asiantaethau Maethu awdurdodau lleol eraill. Mae’r polisi yn darparu cyfeiriad clir ynglŷn â disgwyliadau’r awdurdod lleol mewn perthynas ag arian poced, cyfrifon banc, cynilion ac *ISA* Plant ar gyfer plant sy’n derbyn gofal.

**5. <u>Pecyn Maethu</u>**

Erbyn hyn mae’r Cyngor yn cynnig pecyn mwy cystadleuol o safbwynt lwfansau a chymhellion er mwyn helpu i recriwtio mwy o Ofalwyr Maeth i’r Cyngor.

Mae’r pecyn yn cynnwys:

- Cynnydd o 10% yn y Lwfans Maethu;
- Gostyngiad o 50% yn y Dreth Gyngor;
- Cerdyn Aelodaeth Gwasanaethau Hamdden Ynys Môn yn rhad ac am ddim;
- Tocyn parcio rhad ac am ddim ar gyfer meysydd parcio’r Cyngor.

Ers cyhoeddi’r pecyn maethu newydd ym mis Ionawr 2019, derbyniwyd **15** o ymholiadau gan bobl sydd wedi dangos diddordeb mewn bod yn Ofalwyr Maeth i’r Cyngor; mae **12** wedi cychwyn ar y broses asesu, ac mae **3** wedi cael eu cymeradwyo fel Gofalwyr Maeth gan y Panel Maethu. Mae ymgyrch farchnata barhaus mewn lle i barhau i recriwtio Gofalwyr Maeth er mwyn sicrhau bod digon o leoliadau maeth ar gael i blant lleol.

**6. <u>Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol</u>**

Yn y cyfarfod o’r Bwrdd Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion a gynhaliwyd ar 22 Mai 2019 a’r cyfarfod o’r Panel Gwella Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a

| |
|---|
| gynhaliwyd ar 23 Mai 2019, penderfynwyd sefydlu Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd hyn yn caniatáu i'r Gwasanaethau Oedolion gael yr un lefel o sgriwtini â'r hyn y mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi ei gael yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bydd hefyd yn fodd i Aelodau Etholedig gael gwybodaeth fanylach am y prosesau a'r heriau yn y Gwasanaethau Oedolion. Argymhellir bod y panel newydd yn cychwyn ar ei waith ar unwaith. O'r herwydd, y cyfarfod nesaf fydd y cyfarfod o'r panel newydd sef y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a bwriedir ei gynnal ar 27 Mehefin 2019. |

| **B - Pa opsiynau eraill yr oeddech chi'n eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis y dewis hwn?** |
|---|
| Ddim yn berthnasol. |

| **C - Pam mae hyn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r gwasanaeth angen cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith ei fod yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau hyd yma o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. |

| **CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi. |

| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Fe ddaru hyn gael ei gymeradwyo gan yr UDA ar y 28 Mai 2019. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Fel yr uchod. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Fel yr uchod. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a** | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| | **Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **8** | **Craffu Pwyllgor 03.06.19** | Yn cadarnhau ei fod yn fodlon gyda chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac yn llongyfarch y Gwasanaeth yn hyn o beth.<br><br>Yn cymeradwyo sefydlu Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol i gychwyn ar ei waith ar unwaith. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Amherthnasol |

| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Amherthnasol |
| **2** | **Gwrth-dlodi** | Amherthnasol |
| **3** | **Trosedd ac Anrhefn** | Amherthnasol |
| **4** | **Amgylcheddol** | Amherthnasol |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Amherthnasol |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Amherthnasol |
| **7** | **Arall** | Amherthnasol |
| | | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| |

CC-016749-LB / 229501

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# *PUBLIC INTEREST TEST*

**Eitem 14 – Contract Rheoli Gwastraff**
**Item 14 – Waste Management Contract**

| | |
|---|---|
| Paragraff 14 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph 14 of Schedule 12A Local Government Act 1972 | |
| Y PRAWF – *THE TEST* | |
| Mae yna fudd i'r cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / *There is a public interest in disclosure as*:-<br><br>• Mae'r adroddiad Pwyllgor amgaeedig a'r atodiadau yn rhoi manylion mewn perthynas â'r opsiynau ar gyfer casglu gwastraff a glanhau strydoedd i'r dyfodol.<br><br>• *The enclosed Committee Report and accompanying appendices provide details in relation to future waste collection & street cleansing options.* | Y budd i'r cyhoedd with beidio datgelu yw / *The public interest in not disclosing is*:-<br><br>• Mae'r wybodaeth yn adroddiad Pwyllgor amgaeedig yn cynnwys trafodaeth am yr opsiynau ar gyfer darparu i'r cyhoedd gwasanaeth casglu gwastraff a glanhau strydoedd i'r dyfodol. Gall datgelu'r wybodaeth yn yr adroddiad amharu ar fuddiannau masnachol y Cyngor o ran sicrhau'r telerau ac amodau mwyaf manteisiol mewn unrhyw ymarfer caffael yn y dyfodol. Yn ei dro, gallai hyn gael effaith negyddol ar y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd.<br><br>• *The information contained within the enclosed Committee Report includes discussion about the options for the future delivery of the waste collection & street cleansing a service to the public. Disclosing the information in the report may prejudice the Council's commercial interests in securing the most advantageous terms and conditions in any future procurement exercise. In turn, this may have a negative impact on service delivery to the public.* |
| **Argymhelliad:** Mae'r budd i'r cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na'r budd i'r cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth<br>***Recommendation:*** *The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.* | |

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank